



Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 30AIN MEHEFIN, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 23 Mehefin 2022)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Paul John Rowlinson

Medwyn Hughes
Meryl Roberts

Huw Rowlands
Elfed Wyn ap Elwyn

(2 sedd wag)

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Richard Glyn Roberts

John Brynmor Hughes
Rob Triggs

Aelodau Lleyg (6)

Mr Hywel Eifion Jones
Mrs Clare Hitchcock
Mr Elwyn Rhys Parry
Mrs Sharon Warnes

(2 sedd wag)

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022 - 2023

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2022 - 2023

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Chwefror 2022 fel rhai cywir

7. CYFRIFON TERFYNOL 2021/22 - ALLDRO REFENIW

17 - 44

I dderbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2021/22, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.

8. RHAGLEN GYFALAF 2021-22 - ADOLYGIAD DIWEDD 45 - 55 BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2022)

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen

9. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y 56 - 66 FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022

I dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon

10. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR 67 - 95 GWYNEDD AR GYFER 2021/22

I ystyried a chymeradwyo'r datganiad fel y gall Arweinydd y Cyngor a'r Prif

- 11. RHEOLAETH TRYSORLYS 2021/22** 96 - 104
I ystyried a derbyn yr adroddiad fel gwybodaeth
- 12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 105 - 143
I dderbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol
- 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2021/2022** 144 - 158
I ystyried a derbyn yr adroddiad
- 14. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** 159 - 172
I ystyried a chymeradwyo'r Siarter
- 15. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022/2023** 173 - 188
I ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol
- 16. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU** 189 - 207
I ystyried a derbyn yr adroddiad
- 17. CYNLLUN ARCHWILIO 2022 – CYNGOR GWYNEDD A MAN GYD-BWYLLGORAU** 208 - 223
I ystyried yr adroddiad
- 18. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 224 - 249
Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 10-02-2022

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts,

Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Sion W Jones, W G Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Aron John (Cynllun Yfory: Hyfforddai Proffesiynol Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)
Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)
Jeremy Evans (Archwilio Cymru)
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled LI Evans a Selwyn Griffiths

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

- a) Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams yn eitem 5 ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu yn gyflogedig gan y Cyngor

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth

- b) Y Cynghorydd W Gareth Roberts yn eitem 5 ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu yn gyflogedig gan y Cyngor

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2021 fel rhai cywir

5. PENDERFYNIAD CABINET 18/01/22: EITEM 6 DATHLU DYDD GŴYL DEWI

Amlygodd y Swyddog Monitro bod gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn ei rôl craffu materion corfforaethol, yr hawl i alw penderfyniad Cabinet i mewn i'w adolygu ynghyd a derbyn mwy o wybodaeth sydd yn berthnasol i agweddau'r penderfyniad hwnnw.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol) i gyflwyno'r wybodaeth ac egluro cefndir y penderfyniad.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor Llawn ar y 7 Hydref 2021 wedi penderfynu yn unfrydol ofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Dewi fel diwrnod swyddogol o wyliau i'w gweithlu. Yng nghyfarfod y Cabinet 18 Ionawr 2022, penderfynwyd dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor. Amlygodd fod cais wedi ei dderbyn am fwy o wybodaeth am y gost (oddeutu £200k) i weithredu'r penderfyniad a hefyd sylw, fod modd defnyddio'r arian i bwrpas arall er budd trigolion Gwynedd.

Eglurodd yr Aelod Cabinet nad oedd cost i ddiwrnod ychwanegol o wyliau ar y 1af o Fawrth 2022 i'r staff sy'n gweithio mewn swyddfa neu gartref - y diwrnod yn cael ei ychwanegu i'w hawl blyneddol. Byddai cost uniongyrchol yn gysylltiedig â staff maes gofal a staff casglu gwastraff fydd yn derbyn diwrnod ychwanegol i'w gymryd eto. Ar gyfer hyn, bydd angen talu cyfar (cost ychwanegol o oddeutu £45k (Gofal) a £30k (Priffyrdd a Bwrdeistrefol). Adroddwyd bod cymhorthyddion dysgu a staff ategol ysgolion yr hawl i ddiwrnod ychwanegol, ond yn gorfod gweithio o fewn tymor ysgol - bydd y rhain yn derbyn addasiadau i'w cyflogau (cost oddeutu £90k). Gydag amodau gwaith Athrawon yn cael ei benderfynu yn genedlaethol, nid oedd modd eu cynnwys yn y penderfyniad.

Eglurwyd mai tanwariant o natur gorfforaethol fyddai'n talu'r costau - arian fyddai'n arferol yn trosglwyddo i gronfa wrth gefn ac nid arian a delir o wasanaethau unigol. Bydd yn daliad un tro, heb effaith ar gyllideb 2022/23. Amcangyfrifiad o uchafswm yw £200k. Ni fydd yr arian yn cael ei ryddhau i'r adrannau hyd nes bydd y gwariant wedi digwydd.

Diolchwyd i'r swyddogion am ymateb i'r penderfyniad drwy weithredu a chynnal trafodaethau gyda'r Undebau i sicrhau bod y dyhead yn cael ei wireddu. Pwysleisiwyd bod y Cabinet wedi ymateb mewn ewyllys da i benderfyniad unfrydol y Cyngor Llawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Cefnogi dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ond angen ei wneud yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol i bawb
- Bod ymateb y cyhoedd wedi bod yn eithaf negyddol
- Amseriad y penderfyniad yn achosi pryder - mewn cyfnod o gynnydd mewn trethi, a chostau byw, o ble mae'r arian wedi dod?
- Cytuno gyda'r cysyniad ond y cyfnod yn anghywir
- Angen pwysu eto ar Lywodraeth i ail ystyried ei wneud yn wyliau swyddogol
- Nad oedd gwybodaeth ynglŷn â chost diwrnod ychwanegol o wyliau wedi ei gyflwyno na'i drafod yn y Cyngor Llawn - a fyddai canlyniad y bleidlais yn wahanol?
- Cynigion mewn Cyngor Llawn allan o reolaeth - angen ystyried beth sy'n gyfreithiol.
- Bod £200k yn swm sylweddol – dim ymgynghori wedi ei wneud gyda staff
- Bod gwell pwrpas i'r arian? Ydy hwn yn gamddefnydd o arian cyhoeddus?
- A oes gan y Cyngor y grym perthnasol i roi hawl i ddiwrnod o wyliau ychwanegol?
- Angen cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet, iddynt newid eu penderfyniad a pharhau i lobio i Lywodraeth San Steffan
- Diolchwyd am yr esboniad ar eglurhad. Derbyn bod hawl craffu'r penderfyniad, ond rhyfeddu bod y mater wedi ei alw i mewn gan rai aelodau

- Bod y Cabinet wedi ymateb i gynnig unfrydol gan y Cyngor Llawn
- Bod rhesymau AS Paul Scully dros wrthod cydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn ffurfiol fel Gŵyl y Banc yn sarhaus
- Bod dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn rheswm i ymfalchïo yn ein diwylliant
- Bod rhoi diwrnod o wyliau ychwanegol i staff yn fodd o werthfawrogi eu hymdrechion dros y ddwy flynedd ddiwethaf
- Bod cyflogwyr eraill yn cefnogi'r penderfyniad ac yn dilyn yr esiampl
- Bod angen cydnabyddiaeth swyddogol i'r Wyl
- Testun balchder bod Gwynedd yn arwain

Mewn ymateb i sylw bod rhybuddion o gynnig yn mynd allan o reolaeth yn y Cyngor Llawn, nododd y Swyddog Monitro bod y rhybudd o gynnig penodol yma wedi ei fframio yn briodol a bod y cais gan y Cyngor i'r Cabinet ystyried y cynnig hefyd yn un priodol. Ategwyd bod gan y Cyngor Llawn yr hawl i ddatgan barn, ond dim y grym i wneud penderfyniad.

Yng nghyd-destun agweddau statudol, nodwyd bod hawliau'r Cyngor i gyflogi staff a gosod amodau gwaith (gan gynnwys dyddiadau gwyliau) yn dod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adran 112. Nodwyd bod hawl sylfaenol gan y Cyngor i gyflogi staff a gosod amodau rhesymol o dan y Ddeddf yma.

Mewn ymateb i sylw am Gymhwysedd Cyffredinol, eglurwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 wedi cyflwyno Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (General Power of Competence) sydd yn nodi na all y Cyngor ddefnyddio pŵer i wneud rhywbeth lle mae Deddfwriaeth flaenorol yn cyfyngu ar eu gallu i weithredu. Ystyriwyd nad oedd y Pŵer yn berthnasol yma oherwydd bod Deddf 1972 yn rhoi hawl i'r Cyngor osod gwyliau.

Ategwyd bod Egwyddorion Wednesbury, sydd yn nodi bod rhaid i'r Cyngor ddod i benderfyniad drwy gloriannu beth sydd yn berthnasol yn unig gan anwybyddu'r amherthnasol, hefyd wedi ei ystyried. Barn y Swyddog Monitro oedd bod penderfyniad y Cabinet yn parhau o fewn pwerau statudol yr awdurdod oherwydd bod ffynhonnell ariannol briodol ar ei gyfer a bod y mater yn ymwneud a gosod dyddiad gwyliau i staff sydd o fewn hawl y Cyngor. Ystyriwyd nad oedd penderfyniad y Cabinet felly yn anghyfreithlon nac yn amhriodol.

Mewn ymateb i sylw nad oedd ymgynghoriad staff wedi ei weithredu, nodwyd bod swyddogion wedi ymgynghori gyda cynrychiolwyr yr Undebau Llafur cydnabyddedig yn unol a'r trefniadau ymgynghori arferol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i'r Cabinet ail ystyried y penderfyniad i roi dyddiad o wyliau i staff oherwydd bod y gost o £200k yn sylweddol

Pleidleisiwyd ar y cynnig

PENDERFYNWYD

Derbyn penderfyniad y Cabinet 18-01-2022

Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol â pharagraff 2.10 o'r adroddiad.

6. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD Tachwedd 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Nodwyd bod effaith ariannol Covid19 wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor - yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm (gwerth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £10 miliwn hyd yma eleni). Ategwyd bod ceisiadau i adhawlio yn cael ei gwneud yn fisol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cymryd camau i lunio rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 drwy ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion yn Ionawr 2021, eglurwyd bod oediad mewn gwireddu arbedion yn parhau mewn rhai meysydd, a'r oediad hynny yn ffactor amlwg o ganlyniad i'r argyfwng. Tynnwyd sylw at dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau ynghyd a manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion.

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - rhagwelwyd gorwariant o bron i £1 miliwn eleni (£995k) gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Prif feysydd gorwariant - gwasanaethau pobl hŷn, anableddau dysgu a gofal cymunedol gydag effaith Covid yn parhau i gael ardrawiad sylweddol ar yr Adran. Eto eleni gyda gwerth dros £3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod. Caniatwyd dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.
- Adran Plant a Theuluoedd - dyrannwyd £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllideb 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu. O ganlyniad, rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn.
- Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol – bod problemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn parhau ynghyd a thrafferthion gwireddu arbedion mewn nifer o feysydd (gwerth £666k). Yr adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol yn ymwneud â Covid, ond yn ffyddiog bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddigolledu am weddill y flwyddyn.
- Corfforaethol - rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac yn cyfrannu at danwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Ategwyd bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant ar gyllidebau Corfforaethol a hefyd gan danwariant gan fwyafrif o'r adrannau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol wedi bod gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a /neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt - a yw hyn wedi ei gwblhau?
- A yw'n bosib dadansoddi problemau gorwariant fel bod modd gweld beth yw rhagolygon gorwariant tymor hir (e.e., cynnydd mewn costau fflyd, costau trin mwy o wastraff ayyb) gan eu gwahanu o faterion arbedion? Gall hyn amlygu arbedion neu'r angen i ail ystyried y gyllideb
- A oes arian digonol yn y gyllideb o ystyried mai'r un penawdau sy'n codi bob blwyddyn, gan dderbyn bod gosod cyllideb i'r Gwasanaeth Oedolion a Llesiant yn anodd

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd bod y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd â'r Gwasanaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol yn gorwario oherwydd oediad mewn gwireddu arbedion - Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £855k a £666k gan Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Tynnwyd sylw at y rhestr bidiau gan nodi bod y drefn bidiau wedi

ystyried y pwysau hynny sydd wedi codi ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac yna blaenoriaethu'r bidiau yn effeithiol, yn y gobaith y byddai'r arian yn mynd i'r meysydd mwyaf anghenus. Ategwyd bod hyn wedi llwyddo wrth flaenoriaethu bidiau 2021/22 i'r Adran Plant a Theuluoedd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r mandad gan y Cabinet i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i fynd at wraidd problemau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, cadarnhawyd bod system casglu data a gwybodaeth ariannol bellach yn weithredol ac wedi gwella'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

7. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid o raglen gyfalaf ddiwygiedig (sefyllfa diwedd Tachwedd 2021) a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Tynnwyd sylw at effaith argyfwng Covid19 ar y rhaglen gyfalaf gan amlygu mai dim ond 37% o'r gyllideb oedd wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd 2021 o'i gymharu â 31% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 51% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19). Ategwyd bod dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £127.7 miliwn am y 3 blynedd 2021/22 - 2023/24 wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £3.7 miliwn ers yr adolygiad diwethaf ac ategwyd mai'r prif gasgliadau oedd bod y Cyngor gyda chynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £52.1 miliwn eleni, gyda £27.4 miliwn ohono, sef 53%, wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

Eglurwyd bod £22.1 miliwn o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys:

- £6.2 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai
- £5.8 miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd
- £5.4 miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 ac Eraill (unfed ganrif ar hugain)

Tynnwyd sylw at y prif gynlluniau ynghyd a rhestr grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor eu denu ers yr adolygiad diwethaf oedd yn cynnwys:

- £2.3 miliwn Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £1.4 miliwn Grant Llywodraeth Cymru tuag at Atal Llifogydd
- £0.4 miliwn Grant Cronfa Symbyliad Economaidd
- £0.3 miliwn Grant Gofal Plant Ysgol Treferythyr.

Yng nghyfarfod o'r Cabinet (18 Ionawr 2022) penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r holl argymhellion.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod yr adroddiad yn adlewyrchu newyddion da
- Llongyfarch y staff hynny sydd yn chwilio ac yn llwyddo i ddenu arian ychwanegol - y swm sylweddol iawn ac yn fuddsoddiad yng nghymwysterau'r Cyngor

Mewn ymateb i gwestiwn am gynlluniau 2022/23 sydd wedi eu hail broffilio ers y gyllideb wreiddiol (a bod y ffigwr yr un fath o flwyddyn i flwyddyn) ac a yw goblygiadau costau /

prisiau yn codi wedi ei adeiladu mewn i'r cynllun neu lithriad tebygol, nodwyd bod chwyddiant ar ei lefel uchaf ers blynyddoedd maith ac felly, tra bod swm penodol yn y gyllideb ar gyfer eitemau cyfalaf, mae'n cyfyngu pa mor bell all yr arian fynd. Cyfeiriwyd at drafodaeth yn y Cabinet yn Hydref 2021 ar adolygiad cyllideb gyfalaf ddiwedd Awst lle nododd y Prif Weithredwr bod penderfyniad bwriadol wedi ei wneud i geisio llithro rhai cynlluniau cyfalaf gan aros i sefyllfa prisiau, megis coed, sefydlogi. Ategwyd bod adlewyrchiad o'r llithriadau wedi eu cynnwys yn y ffigyrau.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor a'i Adrannau**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Croesawyd Mr Dewi Morgan i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Pennaeth Cyllid

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid a nodwyd ers 2015/16, fel rhan o strategaeth ariannol y Cyngor, bod gwerth £35m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu ar gyfer y cyfnod 2015/16 - 2021/22. Adroddwyd, wrth gyfeirio at y cynlluniau arbedion am y cyfnod o'r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2020/21 lle ymddengys bod 96%, sef dros £32 miliwn o'r £34 miliwn o arbedion, wedi eu gwireddu. Y prif gynlluniau sydd eto i'w cyflawni yw cynlluniau gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid, gydag Adrannau'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng ers Ebrill 2020 bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd.

Adroddwyd bod 45% o arbedion 2021/22, y flwyddyn ariannol gyfredol, wedi eu gwireddu sydd o werth £436k, allan o gyfanswm o £967k. Ategwyd mai'r adrannau sydd gyda'r gwerth uchaf o ran cynlluniau eto i'w cyflawni yw'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Cydnabuwyd bod gwireddu gwerth £32.8m o arbedion (allan o gyfanswm o £35 miliwn) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac er bod cynlluniau arbedion gwerth £1m, sydd wedi eu hoedi yn symud yn eu blaen, ystyriwyd bod rhai risgiau i gyflawni gwerth £0.8m o gynlluniau.

Yng nghyd-destun cynlluniau ariannol 2022/23 adroddwyd bod adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23 wedi ei weithredu gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Cyllid. Amlygwyd bod rhaid cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellid cyflawni dau gynllun arbedion gwerth £489,750 - Cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' gwerth £279,750 yn yr Adran Plant a Theuluoedd a'r Cynllun 'Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill' gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Yng nghyfarfod y Cabinet 18 Ionawr 2022, penderfynwyd dileu'r ddau gynllun yma o'r gyllideb ac ail-broffilio rhai cynlluniau arbedion (gwerth £1,290,250) i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Nodwyd mai £595,000 oedd gwerth arbedion y cynlluniau sy'n weddill i'w tynnu o gyllideb 2022/23.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNIAD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion**
- **Derbyn penderfyniad y Cabinet 18/01/2022**

9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd 30 Ionawr 2022. Amlygwyd bod 7 o archwiliadau'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau ynghyd ag un archwiliad grant.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro - nid oedd unrhyw fater yn codi

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliodd ar bob archwiliad. Amlygwyd, hyd at ddiwedd Ionawr 2022 bod 45.24%, allan o'r 42 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 19 wedi ei ryddhau yn derfynol.

Adroddwyd bod 14 archwiliad wedi eu canslo a hynny oherwydd cyfeirio staff o'r Uned i gynorthwyo gyda'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu a chynorthwyo'r Gwasanaeth Budd dal i ddelio gyda thaliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a Thaliadau Cymorth Hunan-ynysu.

Nodwyd bod bwriad cyflwyno Cynllun Archwilio 2022/23 i'r Pwyllgor nesaf

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2021/22**

11. CYLLIDEB 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant drafft o 8.8%, sy'n cyfateb i werth £18.1m mewn ariannu allanol (cyfartaledd ledled Cymru yn 9.4%) ar gyfer 2022/23 sy'n welliant arwyddocaol ar yr hyn a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er derbyn setliad rhesymol eleni, adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2022/23. Yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant uwch nag y bu ers sawl blwyddyn, bod cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23.

Ceisir penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod 15/02/22 i argymhell i'r Cyngor Llawn 3/03/22 sefydlu cyllideb o £295.2m ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213.2m, £82m o incwm o'r Dreth Cyngor (gyda chynnydd o 2.95%) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £59m yn 2022/23.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb (cyfanswm o £20.2m) gan amlygu pedwar pennawd o gynnydd yn arbennig.

- Chwyddiant Cyflogau o £8.5m – y gyllideb yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2022/23 o 4% ar gyfer yr holl weithlu ynghyd a chynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol fydd yn weithredol o Ebrill 2022.
- Chwyddiant Arall o £4m - Swm sy'n cynnwys effaith y 'cyflog byw' ar gostau a ffioedd taladwy i gyflenwyr preifat ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro.
- Pwysau ar Wasanaethau o £6.7m - argymhell cymeradwyo bidiau gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Yn ychwanegol i'r bidiau parhaol, argymhellwyd cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m i'w ariannu o'r Gronfa Trawsnewid. Nodwyd bod y bidiau a gyflwynwyd wedi eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymhell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.
- Pwysau Covid-19 o £1.4m. Ers Ebrill 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol a cholled incwm o ganlyniad i'r pandemig allan o'r Gronfa Caledi (cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth oddeutu £20m yn 2020/21, ac oddeutu £14.4m yn ystod 2021/22). Fodd bynnag, mae Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys y byddai'r cymorth hwn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 a bydd angen i'r awdurdodau lleol ariannu unrhyw gostau ychwanegol / colled incwm yn sgil Covid-19 wedi hynny. Nodwyd, er bod £1.4m wedi ei ddarparu er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol, i ddygymod â'r sefyllfa, nid oedd y Pennaeth Cyllid yn rhagweld y byddai'n ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau, ond amlygodd bod cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Ategwyd bod Cronfa Adfer Covid wedi ei sefydlu wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a gellid gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. O ganlyniad i'r hyblygrwydd mae'r setliad yn ei gynnig, nodwyd y byddai gwerth £1.8m o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2022/23. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w tynnu allan o gyllideb 2022/23, yn hytrach na £2.4m.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru. Roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod y gyllideb yn un gytbwys ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gadarn, ac er y cynnydd mewn treth Cyngor (sydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan) byddai'n lleihau pwysau ar yr adrannau i wneud arbedion ac yn rhoi gwell sail iddynt barhau i gynnig gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â demograffi a'r datganiad bod lleihad net mewn nifer disgyblion cynradd ac os yw hyn yn cael ei ragweld fel patrwm tymor hir, llai o blant? llai o deuluoedd? llai o weithwyr i'r dyfodol?, nodwyd er bod y sefyllfa yn mynd i fyny ac i lawr, bod tuedd a phryder erbyn hyn bod y lleihad yn patrwm tymor hir. Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n rhannu'r data perthnasol gyda'r Cyngorydd.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr opsiynau i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2022/23 yn eu cyfarfod 15/2/22**

12. STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a rheolaeth trysorlys y Cyngor. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi derbyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose a oedd yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr. Cyfeiriwyd at y gweithgareddau cyfalaf a thynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £64.1 miliwn yn 22/23 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r adnoddau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau ein hunain yw'r cronfeydd. Daw gweddill o'r arian trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £176.6 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 22/23, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y cyngor aros odd itano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthycia, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ategwyd y bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at un newid i'r meincnod ymrwymiad lle cyflwynwyd effaith benthyca Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r angen i fenthyc yn y dyfodol. Nodwyd y byddai'n debygol bydd y Cydbwyllgor yn symud i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig cyn gweld angen benthyg. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun strategaeth buddsoddi, polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod £10m yn cael ei gadw i sicrhau hylifedd parhaus ac o ystyried y cyfnod ansicr a'r dychweliadau isel presennol, ystyriwyd bod cadw hylifedd a diogelwch yn flaenoriaeth.

Cyfeiriwyd at y rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion ac mai Arlingclose fydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor am y blynyddoedd nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth**

13. GWEITHIO I'R DYFODOL A'R GEFNOGAETH LLESANT MEDDYLIOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth am gynlluniau'r Cyngor yng nghyswllt trefniadau gweithio i'r dyfodol a hefyd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llesiant meddyliol staff. Adroddwyd y byddai'r weledigaeth ar gyfer gweithio i'r dyfodol yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cabinet ar y 15 o Chwefror 2022.

Adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i drin a thrafod materion lles, trefniadau gwaith ac o adeiladu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Cyfeiriwyd at y prif yrwy'r ar gyfer mabwysiadu trefniadau gweithio newydd ac at rai o'r egwyddorion oedd yn sylfaen ar gyfer trefniadau gweithio'n hyblyg. Pwysleiswyd, petai amgylchiadau'r swydd yn caniatáu, bydd unrhyw drefniadau gweithio yn hyblyg yn wirfoddol i aelodau staff. Amlygwyd bod staff yn cael eu hannog i drafod eu sefyllfa yn rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell gyda llesiant staff yn ganolog i'r trefniadau newydd. Yn dilyn cynnal ymgynghoriad gyda staff ac mewn ymateb i'r weledigaeth o weithio i'r dyfodol, nodwyd bod addasiadau ar waith i swyddfeydd er mwyn hwyluso'r drefn newydd o weithio, i adolygu amodau gwaith a pholisïau cyflogaeth ac o ddarparu rhaglen hyfforddiant fyddai'n cynnwys sgiliau arwain a chynnal timau hybrid.

Nodwyd bod y weledigaeth yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth weithio o bell, gyda'r nod o alluogi 30% o weithlu Cymru i weithio yn agos / neu o'u cartrefi. Ategwyd bod y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer llesiant ac iechyd staff gan y Cyngor yn cael ei gydnabod ar "Lefel Aur" Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Gweithlu wedi gorfod ymdopi gyda chostau gwres, trydan a ffôn dros gyfnod y pandemig - angen ystyried cyfraniadau treth incwm i'r dyfodol
- Cyngor newydd mis Mai – sicrhau cysylltiad wyneb yn wyneb a'r gallu i gyd-drafod
- Yng nghyd-destun lles staff, anodd adnabod problemau o weithio o adre
- Cymeradwyo'r weledigaeth a'r pwyslais ar hyblygrwydd
- Rhagweld cyfleoedd i weithwyr o Dde'r Sir i geisio am swyddi 'canolog'
- Angen sicrhau bod yr elfen o weithio mewn tîm yn cael ei gynnal
- Cais i sicrhau bod prentisiaid yn cael cyfleoedd priodol o ddatblygu eu cymeriadau o gydweithio fel tîm

Mewn ymateb i sylw bod angen cwblhau gwaith sylweddol i wneud y swyddfeydd yn ddiogel, nodwyd mai'r Adran Tai Ac Eiddo sy'n arwain ar y gwaith ond eu bod megis dechrau adnabod yr angen ynghyd a siâp y swyddfeydd. Nodwyd bod un swyddfa eisoes wedi ei haddasu a dyma fydd y templed ar gyfer eraill.

Yng nghyd-destun treth incwm, nodwyd bod staff wedi cael eu hysbysu o reoliadau HMRC a chanran wedi manteisio ar gymorth / lwfans treth am weithio o adre. Yng nghyd-destun costau teithio a chyfeiriad yn yr adroddiad, *'bydd gan bob aelod o staff safle gwaith corfforaethol enwebedig o hyd, a gallent hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth ohoni, ac felly ni fydd newid i'r polisi presennol ar hawlio costau teithio'*, nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag Undebau ond na fydd unrhyw addasiadau yn cael eu gwneud i gytundebau gwaith o ran costau teithio busnes. Bydd angen ail ymweld â'r mater os angen newid 'canolfan gwaith' i'r dyfodol.

Derbyniwyd y sylwadau am fanteision cyfathrebu wyneb yn wyneb a chydabuwyd yr angen am bwysigrwydd cynnal sgysiau ymysg staff ac ymysg Aelodau ynghyd a chynnig cefnogaeth i brentisiaid. Addawodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb yn gadarnhaol i hyn.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynlluniau ar gyfer gweithio i'r dyfodol ynghyd a nodi'r gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig i staff yng nghyswllt llesiant meddyliol**

14. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd pedwar adroddiad gan Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar raglen waith Chwarter 3 Archwilio Cymru ynghyd ag adroddiadau oedd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar.

Croesawyd Jeremy Evans (Archwilio Cymru) i gyflwyno'r adroddiadau.

1. Diweddariad Chwarterol - Chwarter 3 (hyd at 31ain Rhagfyr 2021)

Diweddariad chwarterol bellach yn rhan o'r drefn y Pwyllgor o dderbyn gwybodaeth am y gwaith sydd yn cael ei wneud yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Derbyniwyd y wybodaeth

2. Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Gwnaed y gwaith fel rhan o raglen statudol gwaith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cyflwynwyd y canfyddiadau ynghyd ag argymhellion ar gyfer cryfhau'r dull o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal a threfniadau cysylltiedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru.

Ar y cyfan canfu bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau addas ond hefyd yn cario risgiau sylweddol. Un o'r risgiau a amlygwyd oedd strwythur y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPRh) - er yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', y strwythur, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, a bod angen cryfhau'r llinellau atebolrwydd.

Mewn ymateb, gwnaed sylw bod yr adroddiad yn amlygu gwendid polisi Llywodraeth Caerdydd sydd yn gorfodi gweithio yn rhanbarthol gan greu strwythur sy'n llesteirio'r Cyngor rhag gweithio yn effeithiol. Cyfeiriwyd at waith gan y Cyngor, sy'n cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu model gofal cartref newydd yng Ngwynedd fydd yn helpu pobl i fyw eu bywydau mor llawn â phosib yn eu cymuned. Bydd y model newydd yn gwella'r ffordd mae'r gwasanaeth gofal cartref yn cael ei drefnu a'i ddarparu yng Ngwynedd, drwy gadw'r trefniadau mor lleol â phosib. A yw hon yn drefn y dylid ei mabwysiadu ar draws y Gogledd?

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae craffu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Gogledd Cymru ac os yw'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn pob Cyngor unigol neu yn ehangach, nodwyd bod angen strwythur cadarn ac atebolrwydd clir - awgrym i edrych ar strwythur Bwrdd Uchelgais Economaidd neu esiamplau eraill da a'i hargymhell i'r BPRh.

Diolchodd Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) am yr adroddiad gan nodi nad oedd y maes yn un hawdd i'w ddatgymalu gyda sawl trafodaeth wedi ei chynnal ynglŷn â gweithredu polisi Llywodraeth Cymru. Amlygodd bwysigrwydd darparu lleoliadau nyrsio a phreswyl mor lleol â phosib i'r mwyafrif, fel bod teulu a

ffrindiau yn gefnogol i'r ddarpariaeth, ond derbyn yr angen i gydweithio yn rhanbarthol i ddarparu gofal arbenigol. Ategwyd nad datrysiad gan un rhanbarth sydd yma. Rhaid cydweithio gyda chynghorau cysylltiol, ee, Ceredigion, Conwy a Môn i sicrhau safon dda, sy'n hyfyw ariannol boed yn fewnol neu'n allanol. Rhaid ceisio cytundeb a chanfod y berthynas gywir.

Derbyniwyd y wybodaeth

3. Adolygiad o Reoli Perfformiad y Cyngor

Adroddwyd bod fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol o dan yr amgylchiadau presennol a rhai adrannau gyda thipyn o waith i'w wneud. Tynnwyd sylw at y canfyddiadau ynghyd a'r argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Y dylai pawb fod yn awyddus i sicrhau'r perfformiad gorau - angen sicrhau gwybodaeth a data cywir i wneud penderfyniadau
- Angen sicrhau bod rheolwyr wedi defnyddio gwybodaeth gadarn a phriodol fel sail i wneud penderfyniad, e.e., bod gwerth am arian

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau pwy oedd rheoli perfformiad, nodwyd bod rheoli perfformiad yn gyfrifoldeb ar bawb - swyddogion o dan oruchwyliaeth y Prif Weithredwr i sicrhau gwybodaeth o ansawdd da fel bod modd i gynghorwyr wneud penderfyniadau darbodus, craffu ar berfformiad a nodi meysydd i'w gwella.

4. Crynodeb o waith Archwilio Cymru 2021

Cyflwynwyd crynodeb blynyddol o waith Archwilio Cymru a gwblhawyd ers cyhoeddi'r Archwiliad Blynyddol Diwethaf ym mis Ionawr 2021. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at y gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oedd wedi ei gwblhau ynghyd a chrynodeb o'r prif negeseuon.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiadau

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

CADEIRYDD

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 MEHEFIN 2022
TEITL:	CYFRIFON TERFYNOL 2021/22 – ALLDRO REFENIW
PWRPAS:	EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2021/22
GWEITHREDIAD:	Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2021/22, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2021/22 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu. Cyflwynwyd yr adroddiad i gyfarfod 14 Mehefin 2022 o'r Cabinet.
3. Nodaf fod rhan 7 ac Atodiad 4 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd y Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Adroddiad Cabinet 14 Mehefin

ADRODDIAD I'R CABINET
14 MEHEFIN 2022

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyfrifon Terfynol 2021/22 – Alldro Refeniw

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- 1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2021/22.
- 1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	(69)
Plant a Theuluoedd	(97)
Addysg	(60)
Economi a Chymuned	(72)
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	0
Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(100)
Tai ac Eiddo	(100)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(33)
Cyllid	(96)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(63)

- 1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2**) -
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £746k i ddiddymu ei orwariant am y flwyddyn yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni. Bydd hyn yn galluogi'r adran symud ymlaen i wynebu her 2022/23.
 - Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol, ni fydd yr adrannau canlynol yn cadw eu tanwariant uwchlaw (£100k):
 - Adran Amgylchedd (£91k)
 - Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (£9k)
 - Adran Tai ac Eiddo (£180k)

Ceisir penderfyniad y Cabinet i neilltuo'r cyfanswm o £280k i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
 - fod (£2,183k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
 - gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei neilltuo fel a ganlyn:
 - (£395k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor
 - (£3,000k) i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor a gwaith trawsffurfiol ei natur
 - (£1,377k) i'r Gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

- 1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn **Atodiad 4** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan gynaeafu (£851k) o gronfeydd gan ddefnyddio £746k ohono i gynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd wedi gorwario yn 2021/22 a throsglwyddo'r £105k sydd yn weddill i falansau cyffredinol y Cyngor.

2. Cyflwyniad / Cefndir

- 2.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2021/22'. Ar ddiwedd y flwyddyn dim ond un adran sydd yn gorwario, sef yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gyda gweddill yr adrannau yn tanwario.
- 2.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.3 uchod.
- 2.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, nodwyd fod rhagolwg o ddiffyg o £899k. Ers hynny, bu i'r Cyngor dderbyn nifer o grantiau sylweddol ychwanegol sydd wedi trawsnewid y sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r prif rai yn cynnwys:
- £7.1 miliwn Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru
 - £2.5 miliwn Ychwanegiad i Setliad Llywodraeth Leol 2021/22
 - £1.9 miliwn Pwysau Gofal Cymdeithasol ar Awdurdodau Lleol
 - £1.8 miliwn Cynnal a Chadw Ysgolion
 - £1.5 miliwn Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol 2021/22

- £1.2 miliwn Cyflymu Dysgu mewn Ysgolion
 - £0.9 miliwn tuag at golledion Treth Cyngor
 - £0.8 miliwn Cefnogi cyflawni blaenoriaethau Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflymu adferiad economaidd ôl-Covid
- 2.4 O ganlyniad i dderbyniad y grantiau uchod ynghyd â grantiau niferus eraill, golyga hyn fod sefyllfa ariannol 2021/22 yn dangos tanwariant nad oedd yn cael ei ragweld mewn adolygiadau blaenorol.
- 2.5 **Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2021/22 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.**

3. Covid19

- 3.1 Fel sydd wedi ei adrodd i Gabinet yn 2020/21 a 2021/22, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, sydd werth £17.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.
- 3.2 Bu i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol. Yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth £14.9 miliwn ar gyfer 2021/22 wedi eu cyflwyno gan y Cyfrifwyr i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y flwyddyn, gyda chyllid o £13.3 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.
- 3.3 O ran y colledion incwm, £2.3 miliwn yw gwerth y ceisiadau am y flwyddyn, gyda'r Cyngor eisoes wedi eu digolledu am werth £2 miliwn ohono gan Lywodraeth Cymru.
- 3.4 Roedd y cynllun Saib Swyddi 'Furlough' yn weithredol am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol oedd werth £267k am y cyfnod, gyda'r Cyngor wedi hawlio a derbyn y swm yn llwyr sef £246k ar gyfer Byw'n Iach a £21k ar gyfer Cyngor Gwynedd.
- 3.5 Mae effaith y costau ychwanegol a'r colledion incwm o fewn y ffigyrau a adroddir gan yr adrannau yn **Atodiad 1 a 2**.
- 3.6 Yn ogystal â'r Gronfa Caledi a'r cynllun saib swyddi, unwaith eto eleni derbyniwyd nifer fawr o grantiau ychwanegol amrywiol ar draws y Cyngor yn hwyr yn y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y 7 prif grant sydd werth £10.6 miliwn a restrir ym mhwynt 2.3 uchod.

4. Sefyllfa Arbedion

- 4.1 Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £32.8 miliwn, sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.
- 4.2 Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £855k wedi llithro, tra bod £608k gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

5. Adrannau'r Cyngor

- 5.1 Yr hyn sydd yn amlwg iawn unwaith eto eleni yw effaith yr argyfwng Covid ar y sefyllfa ariannol, ynghyd ag effaith yr holl dderbyniadau grantiau sylweddol yn hwyr sydd wedi gwella'r sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Serch hynny, mae'r tueddiad blynyddol yn parhau gyda phwysau sylweddol yn y maes Prifffyrdd. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

- 5.2 **Adran Oedolion lechyd a Llesiant**

Gwelwyd gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr adran erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn derbyniad grantiau sylweddol ym misoedd olaf y flwyddyn. Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant eleni sydd werth £3.7 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn.

- 5.3 **Adran Plant a Theuluoedd**

Wedi i'r Cyngor ddynannu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu, adroddir tanwariant o (£97k) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r pwysau mewn gwahanol feysydd yn is na lefelau 2020/21, ond nodir fod gorwariant yn y maes Lleoliadau All-sirol ac Ôl-16.

- 5.4 **Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol**

Mae'r maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £608k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid19 i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru wedi ein digolledu amdano.

- 5.5 **Corfforaethol**

Nid oedd y pwysau ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn ystod 2021/22 cymaint â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb. Gwnaethpwyd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22, mae hyn yn gyfrifol am gynnyrch Treth Cyngor ychwanegol, tra'n cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Yn ogystal â hynny, roedd derbyniad grantiau gwerth £3.3 miliwn yn hwyr yn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r tanwariant a adroddir. Derbyniad grantiau niferus a

llithriadau ar y rhaglen gyfalaf yn golygu fod angen llithro arian refeniw perthnasol.

- 5.6 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna un cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, a thair adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2021/22, ac felly gyda thanwariant i'w gynaeafu.
- 5.7 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2021/22 yn unig.
- 5.8 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2022/23, ac mae'r mwyafrif o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2022/23 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

6. Ysgolion

- 6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi cynyddu o £10.7m yn 2020/21 i £16.7m yn 2021/22. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith Covid a derbyniad grantiau niferus amrywiol, gyda lleihad balansau mewn 3 ysgol yn unig. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.
- 6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb). Mae eleni eto wedi bod yn flwyddyn eithriadol yn sgil Covid a bydd rhaid ystyried hyn wrth drafod gyda'r ysgolion.
- 6.3 Nid oes gan yr un ysgol ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22.

7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

- 7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel y nodir yn rhan olaf **Atodiad 2**.
- 7.2 Gwelir tanwariant o £6,995k ar benawdau Corfforaethol. Awgrymir y dylid gwneud trosglwyddiad o £2,183k i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, £395k i falansau cyffredinol y Cyngor, £3 miliwn i gronfa Trawsfurfio y Cyngor i gefnogi

gwaith trawsffurfiol ac o natur un-tro a £1,377k yn cael ei neilltuo i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid19.

- 7.3 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £851k o adnoddau, fel amlinellir yn **Atodiad 4**. Mae £746k ohono i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido'r sefyllfa gorwariant gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda'r £105k sydd yn weddill i'w drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor.
- 7.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant adrannol uwchlaw'r trothwy o £100k gan yr Adran Amgylchedd, Adran Ymgynghoriaeth a'r Adran Tai ac Eiddo fel yr argymhellir yn rhan 1.3 uchod, bydd modd neilltuo £280k i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid.

8. Camau nesaf ac amserlen

- 8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2021/22. Mae'r wybodaeth eisoes wedi ei adlewyrchu yn y sefyllfa wrth gwblhau Datganiad o'r Cyfrifon drafft. Gan fod Etholiadau Llywodraeth Leol wedi eu cynnal ar 5 Mai, ni fu modd dilyn y drefn arferol o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar y sefyllfa alldro refeniw cyn cwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon drafft. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid wedi cytuno ar y penderfyniad a geisir.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn sgil Argyfwng Covid19

Atodiad 4 - Adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd

Cyfrifon Terfynol 2021/22 Aildro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Terfynol				Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd 2021/22 £ '000
	Cyllideb 2021/22 £'000	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2021/22 £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	57,775	(69)	0	(69)	995
Plant a Theuluoedd	19,219	(97)	0	(97)	(113)
Addysg	93,798	(60)	0	(60)	(54)
Economi a Chymuned	3,955	(72)	0	(72)	(86)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	24,361	746	(746)	0	862
Amgylchedd	3,299	(191)	91	(100)	(178)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(106)	(109)	9	(100)	5
Tai ac Eiddo	3,729	(280)	180	(100)	(306)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,831	(33)	0	(33)	(87)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,176	(63)	0	(63)	(83)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,420	(96)	0	(96)	(56)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(6,955)	6,955	0	0
Cyfansymiau (net)	221,457	(7,279)	6,489	(790)	899

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	15,953	15,277	(676)	0	(676)	(890)
Gofal Cartref	7,451	7,817	366	0	366	633
Eraill	(121)	618	739	0	739	813
	23,283	23,712	429	0	429	556
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,531	2,406	(125)	0	(125)	(45)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	21,320	21,604	284	0	284	511
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,642	4,085	443	0	443	215
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,307	3,199	(108)	0	(108)	(79)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	54,083	55,006	923	0	923	1,158
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	(233)	(632)	(399)	0	(399)	(299)
Gofal Dydd	(33)	(168)	(135)	0	(135)	(138)
Gofal Cymunedol	294	1,244	950	0	950	542
Eraill	(3)	(13)	(10)	0	(10)	(13)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	25	431	406	0	406	92

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,467	3,837	370	0	370	149
Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19	200	364	164	0	164	(75)
Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol	0	(1,932)	(1,932)	0	(1,932)	0
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran	0	0	0	0	0	(329)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,667	2,269	(1,398)	0	(1,398)	(255)
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	57,775	57,706	(69)	0	(69)	995

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Bu i'r adran dderbyn grantiau sylweddol yn hwyr yn y flwyddyn sydd wedi trawsnewid sefyllfa ariannol yr adran, sef £1.9 miliwn Pwysau Gofal Cymdeithasol ar Awdurdodau Lleol a £465k Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol.

Gwasanaethau Pobl Hŷn - tanwariant ar breswyl a nyrsio ond gorwariant ar Ofal Cartref. Yn 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnau taliadau uniongyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion.

Gwasanaethau Anabledd Corff - lleihad yn y galw am ofal cartref ond phwysau cynyddol ar lety cefnogol a phreswyl a nyrsio.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan arian un-tro eleni.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - pwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio gyda achos newydd costus wedi arwain at gynnydd yn y gorwariant.

Gwasanaethau Darparu - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod swyddi gwag a throsiant staff wedi arwain at danwariant cynyddol mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - pwysau ychwanegol ar nifer o gyllidebau ynghyd â chynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu.

Cyllideb 2021/22 - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

Gwariant / Grant Covid / Grantiau- mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £3.7 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Tachwedd.

Arbedion - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	599	546	(53)	0	(53)	(18)
Gweithredol	2,107	2,164	57	0	57	175
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	4,701	5,043	342	0	342	(133)
Maethu Drwy Asiant	1,633	1,504	(129)	0	(129)	(116)
Maethu Mewnol	2,405	2,373	(32)	0	(32)	29
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,678	1,664	(14)	0	(14)	(37)
	10,417	10,584	167	0	167	(257)
Ôl-16	1,243	1,267	24	0	24	65
Arbenigol/Derwen	1,848	2,010	162	0	162	263
Cyfiawnder Ieuenctid	254	203	(51)	0	(51)	(37)
Blynyddoedd Cynnar	153	79	(74)	0	(74)	(54)
Ieuenctid	782	535	(247)	0	(247)	(182)
Eraill	1,816	1,734	(82)	0	(82)	(68)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	19,219	19,122	(97)	0	(97)	(113)

Plant a Theuluoedd

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion ac hefyd derbyniad grantiau wedi arwain at sefyllfa o danwariant.

Gweithredol - gorwariant ar gyflogau ac ar gynlluniau cefnogol, sydd yn cael eu lleihau gan dderbyniadau grant.

Lleoliadau - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd 10 achos lleoliad all-sirol newydd yn ystod y flwyddyn gyda 7 lleoliad wedi dod i ben, gyda'r nifer cyfartalog fyny i 23.3 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 30.9 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, grantiau yn cynorthwyo gyda'r gorwariant ar gynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

Ôl-16 - y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni sydd wedi cynorthwyo i leihau'r pwysau ar y gyllideb sydd yn deillio o effaith flwyddyn lawn achosion.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach. Lleihad yn y gorwariant a adroddir yn dilyn derbyniad grant.

Cyfiawnder Ieuenctid - trosiant staff a derbyniad grant yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd cynyddol o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

Ieuenctid – derbyniad grant pellach yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Addysg	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	82,436	82,436	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(1,217)	(1,562)	(345)	0	(345)	(309)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	5,518	5,624	106	0	106	101
Gwasanaeth Atodol	448	871	423	0	423	378
Eraill	(165)	(252)	(87)	0	(87)	(35)
	5,801	6,243	442	0	442	444
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,470	2,341	(129)	0	(129)	(152)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,308	4,280	(28)	0	(28)	(37)
Cyfanswm Addysg	93,798	93,738	(60)	0	(60)	(54)

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniadau grantiau pellach, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant cynyddol erbyn diwedd y flwyddyn.

Cludiant - Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, gorwariant o £122k ar Gludiant Tacsis eleni. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar. Derbyniad grant a thanwariant un-tro ar fysus ysgolion eleni yn cynorthwyo i leihau'r gorwariant a adroddir.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - gorwariant pellach ar gostau staff a chynnydd yn y colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid wedi bod yn amlwg eleni gyda chyfran o'r gwariant ychwanegol perthnasol wedi cael eu hawlio gan Lywodraeth Cymru.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - tanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £208k.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	351	351	0	0	0	0
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	347	413	66	0	66	58
Morwrol a Pharciau Gwledig	(173)	(362)	(189)	0	(189)	(216)
Cytundebau Hamdden	976	971	(5)	0	(5)	21
Rhaglenni Chwaraeon	28	21	(7)	0	(7)	0
Rhaglenni Datblygu Economiadd	(90)	21	111	0	111	54
Marchnata a Digwyddiadau	318	329	11	0	11	14
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,422	1,345	(77)	0	(77)	(56)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	776	794	18	0	18	39
Cyfanswm Economi a Chymuned	3,955	3,883	(72)	0	(72)	(86)

Economi a Chymuned

Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau - derbyniad grantiau a gwariant ychwanegol un-tro ar raglenni adfywio eleni.

Morwrol a Pharciau Gwledig - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys trosiant staff a rhagori ar incwm yn y Parciau Gwledig ac hefyd yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn blwyddyn brysur o ran twristiaid i'r ardal.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n lach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae cais am arian i ddigolledu Byw'n lach am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid gan Lywodraeth Cymru yn £1.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol (£2.7 miliwn yn 2020/21).

Rhaglenni Datblygu Economaidd - derbyniad grant ynghyd â gwariant ychwanegol ar amrywiol gynlluniau eleni.

Llyfrgelloedd Gwynedd - swyddi gwag a throsiant staff ynghyd â thanwariant ar deithio a chostau swyddfa.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - sgil effaith Covid wedi amharu'n negyddol ar y lefelau incwm ond wedi arwain at leihad mewn gwariant. Bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiell gyda'r diffyg wedi cynyddu i £61k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,831	10,098	267	0	267	(148)
Gwasanaethau Peirianeg	403	426	23	0	23	109
Gwasanaethau Bwrdeistrefol Gwastraff	10,515	10,877	362	0	362	696
Eraill	3,612	3,706	94	0	94	205
Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22				(746)	(746)	0
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	24,361	25,107	746	(746)	0	862

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - yr hinsawdd economaidd bresennol gyda chynnydd ym mhrisiau ynni, tanwydd a deunyddiau wedi cael effaith negyddol yn ariannol, ynghyd ag oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

Gwasanaethau Peirianeg - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad. Lleihad yn y gorwariant oherwydd swyddi gwag.

Gwastraff - derbyniad grant hwyr gwerth £397k ym Mawrth yn lleihau'r gowariant a adroddir. Nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon ac yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg eleni. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelldd o wastraff ailgylchu a domestig a gesglir. Ymhellach, gorwariant ar gostau fflyd a thrafferthion i wireddu arbedion.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod. Incwm uwch erbyn diwedd y flwyddyn gan y gwasanaethau profedigaeth yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Mae ardrawiad Covid wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol yn bennaf ond hefyd colled incwm, gyda gwerth dros £1.7 miliwn wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 2020/21).

Argymhellir fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £746k i ddiddymu'r gorwariant yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni, fel bod modd i'r adran symud ymlaen i wynebu her 2022/23.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Amgylchedd	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	622	642	20	0	20	(71)
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	306	265	(41)	0	(41)	2
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	296	(185)	(481)	0	(481)	(279)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,142)	(1,952)	190	0	190	138
Cludiant Integredig	1,824	2,019	195	0	195	165
	(22)	(118)	(96)	0	(96)	24
Cefn Gwlad a Mynediad	672	701	29	0	29	11
Gwarchod y Cyhoedd	1,721	1,618	(103)	0	(103)	(144)
Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22				91	91	0
<u>Cyfanswm Amgylchedd</u>	3,299	3,108	(191)	91	(100)	(178)

Amgylchedd

Rheolaeth - gwariant ar amrywiol benawdau'r gyllideb wedi arwain at orwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y rhagolygon incwm wedi gwella yn ystod y flwyddyn yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - yn rhagori ymhellach ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - cynnydd yn y diffyg incwm parcio erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

Cludiant Integredig - cynnydd yn y gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, teithio a hysbysebu.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£91k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(425)	(439)	(14)	0	(14)	(32)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	(14)	(14)	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	429	337	(92)	0	(92)	0
Gwasanaeth Adeiladu	(96)	(99)	(3)	0	(3)	37
Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22				9	9	0
<u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u>	(106)	(215)	(109)	9	(100)	5

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - nifer cynyddol o swyddi gwag sydd yn cael effaith negyddol ar lefelau incwm sydd yn cael eu hadennill ar gynlluniau gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Uned Rheoli Risg Llifogydd - gwelliant o'r rhagolygon o ganlyniad i danwariant ar weithiau, costau staff ac ar gostau trafndiaeth a theithio.

Gwasanaeth Adeiladu - trosiant staff ac incwm yn uwch erbyn diwedd y flwyddyn na'r hyn a ragwelwyd.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Ymgynghoriaeth gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£9k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	203	154	(49)	0	(49)	(56)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	1,100	1,128	28	0	28	(33)
Tai Sector Breifat	401	357	(44)	0	(44)	(2)
Eraill	406	357	(49)	0	(49)	(35)
	1,907	1,842	(65)	0	(65)	(70)
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	1,632	1,490	(142)	0	(142)	(141)
Gofalu, Arlwy a Glanhau	(13)	(37)	(24)	0	(24)	(39)
	1,619	1,453	(166)	0	(166)	(180)
Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22				180	180	0
Cyfanswm Tai ac Eiddo	3,729	3,449	(280)	180	(100)	(306)

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar gostau cyflogi staff yn ystod y flwyddyn yn gyfrifol am y sefyllfa.

Gwasanaethau Tai - unwaith eto eleni gwelwyd bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Digartrefedd yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd. Yn ystod y flwyddyn bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am gyfran sylweddol o'r £2.9 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Gorfodaeth dan Tai Secotor Breifat ac hefyd yn Sipsiwn a Theithwyr dan 'Eraill'.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau a rhagor o incwm yn y maes Gofalu, Arlwy a Glanhau.

Argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Adran Tai ac Eiddo gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£180k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL

Adrannau Canolog	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,831	1,798	(33)	0	(33)	(87)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,420	6,324	(96)	0	(96)	(56)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,176	7,113	(63)	0	(63)	(83)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,427	15,235	(192)	0	(192)	(226)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - lleihad yn y tanwariant yn dilyn i swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol gael ei glustnodi i gyllido cynlluniau penodol ynghyd â defnydd o gyfreithwyr asiantaeth yn lleihau'r tanwariant ar drosiant staff Cyfreithiol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cynnydd yn y tanwariant yn dilyn derbyniad ffioedd incwm am weinyddu grantiau amrywiol yn sgil Covid gan gynnwys y cynllun hunan ynysu, cymorth tanwydd gaeaf a grantiau busnes. Tanwariant un-tro gan yr adran oherwydd swyddi gwag a derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

Cefnogaeth Gorfforaethol - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda diffyg incwm o £56k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar nifer o benawdau ar draws yr adran yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb 2021/22	Sefyllfa 2021/22	Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(1,493)	1,493	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(291)	291	0	0
Costau Cyfalaf	*	*	(2,183)	2,183	0	0
Derbyniad Llog	*	*	(72)	72	0	0
Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd	*	*	(233)	233	0	0
Eraill	*	*	(204)	204	0	0
Ychwanegiad Setliad Llywodraeth Leol 2021/22	*	*	(2,479)	2,479	0	0
<u>Cyfanswm Corfforaethol</u>	*	*	(6,955)	6,955	0	0

Corfforaethol

Derbyniad grantiau gwerth £3.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r tanwariant a adroddir.

Treth Cyngor - yn ystod y flwyddyn bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 469 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 ynghyd â derbyniad grant o £0.9 miliwn yn hwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil yr argyfwng Covid. Derbyniwyd £6.5m o Bremiwm Treth Cyngor yn ystod 2021/22 sydd wedi ei neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

Gostyngiadau Treth Cyngor - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

Costau Cyfalaf - o ganlyniad i dderbyniad grantiau niferus i gyllido cyfalaf ynghyd â llithriadau ar gynlluniau yn y rhaglen cyfalaf, golyga hyn fod angen llithro arian refeniw a chyfnewid dulliau ariannu gan drosglwyddo gwerth (£2,183k) o arian refeniw i gronfa er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2022/23.

Derbyniad Llog - derbyniad uwchlaw'r rhagolygon.

Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd ac Eraill - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Ychwanegiad Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 - derbyniad grant ychwanegol yn annisgwyl ym Mawrth o £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

Argymhellir yn dilyn yr ymarferiad cynaeafu cronfeydd gwerth £851k a fanylir yn **Atodiad 4** y dylid cynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gorwario £746k yn 2021/22, drwy gyllido eu gorwariant yn llwyr, gan drosglwyddo y £105k sydd yn weddill o'r cynaeafu cronfeydd i falansau cyffredinol y Cyngor.

- fod (£2,183k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
- gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei neilltuo fel a ganlyn:
- (£395k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor
- (£3,000k) i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor a gwaith trawsffurfiol ei natur
- (£1,377k) i'r Gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

		Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru						Saib Swyddi (Furlough)			
		Digolledu Gwariant Ychwanegol			Digolledu Colled Incwm			Cyfraniad at Gyflogau			
Mis	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais		Grant Wedi Dderbyn	
								Byw'n lach	Gweddill y Cyngor	Byw'n lach	Gweddill y Cyngor
		£'000	£'000		£'000	£'000		£'000	£'000		
Ebrill	1	483	485	1	1,020	811	1	116	5	116	5
Mai	2	813	811				2	35	5	35	5
Mehefin	3	824	824				3	26	4	26	4
Gorffennaf	4	1,434	1,423	2	687	567	4	27	3	27	3
Awst	5	787	787				5	26	2	26	2
Medi	6	891	839				6	16	2	16	2
Hydref	7	1,392	1,090	3	490	490	7				
Tachwedd	8	1,773	1,773				8				
Rhagfyr	9	1,185	1,185				9				
Ionawr	10	1,365	1,334	4	113	113	10				
Chwefror	11	1,738	1,471				11				
Mawrth	12	2,221	1,257				12				
CYFANSWM		14,906	13,279		2,310	1,981		246	21	246	21

Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:

	Gwerth y Cais £'000	Grant Wedi Dderbyn £'000
CYFANSWM	17,482	15,527
Elfen Byw'n lach	1,147	1,092
Gweddill y Cyngor	16,335	14,435

Adnoddau wedi'u Cynaeafu o Adolygu Cronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol:

Cronfa	Swm i'w ryddhau £'000
Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	100
Tanwariant y Tim Rheoli Corfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	48
Prosiectau Hanesyddol Amrywiol Gorffenedig	216
Amrywiol Gronfeydd hanesyddol	487
Cyfanswm	851

gan eu defnyddio i:

Cronfeydd a gynaeafwyd	Swm £'000
Cyllido gorwariant yr Adran Priffyrdd sydd yn gorwario yn 2021/22	746
Dychwelyd i falansau'r Cyngor	105
Cyfanswm	851

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 MEHEFIN 2022
TEITL:	RHAGLEN GYFALAF 2021-22 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2022)
PWRPAS:	ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF
GWEITHREDIAD:	DERBYN Y WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 14 Mehefin ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 14 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y dudalen dilynol.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen benderfyniad Cabinet 14 Mehefin
Adroddiad Cabinet 14 Mehefin

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	14 Mehefin 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	29 Mehefin 2022

PWNC

Eitem 8:RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2022)

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

Nodwyd y gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.

Cymeradwywyd ariannu'r addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £173,000 lleihad mewn defnydd o fenthycia
- £11,304,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £94,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £426,000 lleihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £1,003,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

ADRODDIAD I'R CABINET
7 MEHEFIN 2022

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022)

Swyddog Cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
 - Nodi'r gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.
 - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - £173,000 lleihad mewn defnydd o fenthycia
 - £11,304,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £94,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £426,000 lleihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
 - £1,003,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £139.289m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £11.614m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £37.1m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £29.9m (81%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £4.1m o grant cyffredinol cyfalaf.
- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn glir ac o'r herwydd bu oediad ar nifer o gynlluniau cyfalaf unwaith eto eleni. Yn ychwanegol, oherwydd cynnydd aruthrol yn y prisiau deunyddiau adeiladu, bu oediad bwriadol i rai cynlluniau. Y cyfuniad yma o ffactorau sydd wedi arwain at y darlun yn ei gyfanrwydd.
- Yn ychwanegol i'r £31.2m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2021/22 mae £26.8m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2021/22 ar ddiwedd Mawrth 2022, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynnyddoedd dilynol.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				CYNNYDD / (LLEIHAD)ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF
	2021/22	2022/23	2023/24	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	7,521	17,811	4,310	29,642	1,424
Amgylchedd	10,288	4,943	121	15,352	464
Cefnogaeth Gorfforaethol	60	-	-	60	-
Cyllid	598	1,828	838	3,264	200
Economi a Chymuned	2,882	2,498	180	5,560	469
Tai ac Eiddo	4,444	27,022	6,930	38,396	1,297
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,378	6,372	625	8,375	1,006
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,468	1,486		2,954	687
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	8,045	9,199	3,133	20,377	1,975
Ymgynghoriaeth	370	8,470	42	8,882	(7)
Corfforaethol	-	5,927	500	6,427	4,099
CYFANSWM	37,054	85,556	16,679	139,289	11,614

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £11.614m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2021/22 ar ddiwedd Mawrth 2022, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Addasiad Technegol £'000	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2021/22	2022/23	2023/24	CYFANSWM		
	£'000	£'000	£'000	£'000		
Benthycu gyda chefnogaeth	2,719	7,968	6,610	17,297	(4,087)	0
Benthycu Arall	266	9,498	3,289	13,053	-	(173)
Grantiau a Chyfraniadau	33,990	20,886	247	55,123	4,306	11,304
Derbyniadau Cyfalaf	79	813	-	892	-	(94)
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	-	131	-	131	(2,162)	(426)
Cronfa Cyfalaf	-	18,248	204	18,452	8,060	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	-	28,012	6,329	34,341	(6,117)	1,003
CYFANSWM	37,054	85,556	16,679	139,289	0	11,614

5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £11,200k. Mae nifer o addasiadau ychwanegol eraill gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £11,304k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £3,213k Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol
- £3,100k Grantiau o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau
- £1,305k Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill
- £1,122k Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim
- £525k Grant cefnogi blaenoriaethau Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflymu adferiad economaidd ôl-Covid ac Eraill
- £409k Grantiau Tai yn cynnwys Digartrefedd a Trawsnewid Trefi
- £398k Grant Cronfa Her Partneriaethau Natur Lleol
- £283k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol

- £196k Grant cynlluniau Atal Llifogydd
- £195k Grant cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru
- £177k Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £159k Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol
- £118k Grant Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru i addasu Storiell

6. Argymhellion

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf,
- nodi'r gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

	2021/22 £'000	2022/23- 2023/24 £'000
Benthyciadau Arall		
Cywiro ariannu cynllun Atal Llifogydd o 2019-20 (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).	(173)	
Grantiau a Chyfraniadau		
Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim (<i>Adran Addysg</i>).	1,122	
Grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyflymu adferiad economaidd ôl-Covid ac Eraill (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	525	
Grant Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru i addasu Storiol (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	118	
Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	177	
Grant Cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	195	
Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Plant a Theuluoedd; Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	1,305	
Grant Cronfa Her Partneriaethau Natur Lleol tuag at brosiect blodau gwyllt (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	398	
Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).	196	

Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	283	
Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol (<i>Adran Amgylchedd</i>).	159	
Grantiau Tai yn cynnwys Digartrefedd a Trawsnewid Trefi (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	409	
Grantiau o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	3,100	
Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol (<i>Corfforaethol</i>).	3,213	
Derbyniadau Cyfalaf		
Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	(104)	
Refeniw Adrannol		
Cyfraniadau Ysgolion tuag at gynlluniau (<i>Adran Addysg</i>).	356	
Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	40	
Lleihau cyfraniad refeniw tuag at gynlluniau cyfalaf cynnal a chadw (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(950)	
Cyfraniad tuag at gynnydd pryniant cyfrifiaduron yn sgil dull gweithio Covid (<i>Adran Cyllid</i>).	198	
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
Cynyddu'r rhaglen Cynnal Mawr Priffyrdd Sirol trwy ddefnyddio'r gronfa benodol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	794	
Adnewyddu cerbydau ac offer o gronfeydd adnewyddu (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	686	
Lleihad net yn y cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Ymgynghoriaeth; Adran Tai ac Eiddo</i>).	(508)	31

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 21/22, sy'n llithro i 22/23 i'w ddyrannu) (<i>Adran Addysg; Corfforaethol</i>)	(1,575)	1,575
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(6,462)	6,462
Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim (disodli ariannu yn 21/22, sy'n llithro i 22/23) (<i>Adran Addysg</i>)	(1,122)	1,122
Cynlluniau Adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(279)	279
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden (nifer o grantiau yn disodli ariannu sy'n llithro i 22/23) (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(652)	652
Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor (grantiau yn disodli adnodd sy'n llithro) (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(521)	521
Cynlluniau Grant Cyfalaf Gofal Plant (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>)	(765)	765
Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>)	(221)	221
Grant Ychwanegol Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) (adnodd a ddisodlir yn llithro) (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>)	(520)	520
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(2,500)	2,500
Cynlluniau Cartrefi Preswyl, Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion a chynlluniau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(2,152)	2,152
Adnewyddu Cerbydau (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd</i>)	(3,038)	3,038
Cynlluniau Peirianeg, Strwythurau, Ffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(1,681)	1,681
Cynlluniau Atal Llifogydd a Traenio Tir (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(7,240)	7,240
Cynlluniau Trafnidiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(3,196)	3,196

Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(143)	143
Ail-wynebu Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(219)	219
Pwyntiau Gwefru Cerbydau (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(957)	957
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(72)	72
Cynlluniau Grantiau Tai ac Eraill (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,324)	2,324
Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(7,596)	7,596
Grantiau newydd Llywodraeth Cymru yn y maes Tai (adnodd a ddisodlir yn llithro) (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(3,953)	3,953
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(153)	153
Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(222)	222
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,368)	1,368
Cynllun Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(491)	491
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,925)	2,925
Adnewyddu Cyfarpar TG (<i>Adran Cyllid</i>)	(1,045)	1,045
Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 22/23 (<i>Corfforaethol</i>)	(1,328)	1,328
Grant Cyffredinol Ychwanegol 21/22 (<i>Corfforaethol</i>)	(3,213)	3,213

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Eitem 9

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	30 Mehefin 2022
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – • Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22, a • Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
GWEITHREDIAD	Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2021-22

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021-22 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml.
- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2021/22 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer Harbyrau Gwynedd.

- 2.3 Mae'r cyfrifon a'r ffurflen eisoes yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 13 Hydref 2022 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 2.4 Ar ôl yr archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau os y bydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Tachwedd 2022.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd yna unrhyw wariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn ystod 2021/22.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B

Pwyllgor Archwilio

Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd

Cyfrif Incwm a Gwariant 2021-22

	Cyllideb Terfynol 2021-22	Cyfrifon Terfynol 2021-22	Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau	£209,980	£203,831	-£6,149
Hyfforddiant	£0	£5,630	£5,630
Yswiriant Atebolrwydd	£3,350	£3,350	£0
Amrywiol Eraill	£2,210	£1,410	-£800
 Adeiladau			
Cynnal a Chadw	£52,090	£26,478	-£25,612
Cynnal Tiroedd	£12,760	£2,652	-£10,108
Ynni	£10,440	£17,505	£7,065
Trethi	£19,170	£19,293	£123
Dwr	£2,530	£2,301	-£229
Lês yr Arfordir	£2,820	£6,850	£4,030
Glanhau a Casglu Sbwriel	£4,550	£4,797	£247
Yswiriant Adeiladau	£540	£540	£0
 Cludiant			
Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod)	£2,160	£728	-£1,432
Costau Teithio	£410	£431	£21
 Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Offer - cynnwys diogelwch	£16,750	£11,662	-£5,088
Arolygiadau Tanfor			£0
Arwyddion a Rhybuddion	£0	£19,772	£19,772
Dillad	£2,060	£870	-£1,190
Cynnal Cychod	£3,200	£23,699	£20,499
Ffioedd Arbennigol	£41,410	£47,277	£5,867
Trwyddedau	£600	£75	-£525
Deunyddiau Swyddfa, Argraffu a Rhwydwaith	£2,710	£3,861	£1,151
Ffioedd Archwilio	£720	£520	-£200
Yswiriant Arian Parod	£350	£40	-£310
 Cefnogaeth Canolog			
Ad-Daliadau Costau Canolog	£43,913	£43,913	£0
 Cyfanswm Gwariant	£434,723	£447,488	£12,765
 Incwm			
Grant	-£34,560	-£34,589	-£29
Ffioedd a Rhenti	-£152,590	-£164,380	-£11,790
 Cyfanswm Incwm	-£187,150	-£198,969	-£11,790
 Cyfanswm Gwariant Net	£247,573	£248,519	£975

Cyd-bwyllgorau Llai yng Nghymru

Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2022

2

DEWIS IAITH


Nodwch sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi yn ystod yr archwiliad. Noder y bydd hysbysiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

	Ie	Na		Ie	Na		Ie	Na
SAESNEG	☐	☐	CYMRAEG	☐	☐	DWYIEITHOG	☐	☐

Y CYFRIFON A'R BROSES ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru (gan gynnwys cyd-bwyllgorau) lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol ar gyfer cyd-bwyllgorau llai ag incwm a gwariant islaw £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol, **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf Ffurflen Flynyddol. Mae'r Ffurflen Flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a **chwblhewch bob adran mewn pinc**.

CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Os nad yw'n gallu cwblhau'r broses gymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2022 neu gyhoeddi'r ffurflen a archwiliwyd erbyn 30 Medi, rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi hysbysiadau fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. **NI CHAIFF** y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiadau cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2021 (£)	31 Mawrth 2022 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	221,829	248,519	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	137,385	198,969	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a reffeniw.
4. (-) Costau staff	-199,271	-214,221	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogaion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-159,943	-233,267	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	32,405	63,598	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-31,675	-57,004	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddeler ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	-730	-6,594	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	496,912	496,912	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddeler ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthygiadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraeth Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: - gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a - pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	☒	☒	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	☒	☒	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	☒	☒	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	☒	☒	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	☒	☒	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebwr ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	☒	☒	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	☒	☒	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	☒	☒	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Ar ddalen ar wahân, rhwng esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

1.

2.

3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynnyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynnyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: 	Cyfeirnod cofnod:
Enw: Dewi Aeron Morgan	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:
Dyddiad: 25/05/2022	Enw:
	Dyddiad:

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon dan adran 13 o'r Ddeddf, pa un a yw unrhyw faterion a ddaw i'm sylw'n rhoi achos i bryderu na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
- yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; ac
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Tynnaf sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r corff fynd i'r afael â hwy. / Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Pwyllgor.*

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
5. Cafodd yr incwm disgwyledig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
7. Talwyd cyflogau i gyflogaeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar ddalenni ar wahân os oes angen:					
	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Mewnosoder y maes risg	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
12. Mewnosoder y maes risg	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun
13. Mewnosoder y maes risg	☒	☒	☒	☒	Mewnosoder y testun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch ddalenni ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2022.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf fi/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones
Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: <i>Luned Fôn Jones</i>
Dyddiad: 25 Mai 2022

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r Ffurflen Flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
2. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
3. Defnyddiwch ail bâr o lygaid, y Cadeirydd neu aelod efallai, i adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
4. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2020) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2021). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigyrau 2020 ar y Ffurflen Flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn Ffurflen Flynyddol y llynedd.
5. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae ar yr archwilydd allanol eisiau gwybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
6. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Dylai'r archwilydd allu gweld cyfatebiaeth rhwng eich cysoniad banc a llinell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
7. **Rhaid i chi anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol i ategu'r haeriadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyhch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
8. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
9. Os bydd rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nad ofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc neu esboniad am amrywiannau sy'n anghyflawn neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
10. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn cadw cost yr archwiliad mor isel â phosibl.
11. **Sylwer, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyno gyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?	✓	
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2022 yn gyson â Llinell 9?	✓	
Cymeradwyo	A yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2022 fan bellaf?	✓	
	A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2022 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?	✓	
Pob adran	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?	✓	
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	✓	

Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		

Eitem 10

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2021/22
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI'R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2021/22 I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

1. **CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO EI WNEUD?**
 - 1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel “y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu”, mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
 - Herio'r Pennaeth Cyllid am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
 - Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
 - Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

2. CEFNDIR

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynnyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfarwydd neu gan bwyllgor.

Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.

- Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* (2016).

3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

3.1 Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddarau gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith llywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.3 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

4. ADNABOD RISGIAU LLYWODRAETHU

- 4.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/Solace a gyhoeddwyd yn 2016.
- 4.2 Mae'r Fframwaith yma'n adnabod 7 Egwyddor Craidd ar gyfer Llywodraethu Da:

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.

Mae sefydliadau Llywodraeth Leol yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau y maent wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallant, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb eu gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Leol yn rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y sefydliad, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysu galwadau sy'n cystadlu â'u gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir

Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r deilliannau ddiffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau fod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni.

E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth priodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â pobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a'r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriadig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad gyfan. Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

F. Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwyllo wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.

Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, hyrwyddo ac annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn gallu ateb amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig gydag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*

- 4.3 Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu rhannu ymhellach i nifer o is-egwyddorion.
- 4.4 Mewn ymateb i'r Fframwaith, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn y Fframwaith ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu, sy'n rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 23 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.
- 4.5 Mae cyfrifoldeb penodol am y risgiau hyn wedi eu rhannu ar draws y Cyngor, fel a ganlyn

Adran	Nifer Risgiau
Cefnogaeth Gorfforaethol	10
Cyllid	4
Tai ac Eiddo	1
Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol	8
Cyfanswm	23

- 4.6 Yr adran berthnasol sy'n gyfrifol am asesu'r risgiau hyn yn barhaus, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg ohonynt.
- 4.7 Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef
- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
 - **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

4.8 Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith catastroffig ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu sylweddol iawn ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol iawn	Effaith sylweddol iawn ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu arwyddocaol ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith arwyddocaol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu gweladwy ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith gweladwy ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu ymylol ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

4.9 Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi **Sgôr Risg Presennol**, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Canolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

4.10 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi'r sgôr risg presennol ar gyfer y 22 maes llywodraethu. Mae asesiad adrannau a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn dod i'r casgliad:

- Nifer risgiau uchel iawn: 0
- Nifer risgiau uchel: 2
- Nifer risgiau canolig: 12
- Nifer risgiau isel: 9

4.11 Lle adnabuwyd fod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y mae'r Cyngor yn fodlon ei dderbyn, mae camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod a'u hamlinellu yn y Datganiad. Er hyn, pwysleisir fod mwyafrif y materion sydd wedi eu hamlygu yn y dadansoddiad systematig yma eisoes wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor.

5. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2020/21

5.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

5.2 Mae sgôr dau o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

Risg	Sgôr flaenorol	Sgôr Effaith	Sgôr Tebygol-rwydd	Sgôr gyfredol	Sylwadau
<u>Ymgysylltu Methiant i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael</u>	9 (Canolig)	Gostwng o 3 i 2	Aros yn 3	6 (Canolig)	Ystyrir fod y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud dros y blynyddoedd diweddar yn gosod y Cyngor mewn sefyllfa gadarn, hyd yn oed petai dim gwaith pellach yn cael ei gyflawni yn y maes.
<u>Iechyd, Diogelwch a Llesiant</u> Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol	12 (Uchel)	Cynyddu o 4 i 5	Aros yn 3	15 (Uchel)	Wrth adlewyrchu ar effaith Covid-19, y risg o bandemig arall, a'r effaith mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi ei gael ar raglenni'r Cyngor, credir mai realiti'r sefyllfa yw y byddai risg o effaith gatastroffig yn unol â'r diffiniad uchod heb y gweithdrefnau lliniaru sydd yn eu lle.

6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Pennaeth Cyllid am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côt Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A’U HEFFEITHIOLRWYDD

- 3.1 Mae’r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o’r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Mae’r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a’r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- 3.2 Er mwyn adlewyrchu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, mae’r fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 23 maes o risg llywodraethu.
- 3.3 Rhoddir amlinelliad o’r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau’r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o’r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.
- 3.4 Ar gyfer pob un o’r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o’r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:
- **Effaith** y risg petai’r digwyddiad yn cael ei wireddu
 - **Y Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.
- 3.5 Mae’r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a’r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi’r sgôr effaith a’r sgôr tebygolrwydd gyda’u gilydd.
- 3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Canolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

- 3.7 Ers Mawrth 2020, hyd at dyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2021/22, mae’r Cyngor wedi parhau i ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Lle mae hynny wedi cael effaith arwyddocaol a gweladwy ar drefniadau llywodraethu’r Cyngor, mae hynny wedi cael ei nodi isod.

Diwylliant

Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cael diwylliant priodol yn gallu hyrwyddo'r holl agweddau llywodraethu a nodir yn y gofrestr ac yn yr un modd, mae cael diwylliant amhriodol yn gallu llesteirio'r holl agweddau llywodraethu.
- O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. Mae Strategaeth Ffordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor - sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.
- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasaneth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn, gyda'r hyfforddiant hwn wedi bod ar gael i reolwyr newydd yn ogystal a darpar reolwyr i'r dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys. Mae cynnydd arwyddocaol yn gyffredinol ond mae tystiolaeth o hyd nad yw'r cynnydd hwnnw yn gyson ar draws y Cyngor.
- Mabwysiadwyd Cynllun a rhaglen waith Ffordd Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2019-2022 gan y Cabinet ar y 23 o Orffennaf, 2019. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes y byddwn yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach. Gyda golwg ar sicrhau fod pawb yn glir pa ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt cylchredwyd swydd-ddisgrifiad newydd i bob rheolwr/uwch-reolwr sy'n amlinellu'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt a chytunwyd ar gynnwys generig i swydd-ddisgrifiad newydd ar gyfer penaethiaid a penaethiaid cynorthwyl. Mae ymgynghoriad yn bresennol ar gynnwys generig terfynol swydd-ddisgrifiadau ar gyfer arweinyddion tîm a staff yn gyffredinol.
- Rydym wedi paratoi cyflwyniad ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi cyflwyno'r sesiwn honno i'r Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod Chwefror/Mawrth 2021.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	12

Ymddygiad

Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau integriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.

- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cyfreithlondeb

Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.
- Ni fu newid i'r trefniadau hyn yn ystod cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Bod yn agored

Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynnyddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	2

Rhanddeiliad

Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaidd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.
- Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd i ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n hwyluso egwyddor o'r fath.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Nid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r unig gyfrwng ar gyfer cydweithio gydag asiantaethau eraill ac mae yna risg bod yr amrediad eang o strwythurau cydweithio yn gallu llesteirio'r holl amcan o gydweithio gan greu dryswch.
- Mae gan y Cyngor Feini Prawf Partneriaethau wedi cael eu sefydlu ers sawl blwyddyn, fel bod Cyngor Gwynedd dim ond yn mynd i bartneriaethau pan mae hynny er lles pobl Gwynedd.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreiffiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) ac un o ymatebion y Cyngor i'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar ddyfodol Llywodraeth Leol oedd fod angen cydweithio yn ôl y budd fyddai'n deillio yn hytrach na glynu'n ddogmataidd i un model. Nodwyd hefyd fod angen sicrhau nad oes unrhyw gydweithio yn llesteirio atebolrwydd lleol am wasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn ceisio chwarae ei ran yn symleiddio'r amgylchedd waith hynod gymhleth sydd wedi datblygu.
- Mae yna gydweithio hefyd yn digwydd ar lefel sirol gyda llwyddiant yn amrywiol. Mae ein perthynas gyda'r Trydydd Sector yn parhau i esblygu ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio'r berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd. Mae'r siwrnai yma yn parhau gyda'r adrannau perthnasol yn parhau i ddatblygu'r berthynas.
- Yn ystod cyfnod y pandemig gwelwyd brwdfrydedd amlwg ymysg gwirfoddolwyr i helpu ein cymunedau a bu'r Cyngor yn weithgar yn ceisio cynorthwyo'r grwpiau hynny i lwyddo.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Ymgysylltu

Risg: Methiant i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu sefydlu i sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel bo'n briodol.
- Mae trefniadau wedi eu sefydlu i sicrhau fod ymarferiadau ymgysylltu corfforaethol y Cyngor yn cyrraedd grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anableddau dysgu a busnesau Gwynedd.
- Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yw cefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu yn y dull mwyaf addas.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Cyfeiriad a gweledigaeth

Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2018-23 (adolygiad 2022/23) gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein saith Amcan Llesiant, wyth Blaenoriaeth Gwella a phob cynllun adrannol. Canolbwyntwyd ar sicrhau ei fod yn glir a hawdd i bawb i'w ddarllen a'i ddeall.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Cynaliadwyedd

Risg: Risg o greu atebion anghynaliadwy sydd ddim yn cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly ddim yn edrych ar yr hirdymor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Mae'r Cyngor eisioes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. Penderfynodd y Grŵp Rheoli mai'r ffordd orau oedd i Dimau Rheoli Adrannau i dalu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae adroddiadau sy'n dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar sefyllfaoedd lle efallai nad oes sylw priodol wedi eu rhoi i'r egwyddorion. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus.
- Yn dilyn archwiliad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ddechrau 2020 gwnaed gwaith pellach i adnabod y cyswllt rhwng egwyddorion y Ddeddf a Ffordd Gwynedd; cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth fel rhan o gyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod gwanwyn 2021.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Penderfyniadau

Risg: Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn leuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.
- Mae'r Cabinet a'r Cyngor llawn wedi cyfarfodydd yn rhithiol trwy dduliau meddalwedd fideogynadleda yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cynllunio Gweithrediadau

Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol, fyddai'n gallu golygu unai gweithredu ar fympwy neu gynllunio'n ormodol gan wastraffu amser ac adnoddau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect ar cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur mae mesurau cyflawni pob gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni pwrpas gan geisio sicrhau fod unrhyw weithred yn gwella ein gallu i gyflawni hynny.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.
- Wrth adolygu ein trefniadau craffu byddwn yn cynnwys mwy o flaen graffu a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu'r Cabinet i ddewis y camau priodol i'w cymryd mewn amrywiol feysydd. Fodd bynnag os am wneud hynny rydym wedi cydnabod eisoes nad drwy gael Pwyllgor Craffu i edrych ar rywbeth yn syth cyn ei fabwysiadu yw'r ffordd o wneud hynny ond yn hytrach i aelodau Craffu fod yn rhan o'r asesu ar y cychwyn cyntaf. Golyga hyn fod angen i faterion fod yn hysbys yn gynnar yn y broses a Chraffu yn cael ei ddefnyddio yn ddigon buan. Amser a ddengys a fydd y trefniadau newydd yn gwneud hynny.
- Mae yna elfen o dystioaleth fod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cabinet a'r corff sy'n gyfrifol am gydgordio'r gwaith craffu o hyd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Adolygu deilliannau

Risg: Methiant i adolygu deilliannau en gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr un pethau yn anghywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreifftau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.
- Mae yna drafodaethau yn parhau i geisio sicrhau fod y Blaenoriaethau gwella yn ein Cynllun Corfforaethol yn fwy pendant o ran deilliannau, gyda'r Cynllun Perfformiad yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau hynny. Ein bwriad maes o law yw eu cyfuno mewn un ddogfen fydd yn gyfrwng i wella'r sefyllfa.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Asedau Eiddo

Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019.
- Canlyniad hyn yw fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Asedau Technoleg Gwybodaeth

Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol.
- Rydym wedi bod yn gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae pwyslais penodol ar ddodâa gwasanaethu digidol yn agosach at bobl Gwynedd drwy gyflwyno arlwy o wasanaethau newydd, gan gynnwys:
 - apGwynedd, "Fy nghyfrif" a nifer o gyfleon i wneud ceisiadau am wasanaeth ar amser sy'n gweddu i'r dinesydd
 - cyfle i ddilyn cynnydd yn erbyn ceisiadau a gyflwynir, drwy'r wefan, drwy'r ffôn neu wyneb yn wyneb
 - nifer o wasanaethau newydd wedi eu cyflwyno yn ystod yr argyfwng Covid, gan gynnwys gweinyddu o grantiau i helpu busnesau a threfn apwyntiadau ar gyfer ymweld â'r canolfannau ailgylchu neu Siop Gwynedd.
- Mae'r sianel ddigidol yn ddatblygiad parhaus a gwasanaethau newydd yn cael eu rhyddhau'n gyson. Mae sawl datblygiad mewnol i wella gweinyddiaeth mewnol, gan gynnwys rhestr faith o ddatblygiadau hunanwasanaeth staff a gwelliannau sylweddol i drefniadau hyfforddi. Nid y sianeli hunanwasanaeth (mewnol ac allanol) yw'r unig ddatblygiadau. Mae oddeutu hanner cant o systemau newydd yn cael eu datblygu'n flynyddol a'r rhain wedi eu teilwra o amgylch y gofynion y gwasanaethau yn hytrach na gorfod addasu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion system penodol. Tra bod yna enghreifftiau lu o ble 'rydym wedi defnyddio technoleg i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid yw'n digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd a mae sawl cais yn parhau am adnodd i'w datblygu.

- Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn gosod camau i ymestyn y defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn cefnogi amcanion gwella y Cynllun Strategol, gan hefyd gryfhau gallu gwasanaethau i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Mae yna elfen o dystiolaeth fod hyn yn dwyn ffrwyth gyda hunan wasanaeth yn dod yn fwy a mwy o rhan o ddefnyddio technoleg i'w gwneud yn haws i drigolion gael gwasanaethau.
- Wrth ymestyn defnydd technoleg mae risgiau pellach yn ein wynebu o ran diogelwch a seibrgadernid, gyda'r elfen yma yn asesiad hanfodol o unrhyw ddatblygiad newydd neu adolygiad o ddatrysiad cynhenid.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cynllunio'r Gweithlu

Risg: Gweithlu'r Cyngor ddim yn cael ei ddatblygu, sy'n golygu nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol.
- Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.
- Mae'r angen i ddatblygu unigolion i gyflawni swyddogaethau arbenigol ac allweddol yn cael ei ddiwallu mewn sawl modd gyda'r ffocws ar ymestyn y nifer o brentisiaethau presennol, cynllun Arbenigwyr Yfory a datblygu sgiliau arwain ymysg y gweithlu presennol trwy gyflwyno'r cynllun datblygu potensial presennol i'w weithredu ar draws pob Adran yn y Cyngor.
- Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol o fewn y Cynllun Pobl.
- Ymhellach, mae trafferthion recriwtio ar gyfer rhai swyddi mewn ardaloedd daearyddol penodol o fewn Gwynedd (e.e. gweithwyr gofal ym Meirionnydd). Mae'r Grŵp Prosiect a swyddogion y Tim Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos hefo rheolwyr yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol ac yn canolbwyntio ar adnabod swyddi a swyddogaethau allweddol yno. Mae'r Cynllun hwn wedi esblygu dros y deuddeg mis diwethaf ac mae o ers Ionawr 2021 yn ymgorffori gwaith sy'n cynnwys datblygiad y cynllun prentisiaethau a chynlluniau Adnabod a Datblygu Talent o fewn a thu hwnt i'r gweithlu presennol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Arweinyddiaeth

Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae disgwyl i bob Aelod a gweithiwr yn y Cyngor ei ddilyn. Mae ei effaith, felly, yn enfawr - gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor.
- Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.
- Tra bod yna ymrwymiad clir i fod yn ceisio gwella arweinyddiaeth yn barhaus, nid ydym bob tro yn y gorffennol wedi bod yn glir beth y mae hynny yn ei olygu na sut i'w wella.
- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr. Ymhellach cytunwyd ar yr hyn a ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor
- Mae atgyfodiad diweddar y Rhwydwaith Rheolwyr, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain, yn gam allweddol arall yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor tra bo'r Adolygiad Rheolaethol a'r swydd-ddisgrifiadau diwygiedig hefyd wedi cyfrannu at eglurder yng nghyswllt y disgwyliad o arwain.
- Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.
- Er mwyn adlewyrchu hynny, mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori o fewn rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd yn hytrach na sefyll fel prosiect ar ei draed ei hun er bod prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	2	8

Rheoli Risg

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnbylg y Cyngor.
- Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwylidig wedi cael eu cymryd.
- Mae gwersi wedi eu dysgu o'r Pandemig Covid-19 sydd wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcrain.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	10

Perfformiad

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet. Mae trefniadau clir wedi cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer 2022/23.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. Mae'r Gwasanaeth Cwynion a Gwella Gwasanaethau wedi gallu parhau i weithredu i ddelio â phryderon y cyhoedd ac i gefnogi gwasanaethau trwy gydol cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Rheolaeth Fewnol

Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocrataidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.
- Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Gwybodaeth

Risg: Methiant i reoli gwybodaeth gan arwain at fethu gwarchod y gwybodaeth sydd gennym, neu beidio gwneud y defnydd gorau ohono.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r system ERDMS, iGwynedd, bellach wedi ei chyflwyno i bawb yn y Cyngor ac yn sylfaen ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, lleihau dyblygu a galluogi llai o gamau mewn prosesau. Mae'r gwaith o uwchraddio'r system i fersiwn ddiweddaraf y dechnoleg yn mynd yn ei flaen yn ystod 2021 a 2022.
- Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn cefnogi adrannau wrth ddefnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau uchaf yng Nghynllun y Cyngor.
- Mae angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyllid

Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus, sy'n golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar ei flaenoriaethau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid.
- Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.
- Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Atebolrwydd

Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa, sydd ddim yn amlygu i'r cyhoedd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar eu cyfer gan danseilio'r sefyllfa ddemocrataidd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, y Cynllun Strategol (fydd yn cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddigwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Sicrwydd

Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar allu'r Archwilio Mewnol i gyflawni cymaint o archwiliadau yn ystod 2020/21, ac i raddau llai yn 2021/22, ag mewn blwyddyn arferol.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisiau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Adolygwyd y trefniadau cyn etholiad Mai 2017 ac fe benderfynodd y Cyngor fynd yn groes i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a mabwysiadu trefn wahanol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r drefn newydd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn etholiadau Mai 2017. Gwnaed addewid i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig ac mae'r Gweithgor Craffu, sy'n cynnwys aelodau o'r Cabinet, Fforwm Craffu ac uwch swyddogion, wedi cyflwyno opsiynau ar gyfer diwygio'r trefniadau ymhellach. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Aelodau yn ystod Hydref 2019 er mwyn egluro ac ystyried yr opsiynau ond bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 19 Rhagfyr 2019, dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i wrthod newid y trefniadau sylfaenol a thrwy hynny llynu at dri pwyllgor craffu, fel ag y sefydlwyd ym Mai 2017.
- Mae'r tîm newydd a sefydlwyd, ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth i drefniadau craffu o fewn y Cyngor, yn gweithio'n agos hefo Cadeiryddion/Is-gadeiryddion y pwyllgorau unigol er mwyn sicrhau eglurder a rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn ymestyn i ddatblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill ble'n berthnasol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Risg: Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Hyd at gychwyn COVID roedd gwaith da wedi digwydd yn y maes hwn, ond mae ffocws y gwaith tros y ddwy flynedd diwethaf wedi gorfod bod ar reolaeth risgiau COVID. Fen enghraifft, hyd at gychwyn COVID, roedd y mwyafrif helaeth o Reolwyr Gwasanaeth wedi mynychu cwrs IOSH Rheoli yn Ddiogel o fewn y 3 mlynedd ddiwethaf (ag eithrio lleiafswm bychan ble nad ydynt yn rheoli risgiau arwyddocaol). Oherwydd trosiant, a gan nad oes cyrsiau wedi eu cynnal tros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae hyn wedi llithro.
- Gweithdai iechyd a diogelwch wedi eu cynnal i staff a rheolwyr fel dilyniant i'r hyfforddiant IOSH mewn Adrannau ble fo risgiau uchel
- Gwaith o asesu cymhwysedd rheolwyr i reoli iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor wedi ei gychwyn cyn yr argyfwng Covid. Hwnnw wedi adnabod gwendidau o ran cwblhau asesiadau risg yn gywir neu fethu rhoi mesurau lliniaru digonol mewn lle. Bydd angen ail afael yn y gwaith hwnnw fel mater o flaenoriaeth unwaith bydd y sefyllfa wedi ei adfer i lefel diogel er mwyn cynnal ymweliadau monitro rhaglunedig. Mae rhai Rheolwyr yn adrodd fod swmp y gwaith sydd ei angen i godi pob elfen o'u gwaith i safon yn enfawr.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	3	15

Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

- 4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod unrhyw un o'r 23 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, ond mae 2 yn risg uchel ac 12 yn risg canolog.
- 4.2 Mae pob un o'r meysydd llywodraethu wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun y pandemig Covid-19 a rydym yn fodlon fod Cyngor Gwynedd wedi gallu addasu ei drefniadau gwaith er mwyn ymdopi â'r argyfwng heb wanhau ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol mewn ffordd sydd angen ei amlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.
- 4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel neu ganolog wedi eu nodi isod.

RISG UCHEL

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Diwylliant y Cyngor	Mae fersiwn terfynol swydd-ddisgrifiad diwygiedig i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor sydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwylidig ohonynt wedi'u cytuno arnynt gyda golwg i ryddhau'r swydd-ddisgrifiadau diwygiedig erbyn Hydref 2022. Mae adolygiad o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor yn cael ei gynnal yn bresennol mewn cydweithrediad ag aelodau Cabinet a Grwp Tasg a Gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r adolygiad wedi cynnwys gofyn i bob Pennaeth Adran gynnal hunan-asesiad o ddatblygiad y diwylliant o fewn eu gwasanaethau. Rhagwelir y bydd adroddiad yn nodi casgliadau'r adolygiad yn cael ei chytuno arni cyn diwedd Gorffennaf 2022. Bydd hynny wedyn yn sail i gynhyrchu rhaglen waith tair blynedd ffres ar gyfer gwreiddio'r diwylliant ymhellach ar draws y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	1. Cynnal trafodaeth agored â phenaethiaid /uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion, egluro'r egwyddor y tu ôl i newid mewn model busnes, a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa. 2. Cytundeb fod y cyrsiau IOSH yn ail ddechrau ym mis Mai 2022 3. Prosiect iechyd a diogelwch corfforaethol ar y gweill i gynnal adolygiad llawn o bob elfen ar draws y sefydliad a chynllun gwaith mewn lle. 4. Cynnal adolygiad llawn o hyfforddiant penodol staff, sut mae hyfforddiant mandadol yn cael ei ddarparu, a phwy sydd yn ei ddarparu.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Ymgysylltu	Yn ystod 2022/23, byddwn yn defnyddio ymarferiad ymgysylltu Fframwaith Adfywio'r Cyngor i: • gynnal ymarferiad ymgysylltu fydd yn dod a budd i sawl Adran, Gwasanaeth a phrosiect allweddol gan gynnwys Arolwg Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Asesiad Anghenion Poblogaeth (Adran Oedolion), Arolwg Angen Tai Lleol (Adran Tai ac Eiddo), Cymunedau Glan a Thaclus (Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy (Economi a Chymuned); • treialu'r defnydd o feddalwedd ymgysylltu newydd (meddalwedd "Bang The Table") fydd yn gwneud y profiad o ddweud eu dweud yn syml ac apelgar i'r cyhoedd; • datblygu brand newydd ar gyfer y maes ymgysylltu (brand "Ardal Ni"); • treialu ffordd newydd o ymgysylltu ar lefel 13 ardal lleol yn hytrach na Gwynedd gyfan. Byddwn hefyd yn: • parhau i ddatblygu a chryfhau trefniadau ymgysylltu ar draws y Cyngor; • parhau i amlygu'r cyfleoedd a chefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda phobl Gwynedd; • parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol gyda grwpiau yr ydym fel Cyngor yn ei chael yn anodd i'w cyrraedd; • cwblhau'r gwaith ar brosiect ymgysylltu sy'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyfeiriad a gweledigaeth	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Cynaliadwyedd	Byddwn yn edrych ar ein trefniadau cynllunio (gan gynnwys Cynllun y Cyngor, Adroddiadau Perfformiad Blynnyddol a'r hunan asesiad corfforaethol sydd angen ei gynnal) er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi mwy o sylw i egwyddorion y Ddeddf gan hefyd adrodd ar y cynnydd. Byddwn yn ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion trwy eu perthnasu hefo egwyddorion gweithredu Ffordd Gwynedd. Fel rhan o'r teclyn asesu effaith newydd Cydraddoldeb bydd angen amlinellu cyfraniad tuag at roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol. Bydd y teclyn yn cael ei lansio ym mis Mai 2022.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Adolygu deilliannau	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Bydd gweithgaredd i lunio Strategaeth Ddigidol newydd yn mynd rhagddo a hynny dan oruchwyliaeth y Grŵp Rheoli Corfforaethol drwy nawdd y Grŵp Strategol Trawsnewid Digidol. Fe fydd y strategaeth ddigidol yn gam naturiol o'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth.	Cyllid
Cynllunio'r Gweithlu	Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfredol gyda Grwp Prosiect traws-adrannol yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 4 Gorffennaf, 2022. Cymeradwywyd cyfanswm o £1.1 miliwn gan y Cabinet ym Mai 2021 er mwyn parhau efo'r Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflogi o leiaf 20 prentis y flwyddyn am y dair blynedd nesaf ynghyd ag hyd at 6 hyfforddai proffesiynol yn ystod yr un cyfnod. Mae'r Cynllun Datblygu Talent Mewnol hefyd wedi'i sefydlu a byddwn yn edrych i ymestyn y Rhaglen Datblygu Potensial i adrannau tu hwnt i Cefnogaeth Gorfforaethol yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae Rhaglen Datblygu Potensial benodol hefyd wedi'i datblygu ar gyfer merched fel rhan o'r Prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth. Mae'r garfan cyntaf o ferched wedi ymgymryd a'r Rhaglen eisoes gyda'r ail gyfres wedi'i threfnu a'r cofrestru ar ei gyfer wedi'i gau.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Arweinyddiaeth	Mae Rhaglen Datblygu Potensial benodol wedi'i datblygu ar gyfer merched fel rhan o'r Prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth. Mae Cynllun Mentora ar gyfer merched hefyd wedi'i gymeradwyo ac mae hyfforddiant penodol i'r garfan gyntaf o "fentoriaid" wedi'i gynnal. Byddwn yn parhau i gynnal "sgyrsiau dros baned" ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr ar draws y Cyngor ac hefyd i gynghorwyr benywaidd yn y Cyngor newydd. Byddwn hefyd yn datblygu'r ymddygiadau arwain a ddisgwylir o reolwyr yn gyffredinol ac hynny'n bennaf trwy gyfuniad o hyfforddiant yn ymwneud a'r "ffordd o weithio" a thrwy herio'r ymddygiadau fel rhan o'r gwerthuso parhaus sy'n cael ei hyrwyddo fel rhan o sefydlu'r diwylliant. Byddwn yn arbrofi efo dull amgen o gynnal sesiynau y rhwydwaith rheolwyr trwy sefydlu grwpiau o 12 rheolwr fydd yn gallu cynnal a chefnogi'u gilydd. Mae'r gyfres cyntaf o gyfarfodydd wedi'u cynnal ar sail rhithiol yn gynharach yn y flwyddyn gyda'r bwriad o gynnal y gyfres nesaf o gyfarfodydd wyneb i wyneb yn ystod Hydref 2022.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheoli Risg	Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Byd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddar'u'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Gwybodaeth	Mae Cynllun Gwybodaeth newydd yn cael ei lunio ar gyfer 2021-26 fydd yn edrych i: 1. Ymestyn y gwaith cefnogi gwasanaethau wrth ddefnyddio a dehongli data ynglyn â'u gwasanaethau ac am Wynedd 2. Sefydlu a hyrwyddo Safonau Data ar gyfer meysydd lle mae anghysondebau yn bodoli neu wedi codi. 3. Leihau y risg mewn diogelwch gwybodaeth sy'n bodoli ar draws y Cyngor (hynny yn sgil cynnal asesiad cynhwysfawr ar sail fframwaith archwilio'r ICO) 4. Gyflwyno ffyrdd o sicrhau bod staff yn derbyn hyffroddiant priodol ar gyfer diogelu data'r Cyngor. 5. Roi trefn ar wybodaeth a gwaredu gwybodaeth yn amserol 6. Ehangu'r defnydd o iGwynedd fel ein bod yn gwneud y mwyaf o'r hyn mae'n ei gynnig 7. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd 8. Leihau'r defnydd o bapur 9. Cryfhau trefniadau rheoli CCTV trwy benodi person cyswllt ar gyfer systemau sydd ddim yn rhai canol tref a chamerau corff	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyllid	Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2022/23. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Sicrwydd	Bydd y Tim Craffu yn gweithio'n agos trwy'r Fforwm Craffu gyda'r Cadeiryddion newydd er mwyn gweithredu ar y rhaglenni craffu yn ystod y flwyddyn i ddod gyda'r trefniadau yn eu lle ar gyfer cynnal gweithgornau efo holl aelodau pob Pwyllgor Craffu cyn diwedd Gorffennaf 2022. Bydd adroddiad yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 23 Mehefin 2022 yn argymhell cyfrifoldeb am graffu gwasanaethau canolog o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Pwyllgor Addysg ac Economi yn sgil newidiadau sydd yn cael eu cyflwyno i rôl a chyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sgil gofynion Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Rhan 5: BARN

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

DAFYDD GIBBARD**PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD**

Cyng. DYFRIG SIENCYN**ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD****DYDDIAD****DYDDIAD:**

Eitem 11

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 MEHEFIN 2022
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2021/22
PWRPAS:	Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22 arhosodd gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £556,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £433,000 a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda methu â thalu.

1. Cyflwyniad

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth 2021.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

2. Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Crynodeb Mantolen

Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Cyngor fenthyciadau net o £7m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthycia Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

	31.3.21 Gwir £m	2021/22 Symudiad £m	31.3.22 Gwir £m
CFR	174	(5)	169
Llai : Ymrwymadau dyled eraill	(2)	1	(1)
CFR Benthyciadau	172	(4)	168
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(108)	(35)	(143)
Llai: Cyfalaf Gweithredol	(16)	(2)	(18)
Benthyciadau net	48	(41)	7

Mae cyfraddau llog isel swyddogol wedi lleihau cost benthyciadau tymor byr, dros dro a dychweliadau buddsoddi o asedau ariannol gellir eu defnyddio yn lle benthycia. Strategaeth y Cyngor ydi cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthycia mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	31.3.21 Balans £m	Symudiad £m	31.3.22 Balans £m	31.3.22 Cyfradd %
Benthyciadau tymor hir	(103.1)	1.3	(101.8)	5.5
Benthyciadau tymor byr	(6.6)	5.0	(1.6)	6.4
PFI	(1.5)	0.1	(1.4)	Amh.
Cyfanswm Benthyciadau	(111.2)	6.4	(104.8)	
Buddsoddiadau tymor byr	34.9	44.9	79.8	1.0
Arian a Chywerthydd arian	28.7	(10.6)	18.1	0.6
Cyfanswm buddsoddiadau	63.6	34.3	97.9	
Benthyciadau net	47.6	40.7	6.9	

3. Gweithgaredd Benthycia

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cyngor £103.4m o fenthyciadau, lleihad o £6.3m ers y flwyddyn cynt fel rhan o'r strategaeth i ariannu cynlluniau cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

Y llog a dalwyd yn ystod 2021/22 oedd £5.7 miliwn ar bortffolio benthyciadau gyda chyfartaledd o £103.2 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.5%.

Gweler y sefyllfa a symudiadau benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y tabl isod.

	31.3.21 Balans £m	2021/22 Symudiad £m	31.3.22 Balans £m	31.3.22 Cyfradd %	31.3.22 WAM* blynyddoedd
PWLB	86.9	(1.3)	85.6	5.75	18.21
Banc (tymor sefydlog)	16.2	0.0	16.2	4.22	56.36
Awdurdodau Lleol (tymor byr)	5.0	(5.0)	0.0	0.0	0.0
Eraill	1.6	0.0	1.6	0.0	3.47
Cyfanswm Benthyciadau	109.7	(6.3)	103.4		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Ymhellach i'r amcanion yma, ni wnaed unrhyw fenthycia tymor hir newydd yn 2021/22, gyda'r benthyciadau presennol yn aeddfedu heb gymryd benthyciad newydd yn eu lle. Wnaeth y strategaeth yma alluogi'r Cyngor i leihau eu costau benthycia net (er colli incwm buddsoddi) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol.

4. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Cyhoeddodd CIPFA Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys sy'n deillio o lif arian y sefydliad neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio yng nghwrs busnes.

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2021/22, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £62.9 miliwn a £147.9 miliwn.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.21 Balans £m	2021/22 Symudiad £m	31.3.22 Balans £m	31.3.22 Cyfradd %	31.3.22 WAM* (diwrnodau)
Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu)	8.6	14.5	23.1	0.64	24.2
Awdurdodau Lleol	20.0	10.0	30.0	0.52	69.2
Cronfeydd Marchnad Arian (CMA)	26.0	(9.0)	17.0	0.54	1.0
Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)	0.0	18.0	18.0	0.55	16.8
Cronfeydd wedi'i pwlio	8.9	0.9	9.8	4.44	365+
Cyfanswm buddsoddiadau	63.5	34.4	97.9		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddifffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae cyfraddau arian tymor byr hynod o isel wedi bodoli am lawer o'r cyfnod adrodd o 12 mis, sydd wedi bod yn nodweddiadol ers mis Mawrth 2020 pan dorrwyd cyfradd y Banc i 0.1%. Mae hyn wedi arwain at incwm gan y Cronfeydd Marchnad yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr ildio neu ostwng eu ffioedd dros dro. Fodd bynnag, roedd enillion uwch yn dilyn y cynnydd yn y Gyfradd Banc ym mis Rhagfyr, Chwefror a Mawrth. Ar 31 Mawrth 2022, roedd yr incwm ar CMA y Cyngor yn amrywio rhwng 0.51%-0.58%.

Yn yr un modd, arhosodd cyfraddau'r Swyddfa Rheoli Dyledion yn isel iawn i ddechrau gyda chyfraddau'n amrywio o 0% i 0.1%, ond yn dilyn y cynnydd i'r gyfradd sylfaenol, cynyddodd cyfraddau i rhwng 0.55% a 0.85% yn dibynnu ar aeddfedrwydd y blaendal. Y gyfradd gyfartalog ar adneuon DMO y Cyngor oedd 0.55%.

Mae £9.8m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti cyfun strategol a chronfeydd eiddo a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn eu lle yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 4.4%, a chynnydd cyfalaf heb ei wireddu o £0.9m yn y flwyddyn ariannol yma.

Yn y naw mis hyd at fis Rhagfyr adlewyrchwyd gwell teimlad o'r farchnad ym mhrisiadau ecwiti, eiddo, aml-asedau ac, yn eu tro, yng ngwerth cyfalaf cronfeydd ym mhortffolio'r Cyngor. Fodd bynnag, arweiniodd y rhagolygon o chwyddiant uwch a chynnydd mewn elw bondiau at berfformiad cronfa bondiau tawel. Yn y chwarter Ionawr-Mawrth, y ddwy thema amlycaf oedd polisi ariannol llymach y DU a'r Unol Daleithiau a chyfraddau llog uwch, a goresgyniad milwrol yr Wcraïn gan Rwsia ym

mis Chwefror, gyda'r olaf yn sbarduno ansefydlogrwydd ac ansicrwydd sylweddol yn y marchnadoedd ariannol.

Yng ngoleuni goresgyniad Rwsia, cysylltodd Arlingclose â rheolwyr cronfeydd CMA a chronfeydd strategol a chadarnhaodd nad oes unrhyw amlygiad uniongyrchol i asedau Rwsiaidd na Belarwseg wedi'i nodi. Roedd datguddiadau anuniongyrchol yn amherthnasol. Dylid nodi na ellir adnabod unrhyw asedau a ddelir gan fanciau a sefydliadau ariannol (e.e. o fenthyciadau i gwmnïau sydd â chysylltiadau â'r gwledydd hynny) o fewn CMA a chronfeydd cyfun eraill yn hawdd nac ag unrhyw sicrwydd gan nad yw'r lefel honno o fanylion gronynnog yn debygol o fod ar gael i reolwyr y gronfa neu Arlingclose yn y tymor byr, os o gwbl.

Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, adolygir eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneid buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blwyddyn ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

Meincnodi Buddsoddiadau

	Sgôr Credyd	Graddfa Credyd	Amlygiad 'Bail-in'	WAM* (diwrnodau)	Cyfradd Dychwelyd
31.03.2021	4.73	A+	63%	25	0.77%
31.03.2022	4.82	A+	54%	31	0.62%
A.LI	4.59	A+	46%	52	0.19%
Tebyg					
Pob A.LI	4.64	A+	66%	16	0.66%

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

5. Adroddiad Cydymffuriad

Mae'r swyddog adran 151 yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli'r trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffuriad gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tablau isod:

Cyfyngiadau Dyled

	2021/22 Uchafswm	31.3.22 Gwir	2021/22 Ffin Weithredol	2021/22 Terfyn Awdurdodedig	Cydymffurfiwyd
Benthyciadau	£108.1m	£103.4m	£190m	£200m	✓

Gan fod y ffin weithredol yn declyn rheolaeth ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn nad yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar achlesir oherwydd amrywiadau'r llif arian, ac nad yw hyn yn cael ei cyfrifi fel methiant cydymffuriad.

Cyfyngiadau Buddsoddi

	2021/22 Uchafswm	31.3.22 Gwir	2021/22 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Llywodraeth y DU	£59.8m	£18m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£10m	✓
Buddsoddiadau a sicrwydd	£0m	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£5m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladau (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£7m	£7m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0m	£0m	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi'i bwysu ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysu yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfydded.

	31.3.22 Gwir	2021/22 Targed	Cydymffurfiwyd
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	4.82	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol.

	31.3.22 Gwir	2021/22 Targed	Cydymffurfiwyd
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£78m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

	31.3.22 Gwir	2021/22 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£389,866	£635,000	✓
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwmp o 1% mewn cyfraddau llog	£0	£24,000	✓

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau: Mae'r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad y Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn:

	31.3.22 Gwir	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Cydymffurfiwyd
O dan 12 mis	1.52%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	2.37%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	13.61%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	6.91%	75%	0%	✓
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	75.59%	100%	0%	✓

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad.

Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

	2021/22	2022/23	2023/24
Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£10m	£0	£0
Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfiwyd	✓	✓	✓

Arall

Codau CIPFA Diwygiedig, Canllawiau wedi'u Diweddarau ar Gyfleusterau Benthycia PWLB: Ym mis Awst 2021 fe wnaeth Trysorlys EM ddiwygio canllawiau ar gyfer cyfleuster benthycia PWLB yn sylweddol gan ddarparu mwy o fanylion a 12 enghraifft o ddefnydd a ganiateir a defnydd gwaharddedig o fenthyciadau PWLB. Ni fydd cynghorau sy'n prynu neu'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf am elw yn gallu cael mynediad i'r PWLB ac eithrio i ail-gyllido benthyciadau presennol neu allanol benthycia mewnlol. Mae defnydd derbynol o fenthycia PWLB yn cynnwys darparu gwasanaethau, tai, adfywio, gweithredu ataliol, ail-ariannu a rheolaeth trysorlys. Nid oedd y Cyngor yn bwriadu benthycia i fuddsoddi'n fasnachol ac felly nid yw'n cael ei effeithio gan y newidiadau i'r Cod Darbodus.

Cyhoeddodd CIPFA ei God Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf a Chod Rheoli'r Trysorlys ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r newidiadau allweddol yn y ddau god yn ymwneud â rhesymau a ganiateir i fenthycia, gwybodaeth a sgiliau, a rheoli buddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys.

Mae egwyddorion y Cod Darbodus yn cael effaith yn syth er y gallai awdurdodau lleol ohirio cyflwyno'r gofyniad adrodd diwygiedig tan flwyddyn ariannol 2023/24, ac mae'r Cyngor wedi dewis y dyddiad hwn.

Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Darbodus, rhaid i Gynghorau beidio â benthycia i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol. Mae'r Cod hwn hefyd yn nodi nad yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud penderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r CFR oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau'r Cyngor. Nid oes disgwyl i fuddsoddiadau masnachol presennol cael eu gwerthu, fodd bynnag, dylai awdurdodau sydd â buddsoddiadau masnachol presennol sy'n disgwyl bod angen benthycia adolygu'r opsiynau ar gyfer gadael y buddsoddiadau hyn.

Caniateir benthycia ar gyfer rheoli llif arian, rheoli risg cyfraddau llog, ail-gyllido benthycia cyfredol ac addasu lefelau benthycia mewnlol. Mae benthycia i ail-gyllido gwariant cyfalaf sy'n ymwneud yn bennaf â chyflawni swyddogaeth awdurdod lleol ond pan ddisgwylir enillion ariannol hefyd yn cael ei ganiatáu, ar yr amod nad

adenillion ariannol yw'r prif reswm dros y gwariant. Mae'r newidiadau yn alinio Cod Darbodus CIPFA â rheolau benthyca'r PWLB.

Yn wahanol i'r Cod Darbodus, nid oes unrhyw sôn am ddyddiad y cais cychwynnol yn y Cod Rheoli Trysorlys. Mae'r Cod TM bellach yn cynnwys gofynion ychwanegol helaeth ar gyfer buddsoddiadau gwasanaeth a masnachol, ymhell y tu hwnt i'r rhai yn fersiwn 2017.

Bydd y Cyngor yn dilyn yr un broses â'r Cod Darbodus, drwy ohirio newidiadau mewn gofynion adrodd i flwyddyn ariannol 2023/24.

IFRS 16: Roedd gweithredu safon cyfrifo Prydlesi IFRS 16 newydd i fod i ddod i rym ar gyfer awdurdodau lleol o 1 Ebrill 2022. Yn dilyn ymgynghoriad, fe wnaeth CIPFA/LASAAC gyhuddo o oedi o ddwy flynedd cyn gweithredu'r safon hwn, penderfyniad a gadarnhawyd gan y Bwrdd Cyngori ar Adroddiadau Ariannol ddechrau mis Ebrill 2022. Gall cynghorau nawr ddewis mabwysiadu'r safon newydd ar 1 Ebrill 2022, 1 Ebrill 2023 neu 1 Ebrill 2024. Mae'r Cyngor yn bwriadu mabwysiadu'r safon newydd ar 1 Ebrill 2024.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 EBRILL 2022
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 31 Ionawr 2022 hyd 30 Ebrill 2022.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2021-22 yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2021:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	16

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2022, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Trefniadau Diogelu	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 1
Brexit	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 2
Côd Rheoli Ariannol	Corfforaethol	-	Uchel	Atodiad 3
Dynodiadau iaith	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 4
Defnydd o Gardiau Pryniant	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 5
Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Addysg	Ysgolion	Cyfyngedig	Atodiad 6
Hylandid Bwyd	Amgylchedd	Gwarchod y Cyhoedd	Cyfyngedig	Atodiad 7
Trefniadau Adfer Trychineb	Cyllid	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 8
Rheoli Prosiect – Uwchraddio E-financials	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 9
Newid Data Sefydlog	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 10
Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Digonol	Atodiad 11
Storiol	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd ac Orielau	Digonol	Atodiad 12
Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd ac Orielau	Uchel	Atodiad 13

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	BUEGC	–	Uchel	Atodiad 14
Dyledion	Oedolion, lechyd a Llesiant	Oedolion	Digonol	Atodiad 15
Diogelu Asedau Preswylwyr	Oedolion, lechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Digonol	Atodiad 16

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mai 2022:

- Cynlluniau Parhad Busnes a Gwersi a Ddysgwyd (*Corfforaethol*)
- Trefn Gwynion (*Corfforaethol*)
- Grantiau Cefn Gwlad (*Amgylchedd*)
- Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 31 Ionawr 2022 hyd at 31 Mai 2022, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

TREFNIADAU DIOGELU

1. Cefndir

- 1.1 Mae'n ofyniad statudol fod pawb sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus yn cwblhau hyfforddiant Cam-drin Domestig / Trais yn y Cartref. Adroddwyd yn y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Rhanbarthol fod darparwyr arbenigol trais yn y cartref wedi gweld cynnydd o 35-40% mewn cyfeiriadau. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn awyddus i weld cynnydd yn y niferoedd staff sy'n cwblhau'r modiwl. Mae sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad i'r niferoedd o staff Cyngor Gwynedd sydd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu mandadol Camdriniaeth Domestig, a bod rheolwyr yn ymwybodol o'r staff sydd heb ei gwblhau er mwyn hyrwyddo ei bwysigrwydd a chynyddu'r nifer sydd yn ei gwblhau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dilysu data system MoDS yn annibynnol, gwirio fod staff llaw wedi eu cynnwys/ystyried yn y data, a bod Rheolwyr wedi derbyn canllawiau defnyddwyr ar gyfer medru gweld cofnodion hyfforddiant eu staff ar y system hunanwasanaeth.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer sicrhau fod pob aelod o staff Cyngor Gwynedd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu mandadol Camdriniaeth Domestig, ond bod angen tynhau ar rai agweddau a chyflwyno rheolaethau newydd er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

- 5.2 Gwelwyd fod y modiwl wedi bod yn destun trafodaeth cyson yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Diogelu, gyda sawl ymgais ar eu rhan i annog staff i'w gwblhau. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Swyddog E-Ddysgu mai ond data mewn perthynas ag unigolion sydd wedi cwblhau'r modiwl y gall y gwasanaeth allforio o system MoDS, ond nid aelodau staff sydd angen cwblhau'r hyfforddiant.
- 5.3 Mae'r gallu gan reolwyr, drwy'r system hunan wasanaeth, i wirio pa aelodau staff o'u tîm uniongyrchol sy'n parhau heb gwblhau'r hyfforddiant. Gwelwyd fod canllawiau ar gyfer sut i wneud hynny wedi eu rhannu gyda reolwyr
- 5.4 Cadarnhaodd y Swyddog E-ddysgu fod pawb sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl hyd yn hyn wedi gwneud hynny drwy Porth E-ddysgu'r Cyngor. Eglurodd fod pecynnau hyfforddiant ar gael i aelodau staff nad oes ganddynt fynediad at y fewnrwyd, gyda'r disgwyl fod rheolwyr wedyn yn danfon cadarnhad fod yr hyfforddiant wedi ei gwblhau i staff gweinyddol MoDS, ar gyfer diweddaru'r system. Nid oes unrhyw reolwr hyd yn hyn wedi gwneud hyn. Echdynnodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol ddata mewn perthynas â phawb oedd wedi cwblhau'r modiwl hyd at 21 Chwefror 2022. Roedd 3,324 o aelodau staff wedi ei gwblhau ar y pryd, gyda datganiad y Swyddog E-ddysgu yn awgrymu nad yw unrhyw un o'r 3,324 yn staff llaw/heb fynediad at y fewnrwyd.
- 5.5 Mewn perthynas â derbyn data mewn perthynas â aelodau staff sydd heb gwblhau'r modiwl, cadarnhaodd y Rheolwr Arloesi gyda Technoleg a Cynnal a Chadw Systemau fod modd derbyn adroddiad drwy wasanaeth adroddiadau MoDS, ond nad oedd yn weithredol gan nad oedd cais penodol i'w greu wedi ei dderbyn.
- 5.6 Gwelwyd fod y data ar 7 Mawrth 2022 yn cadarnhau fod 4,665 o aelodau staff yn parhau heb gwblhau'r hyfforddiant. Fodd bynnag, gwelwyd fod y data yn cynnwys staff asiantaeth, aelodau staff sydd eisoes wedi gadael, a hefyd enwau ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden. Ni ellir dibynnu'n llwyr ar y data hyn i roi ffigwr terfynol ar gyfer y nifer sydd heb gwblhau'r e-fodiwl gan fod nifer o ffactorau angen cael eu cymryd i ystyriaeth o ran pa mor "lân" yw'r data. Gwelwyd mai'r adrannau gyda'r niferoedd uchaf o staff heb gwblhau'r e-fodiwl yw'r adrannau sydd â nifer uchel o staff llaw/achlysurol, sydd heb fynediad at y fewnrwyd, sef Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

6. Camau Gweithredu

Mae Tîm MoDS wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei drefnu i adrannau sydd â niferoedd uchel o staff llaw/achlysurol, gyda chyfarwyddyd i'w dosbarthu i'r swyddogion sydd heb gwblhau'r hyfforddiant Cam-drin Domestig.**
- **Cynhyrchu rhestr o staff sydd heb gwblhau hyfforddiant oddi ar adroddiadau MoDs gyda cyngor y Gwasanaeth TG, gan ddosbarthu rhestr i adrannau/rheolwyr ar gyfer annog eu staff i gwblhau'r hyfforddiant, gan bwysleisio pwysigrwydd gwirio bod y data yn gyfredol ac yn gywir.**

BREXIT**1. Cefndir**

- 1.1 Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd 52% i adael yr Undeb Ewropeaidd mewn refferendwm. Ar 31 Rhagfyr 2020, gadawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd. Rhwng y dyddiadau yma ac ymhellach, mae llawer o ansicrwydd wedi bod am sawl agwedd o fywyd yng Ngwynedd, Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi Brexit. Mae wedi bod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor trwy'r cyfnod yma i sicrhau eu bod wedi paratoi i reoli'r effeithiau negyddol posib ddaw yn sgil Brexit.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i leihau effeithiau negyddol Brexit ar bobl Gwynedd a'r Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau ar gyfer rheoli risgiau ac unrhyw faterion sy'n codi yn sgil Brexit a all amharu ar weithrediadau'r Cyngor, gwirio bod swyddogion cyfrifol wedi'u dynodi, yn adnabod y risgiau ac yn eu rheoli a gwirio bod trefniadau cyfathrebu digonol yn fewnol ac allanol, megis adrodd yn fewnol ar risgiau a'u rheolaeth ac adrodd yn allanol ar newidiadau sydd yn effeithio pobl Gwynedd ac ar unrhyw adnoddau sydd ar gael.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Sefydlwyd Grŵp Brexit yn 2018 gyda'r briff i 'edrych ar effeithiau posib Brexit ar sefydliad a sut all y Cyngor sicrhau parhad gwasanaeth'. Mae trawstoriad o swyddogion o wahanol adrannau yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd y Grŵp.

- 5.2 Y Grŵp yma sydd yn gyfrifol am gofrestr risg Brexit sydd yn cael ei diweddarau yn rheolaidd pan fydd newid i unrhyw un o'r risgiau cynwysedig. Gwelwyd bod cofrestr risg Brexit gyda chofnod o'r risgiau sydd wedi eu hamlygu gan wahanol swyddogion parthed Brexit. Mae adran yn cael ei nodi ar gyfer pob risg yn ogystal â'r maes mae'n effeithio, disgrifiad o'r risg, sgôr 'Effaith', prif risgiau cysylltiedig, sgôr 'Tebygolrwydd', Sgôr risg a mesurau rheoli i'w hystyried/gweithredu. Mae hefyd colofn yn y gofrestr risg yn manylu perchennog pob risg o dan y golofn gyda phennawd 'Cyfrifoldeb Pwy'. Gwelwyd bod enw yn y golofn yma ar gyfer y rhan fwyaf o risgiau ond roedd 13 allan o 64 risg heb enw yn y golofn hon gyda phedwar o risgiau wedi'u sgorio'n isel a'r gweddill yn gymedrol ond gwelwyd bod dau o'r risgiau heb weithrediad yn eu herbyn ac yn ymddengys eu bod yn ddibynnol ar effaith/newidiadau i'r farchnad (ar y cyfan 17% heb enw yn erbyn y gweithrediadau).
- 5.3 I sicrhau bod Gwynedd yn gweithredu ar y safon uchaf, roedd cyfathrebiad rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill. Gwelwyd o gofnodion cyfarfodydd y Grŵp bod swyddogion yn adrodd yn ôl wedi iddynt fynychu trafodaethau perthnasol am Brexit gyda chyrff eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru, yr Heddlu a chynghorau eraill.
- 5.4 Mae 10 risg ar y gofrestr risg Brexit yn berthnasol i gyflenwadau o gynnyrch/offer. Mae camau posib i liniaru'r risgiau wedi eu hamlygu ar y gofrestr ac wedi eu gweithredu ble mae modd. Mae COVID wedi bod ar y brig o ran pryderon effeithiau ar y gadwyn gyflenwi ers yn gynnar yn 2020. Mae adroddiad wedi ei chynhyrchu gan Archwilio Mewnol ar risgiau gyda'r gadwyn gyflenwi yn ystod COVID. Gwelwyd o'r archwiliad bod rheolaeth dda o risgiau wedi bod gyda'r gadwyn gyflenwi ers 2020.
- 5.5 Mae 'ardrawiad ar fusnesau' ac 'arian Ewrop' yn ddau risg gyda sgôr risg uchel o 20/25 gan yr Adran Economi a Chymuned ar gofrestr risg Brexit. Mae'r risgiau yma yn effeithio cyllid ar gyfer busnesau Gwynedd. Ni all y Cyngor sicrhau bod arian ar gael i'r busnesau ond maent yn cymryd camau i roi'r gwasanaeth gorau i fusnesau Gwynedd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar newidiadau masnachu oherwydd Brexit wedi bod ar gael i fusnesau ar wefan y Cyngor. Mae'r Adran hefyd wedi bod yn ymateb i ymgynghoriadau ar wahanol adroddiadau'r Llywodraeth mewn perthynas ag amaeth.

6. Camau Gweithredu

Mae pob swyddog yn y Grŵp wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod swyddog cyfrifol yn cael eu penodi ar gyfer pob gweithrediad ar gofrestr risg Brexit.**

CÔD RHEOLI ARIANNOL**1. Cefndir**

- 1.1 Mae'r Côt Rheoli Ariannol wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae'r côd yn canolbwyntio ar werth am arian, llywodraethu, arddulliau rheolaeth ariannol, gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd ariannol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cwrdd â gofynion Côt Rheoli Ariannol CIPFA. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cwblhau hunanasesiad er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r côd, ac er mwyn adnabod os oes camau rhaid eu gweithredu er mwyn cryfhau trefniadau rheolaeth ariannol ymhellach.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Mae'n ofyniad bod Awdurdodau Lleol yn gallu profi eu bod yn bodloni gofynion y côd. I'r perwyl yma, cwblhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Uwch Reolwr Cyllid hunanasesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor yn erbyn gofynion y côd, gan gynnwys asesiad o brosesau, gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu.
- 4.2 Mae'r hunanasesiad yn cynnwys gosodiad o 17 o gwestiynau allweddol a baratowyd gan CIPFA o fewn canllaw ymarferwyr sydd yn cyd-fynd â'r Côt Rheoli Ariannol. Gwiriwyd y trefniadau rheoli ariannol sydd mewn lle gan y Cyngor ar gyfer pob un o'r 17 safon, a gwelwyd fod gan y Cyngor lefel dda o gydymffurfiaeth gydag agweddau'r Côt Rheoli Ariannol.
- 4.3 Gwelwyd tystiolaeth addas gan yr Adran Gyllid i gyd-fynd a chyfiawnhau â'r ymatebion i'r hunanasesiad. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Datganiad Llywodraethu Blyneddol, Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol, datganiadau o gyfrifon a strategaethau ariannol.

DYNODIADAU IAITH**1. Cefndir**

- 1.1 Cynlluniwyd Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd mewn ymateb i ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, i gynnig gwasanaeth Gymraeg i'r cyhoedd ac i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau. Mae'r Polisi yn nodi sut bydd y Cyngor yn cynllunio a darparu gwasanaeth dwyieithog i boblogaeth Gwynedd, gyda gwaith yn cychwyn ar Brosiect Dynodiadau Iaith yn 2016.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer mapio lefelau iaith swyddi a sgiliau staff Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn derbyn y gwasanaeth dwyieithog gorau posibl, yn ogystal ag ymateb i ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu allbynnau'r Tîm Prosiectau Dynodiadau Iaith mewn perthynas â dynodi ac asesu sgiliau gwranddo a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu staff y Cyngor, yn ogystal â gwirio fod gwasanaethau yn gweithredu yn briodol ble nad yw gofynion sgiliau iaith wedi eu cyrraedd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer mapio lefelau iaith swyddi a sgiliau staff Cyngor Gwynedd, ond bod angen tynhau ar rai agweddau er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

- 5.2 Gwelwyd bod y Tîm Dynodiadau Iaith wedi cyflwyno holiadur hunan asesiad sgiliau lefel iaith swyddi'r Cyngor ar y system hunan wasanaeth yn ystod 2019/20. Gwelwyd yn Tachwedd 2021, un adran yn unig sef YGC, o adrannau'r Cyngor oedd gyda pob aelod o'u staff wedi cwblhau'r hunan asesiad, gyda'r adrannau eraill yn amrywio rhwng 27.3% a 94.4%. Ymddengys mai niferoedd isel o staff llinell flaen sydd wedi cwblhau'r holiadur am nad oes ganddynt fynediad at y fewnrwyd. Cadarnhaodd y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg fod pob ymdrech yn cael ei wneud i ymweld â'r aelodau staff yma ac i barhau ar hyn o bryd i gwblhau hunan asesiadau papur.
- 5.3 Hyd at 21 Ionawr 2022, roedd 4,173 allan o oddeutu 7,000 o aelodau staff Cyngor Gwynedd (yn cynnwys ystadegau Byw'n Iach ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru) wedi cwblhau hunan asesiad er mwyn canfod eu lefel iaith. Ar gyfer yr archwiliad, gwiriwyd sampl o 5% yn fanwl, sef asesiadau 209 aelodau staff, er mwyn canfod os yw eu lefelau iaith yn cyrraedd gofynion eu swyddi, neu fel arall, bod camau wedi eu cymryd i geisio codi eu lefelau iaith. O'r sampl, gwelwyd nad oedd lefel iaith 31 aelod o staff yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. O'r 31, mae 4 wedi derbyn/cwblhau hyfforddiant er mwyn codi lefel eu iaith. O'r 27 yn weddill, sydd yn gweithio i wasanaethau gyda niferoedd uchel o staff llinell flaen, mae'n awgrymu bod diffyg ymrwymiad gan unigolion a rheolwyr i flaenoriaethu'r hyfforddiant, ac i drefnu hyfforddiant addas ar gyfer patrymau gwaith ac anghenion staff llinell flaen.
- 5.4 Gwelwyd fod Penaethiaid yn derbyn adroddiadau chwarterol yn adrodd ar ystadegau eu hadrannau mewn perthynas â sawl aelod staff sydd wedi/heb gwblhau hunan asesiad, ac yn neu ddim yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Yn ogystal, mae cyfarfodydd Fforwm Dynodiadau Iaith yn cael eu cynnal yn chwarterol, ble mae cynrychiolwyr o wahanol adrannau o fewn y Cyngor yn cyfarfod ar gyfer trafod unrhyw rwystrau ieithyddol, gyda'r Tîm Dynodiadau Iaith yn cynnig cyngor a datrysiadau.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Tîm Dynodiadau Iaith wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Parhau i gael 100% o staff y Cyngor i gwblhau holiadur hunan asesiad sgiliau iaith, gan gynnwys cyflwyno holiaduron papur i staff heb fynediad at y fewnrwyd.
- Parhau i asesu anghenion hyfforddiant staff sydd ddim yn cwrdd â dynodiadau iaith eu swyddi, gan ddarparu opsiynau priodol ar eu cyfer.

DEFNYDD O GARDIAU PRYNIANT**1. Cefndir**

- 1.1 Mae'r Cyngor yn ddefnyddio cardiau Barclaycard i archebu nwyddau/gwasanaethau a mae gan ambell gwasanaeth hawl i godi arian parod gyda'r cardiau. Defnyddir system BSM (*'Barclay Spend Management'*) i godio, gymeradwyo, fonitro a rheoli gwariant. Yn ystod 2020/2021 adroddwyd o'r system BSM bod 40 o swyddogion wedi archebu drwy gerdyn credyd y Cyngor gyda 76 o swyddogion wedi'u cofrestru gyda cherdyn gan Gyllid.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gwasanaethau wedi gweithredu ar gardiau pryniant y Cyngor yn briodol a bod eu defnydd yn ddilys, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau prynu, monitro a chymeradwyo taliadau wedi digwydd yn brydlon. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o wariant cardiau credyd i gadarnhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad a pholisïau'r Cyngor.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer gweinyddu/rheoli gwariant drwy gardiau pryniant yn datgan *'Ni chaiff unrhyw gerdyn credyd neu gerdyn talu o unrhyw fath at ddibenion y Cyngor ei gadw na'i ddefnyddio gan unrhyw swyddog oni chytunid hynny ymlaen llaw gyda'r Pennaeth Cyllid ar ôl derbyn cais gan y Prif Swyddog priodol.*

Lle caniateir prynu gyda cherdyn credyd neu gerdyn talu, rhaid i'r swyddog sy'n defnyddio'r cyfleuster hwnnw ddarparu dogfennau digonol i gefnogi pob pryniant yn cynnwys anfoneb/derbynneg T.A.W. yn daladwy. Ni chaniateir unrhyw brynu preifat trwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn talu o'r fath.'

- 5.2 Gwelwyd bod rheolaethau ffurfiol yn bodoli ar gyfer darparu cerdyn credyd i swyddogion y Cyngor a sefydlu defnyddwyr ar y system *BSM* gyda chanllawiau ar sut i weinyddu a rheoli'r gwariant drwy'r system *BSM*. Gwelwyd bod rheolaethau yn briodol a bod yr Uwch Dechnegydd Cyllid yn gyfrifol am gadw cofnod o ddefnyddwyr a chynnal cysoniadau misol fel bod y taliadau yn cysoni ar ddiwedd flwyddyn.
- 5.3 O'r sampl o swyddogion oedd wedi gwario yn ystod 2020 hyd at 2021, gwelwyd mai swyddogion awdurdodedig yn unig oedd wedi archebu a chodio gwariant, a bod y gwariant o fewn y trothwy a ddynodir ar eu cyfer.
- 5.4 Derbyniwyd gwybodaeth bod swyddogion cyfrifol yn derbyn e-bost wythnosol yn eu hatgoffa i ddiweddarau'r system h.y. angen codio a/neu gymeradwyo gwariant. Mae biliau misol *Barclaycard* yn cael eu talu drwy ddebyd uniongyrchol felly dylai'r holl wariant gael eu prosesu yn *BSM* mor fuan â phosib. Fodd bynnag, ymddengys o'n sampl a wiriwyd nad yw pob swyddog yn codio a chymeradwyo yn brydlon.
- 5.5 Adroddwyd bod y rheolwyr cyfrifol gyda mynediad i'r system i greu adroddiadau monitro gwariant ar gyfer eu gwasanaeth eu hunain. Fodd bynnag, nid oes gofyn iddynt gynnal gwiriadau ar gyfer rheoli gwariant all olygu bod trafodion annilys ddim yn cael eu hadnabod.
- 5.6 Wrth archwilio'r sampl a ddetholwyd, gwelwyd fod swyddogion y Cyngor wedi delio ag un achos lle roedd trafodion amheus wedi ymddangos ar y cyfrif fel canlyniad i dwyll gan bartïon allanol oedd wedi defnyddio manylion un o'r cardiau prynu i dderbyn nwyddau. Roedd hyn yn gyfanswm o 33 o drafodion rhwng Awst 2020 a Medi 2020. Gwelwyd fod y rheolaethau wedi gweithio'n effeithiol gan fod y trafodion wedi cael eu tynnu i sylw'r gwasanaeth Cyllid, a bod y mater wedi ei ddatrys gyda'r arian wedi cael ei adennill gan ddarparwr y cerdyn. Mater i ddarparwr y cerdyn yw ymchwilio'r mater ymhellach.
- 5.7 Yn ogystal, nid oes trefniadau yn y broses i gadarnhau bod nwyddau wedi'u derbyn, h.y. nid oes cadarnhau i'r sawl sydd yn cymeradwyo'r taliad/codio bod y nwyddau/gwasanaeth wedi cael eu derbyn. Golyga hyn bod y proses yn agored i gamdriniaeth a/neu daliad am wasanaeth/nwyddau heb eu derbyn/darparu.
- 5.8 Gwelwyd hefyd bod modd ddefnyddio'r cerdyn i archebu tanysgrifiadau (*subscriptions*) ond nid oes canllawiau ar gyfer rheoli hyn.

6. Camau Gweithredu

Awgrymir i Benaethiaid atgoffa deiliaid cyllideb ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Adnabod bod y gwariant wedi cael eu derbyn wrth gweithredu ar y codio a chymeradwyo ar y system yn brydlon.**

- Cynnal gwiriadau rheolaeth ar gyfer sampl o wariant, yn benodol heb god gwariant a chymeradwyaeth yn eu herbyn.

Mae'r Uwch Dechnegydd Cyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Datblygu'r canllawiau cardiau credyd i gynnwys gwybodaeth ar gyfer rheoli tanysgrifiadau.
- Ychwanegu at y canllawiau proses wirio ar gyfer nwyddau/gwasanaeth wedi eu derbyn '*goods recieved*' i gyd-fynd â'r wybodaeth yn y canllawiau ar gyfer adrodd i *Barclaycard* am wariant ar y cerdyn am nwyddau/gwasanaeth heb eu derbyn.

CRONFEYDD YSGOLION**1. Cefndir**

1.1 Mae paragraff 16.22.1 o gyfansoddiad y Cyngor yn nodi:

Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cydfynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:

(a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.

(b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.

(c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.

(ch)Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwilwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr adolygiad oedd sicrhau bod trefniadau cyfrifyddu'r cronfeydd ysgol yn drylwyr ac yn unol â rheolau ariannol y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, holwyd holl benaethiaid ysgolion Gwynedd er mwyn cael darlun cyffredinol o'r sefyllfa, ac yn sgil yr ymatebion, bydd archwiliad pellach yn cael ei gynnal ym mlwyddyn ariannol 2022-23, lle bydd ysgolion yn cael eu dethol am archwiliad llawn.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Anfonwyd holiadur cronfeydd ysgol i holl benaethiaid ysgolion cynradd, dilynol, uwchradd ac arbennig Gwynedd. Derbyniwyd ymateb gan 89% o'r ysgolion a chadarnhawyd bod gan o leiaf 78% o ysgolion Gwynedd gronfa/cronfeydd ysgol:

Cronfa Ysgol	Nifer	Canran
Oes	74	78%
Na	11	12%
Heb dderbyn ymateb	10	10%

- 5.2 Yn bennaf, defnyddir y cronfeydd ar gyfer talu am ffrwythau, bws nofio, triapiau ysgol, gweithgareddau ar gyfer disgyblion, talu am offer ac adnoddau ychwanegol, rhoddion, gwerthu gwisg ysgol a.y.b. Mae rhai ysgolion hefyd yn defnyddio'r cronfeydd ar gyfer ad-dalu staff am bryniant adnoddau. Mae gan sawl un o'r ysgolion fwy nag un gronfa.
- 5.3 O'r 74 ysgol a fynegodd bod ganddynt gronfa neu gronfeydd ysgol, mae gan 52 (70%) ohonynt bolisi cyfredol neu ganllaw ar gyfer gweinyddu'r gronfa. 5 Pennaeth (7%) yn unig oedd wedi derbyn hyfforddiant, a nododd un Pennaeth, *"wedi derbyn hyfforddiant flynyddoedd yn ôl pan oedd y Sir yn trefnu cyfarfodydd clwstwr yn Nolgellau."*
- 5.4 Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â balansau cronfeydd 65 o'r ysgolion (nodir bod gan rai o'r ysgolion fwy nag un cronfa). Roedd balansau'r ysgolion unigol yn amrywio'n sylweddol gyda'r swm lleiaf yn £351.39 mewn ysgol gynradd a'r swm uchaf yn £185,520.01 mewn ysgol uwchradd.
- 5.5 Mynegodd 56 (76%) o'r ysgolion bod archwiliwr annibynnol yn archwilio eu cyfrifon a bod oddeutu 59% o'r cyfrifon yma wedi cael eu harchwilio yn 2021, 2022 neu yn y broses o gael eu harchwilio ar hyn o bryd. Nid oedd rhai o'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio ers peth amser gyda rhai yn nodi 2017, 2018 a 2019 ar gyfer yr archwiliad diwethaf, a nodwyd rhai bod Covid-19 wedi effeithio ar hyn. Nid oes gan 14 o'r ysgolion archwiliwr annibynnol yn archwilio eu cyfrifon.
- 5.6 Holwyd pryd cyflwynwyd y cyfrifon i'r corff llywodraethu i'w craffu a'u cymeradwyo ddiwethaf. Mae 34 o'r ysgolion wedi cyflwyno'r cyfrifon i'r corff llywodraethu i'w craffu unai yn ystod 2021, 2022 neu wedi mynegi bod bwriad i'w cyflwyno yn eu cyfarfod nesaf. Derbyniwyd sawl ymateb yn nodi nad oeddynt wedi gwneud ers cyn y pandemig, a 2 ysgol yn nodi nad oeddynt yn ymwybodol bod rhaid gwneud hyn.
- 5.7 Ymholwyd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol ynglŷn â threfniadau hyfforddi llywodraethwyr ar gronfeydd ysgol, a nodwyd nad oes hyfforddiant o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae hyfforddiant cyllidol cyffredinol yn rhywbeth sydd eisoes wedi cael ei amlygu fel pwnc mae'r llywodraethwyr yn awyddus i dderbyn hyfforddiant arno. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chronfeydd ysgolion mewn sesiynau o'r fath petai hyfforddiant yn cael ei gynllunio yn y dyfodol.

Yn y cyfamser tybir y buasai cyflwyniad o wybodaeth sylfaenol ynglŷn â'r cronfeydd a'u cyfrifoldebau yn briodol ar gyfer llywodraethwyr tra bod y cadeiryddion yn derbyn ychydig mwy o fanylder. Nododd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol y byddai modd ychwanegu hyn i'r sesiynau anwytho perthnasol a baratoir i'r llywodraethwyr a chadeiryddion.

- 5.8 Mae gofyniad yn y Rheoliadau Ariannol ble disgwylir i ysgolion anfon copi o'u cyfrifon archwiliedig i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ynghyd â chopi o gofnodion cyfarfod perthnasol y corff llywodraethu yn craffu a derbyn y cyfrifon, ond nifer fach iawn o ysgolion sy'n cydymffurfio â hyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y cyd â'r Adran Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Diweddarau'r canllawiau i lywodraethwyr a phenaethiaid ar reolaeth cronfeydd ysgol.**
- **Darparu hyfforddiant i benaethiaid gan gynnwys trefniadau rheoli, gweinyddu ac archwilio'r cronfeydd ysgol.**
- **Darparu hyfforddiant ar gronfeydd ysgol yn y sesiynau anwytho ar gyfer cadeiryddion a llywodraethwyr newydd.**
- **Paratoi gwybodaeth ar gyfer y llywodraethwyr a'r cadeiryddion sydd eisoes wedi eu penodi a sicrhau eu bod yn ei dderbyn er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r trefniadau a'u dyletswyddau.**
- **Archwilio sampl o gyfrifon cronfeydd ysgol yn flynyddol o 2022/23 ymlaen, gan roi sicrwydd bod y cyfrifon a'r trefniadau gweinyddu yn briodol, gan roi cyngor i'r penaeithiaid yn unol â'r gofyn.**

HYLENDID BWYD**1. Cefndir**

- 1.1 Fel sawl gwasanaeth arall o fewn y Cyngor, mae COVID-19 wedi ei gwneud yn anodd i'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd gwblhau gwaith yn y dull arferol. Mae'r pandemig wedi amharu ar allu'r gwasanaeth i gynnal ymweliadau ac archwiliadau. Mae canllawiau yr ASB (Asiantaeth Safonau Bwyd) yn amlinellu targedau dylai pob gwasanaeth hylendid bwyd eu cyrraedd i ddal fyny gyda'r archwiliadau sydd heb gael eu cwblhau ac ym mha drefn dylid cwblhau'r rhain.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer darparu gwasanaeth effeithiol i fusnesau a defnyddwyr Gwynedd yn unol â Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, a bod staff yr adran yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni eu dyletswyddau yn ystod y pandemig. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ar gyfer cynllunio, cynnal a gweinyddu ymweliadau hylendid bwyd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd gwefan y Cyngor a gwelwyd fod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar gyfer perchenogion busnesau bwyd Gwynedd, gan gynnwys ffurflenni cais a chynghor am redeg busnesau bwyd.

- 5.2 Mae'r gwasanaeth wedi dechrau defnyddio system 'Tascomi' yn hytrach na 'CIVICA' i reoli a storio data. Pan fudwyd y data o'r hen system i'r newydd, nodwyd bod elfennau o'r data megis manylion cyswllt y busnesau heb eu trosglwyddo yn gyflawn. O sampl o 10 busnes a detholwyd o'r system 'Tascomi', gwelwyd nad oedd manylion cyswllt wedi eu cofnodi ar gyfer un allan o deg o'r busnesau.
- 5.3 Mae cynllun adfer yr ASB (Asiantaeth Safonau Bwyd) yn nodi dylai bod busnesau newydd wedi cael eu blaenoriaethu yn gyntaf o 30/09/2021 ymlaen a dylai bod pob sefydliad gyda chategori risg A (uchel) ar gyfer hylendid bwyd dderbyn ymweliad cyn 31/03/2022. Gwelwyd ar system 'Tascomi' bod pob sefydliad gyda chategori risg A wedi derbyn ymweliad felly mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd y targed cyn y dyddiad a osodwyd gan yr ASB.
- 5.4 Detholwyd sampl o 10 busnes oedd wedi cofrestru yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. O'r sampl hwn, nid oedd ymweliad wedi ei gynnal ar gyfer 5 o'r busnesau. O'r 5 oedd wedi derbyn ymweliad, dim ond 1 oedd o fewn y targed o 28 diwrnod gyda'r hiraf yn cymryd 170 diwrnod. Mae disgwyliad bod rhywfaint o'r rhain heb eu cwblhau gan nad oedd y gwasanaeth yn weithredol yn ystod y cyfnod clo. Serch hyn, mae pryder a risg bod masnachwyr yn gweithredu am gyfnodau hir yng Ngwynedd heb sicrwydd o'u safonau bwyd.
- 5.5 Trafodwyd gyda'r Rheolwr a chytunodd bod yn bryder bod pobl yn medru gwerthu cynnyrch i lawer o bobl trwy'r sir drwy gyfryngau cymdeithasol heb gael eu harchwilio am safonau bwyd. Mae swyddogion lleol yn adnabod y rhain yn eu hardal ond nid oes manylion cyswllt ar rai o'r gwefannau ac nid oes modd i swyddogion gysylltu gyda'u cyfrifon personol a sicrhau diogelwch data'r unigolyn yn unol â chymal 17 Polisi Diogelu Data'r Cyngor. Arweiniai hyn at y datrysiad posib o gael cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i'r gwasanaeth a chysylltu'n uniongyrchol â'r masnachwyr trwy'r llwybrau hyn.
- 5.6 Gwiriwyd sampl o 5 ymyrraeth a gynhaliwyd yn 2021/22. Nid oedd modd adrodd ar safon 4 ohonynt gan nad oedd dogfennaeth addas wedi ei uwchlwytho i 'Tascomi' yn dilyn yr ymweliad. Gwelwyd bod dogfennaeth ddigonol ar gyfer 1/5 yn cefnogi'r archwiliad, h.y. wedi ei gwblhau yn briodol a bod gwybodaeth gefnogol ar gyfer yr hyn adroddwyd Mynegodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Diogelwch) bod diffyg gwybodaeth yn cael ei adrodd ar y system yn dilyn archwiliadau yn fater sydd angen sylw'r Gwasanaeth.
- 5.7 Cadarnhaodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Diogelwch) ei fod yn gyfrifoldeb arno i wirio sampl o geisiadau/ymweliadau (gwaith dydd i ddydd y Swyddogion Diogelwch Bwyd) yn fisol, er mwyn cadarnhau ansawdd y gwaith. Mynegodd bod y rhain yn cael eu cynnal ond nad oes cofnod ohonynt.

- 5.8 Detholwyd sampl o bum cwyn gan y cyhoedd er mwyn sicrhau bod cwynion yn derbyn ymateb prydlon a bod gwasanaeth priodol wedi'i ddarparu i'r cyhoedd gan y gwasanaeth. Ymddengys o'r archwiliad bod 3/5 wedi derbyn ymateb prydlon a digonol. Roedd 1/5 yn agored gyda gweithrediadau ar y gweill. Ymddengys bod 1 heb weithrediad wedi ei gofnodi yn ei erbyn ar y system 'Tascomi' ers 13/12/2021 yn awgrymu bod oedi yn y proses. Disgwylir i unrhyw achos sydd wedi cael ei weithredu/cau gael ei farcio fel 'closed' ar y system 'Tascomi'.
- 5.9 Gwiriwyd sampl o gofnod hyfforddiant tri aelod o staff. Gwelwyd o ddogfennaeth yn ffeiliau rheolaethol y gwasanaeth Bwyd a Diogelwch bod y tri wedi cwrdd â gofynion Hyfforddiant Proffesiynol Parhaus (CPD – Continuing Professional Development) perthnasol yn y maes hylendid bwyd. Fodd bynnag, gwelwyd bod diffyg mewn cwblhau hyfforddiant Diogelu Data (1 swyddog heb gwblhau'r e-fodiwl a 2 heb dderbyn y polisi Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth).

6. Camau Gweithredu

Mae Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Diogelwch) wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei gofnodi a'i arbed ar y system 'Tascomi' ar gyfer ymyraethau.**
- **Cynnal archwiliadau busnesau newydd yn fwy prydlon.**
- **Sefydlu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y gwasanaeth i alluogi'r gwasanaeth i gysylltu â busnesau sydd yn gweithredu ar-lein yn unig a heb gofrestru.**
- **Sicrhau bod pob achos/cwyn yn cael eu diweddarau'n brydlon neu yn derbyn sylw ar ôl amser penodol.**
- **Sicrhau bod cofnod o wiriadau sicrhau ansawdd gwaith a'u canlyniadau fel bod modd cyfeirio atynt pan fo angen e.e. gwella ansawdd hyfforddiant.**
- **Sicrhau bod staff y gwasanaeth wedi cwblhau a derbyn polisïau statudol Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth.**

ADFER TRYCHINEB TG**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cynllun Adfer Trychineb yn broses neu'n gyfres o weithdrefnau a ddogfennir i adfer ac amddiffyn seilwaith TG busnes pe bai trychineb yn digwydd. Mae cynllun o'r fath fel arfer wedi'i ddogfennu ar ffurf ysgrifenedig, yn pennu'r gweithdrefnau y bydd sefydliad yn eu dilyn os bydd trychineb.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i adfer systemau TG y Cyngor yn sgil trychineb. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod cynllun pwrpasol ac addas mewn lle, ymwybyddiaeth swyddogion perthnasol o'u cyfrifoldebau mewn trychineb a threfniadau gwirio systemau wrth gefn.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Yn dilyn archwiliad yn sgil colled systemau TG yng Ngorffennaf 2018, amlygwyd nad oedd cynllun adfer trychineb TG yn bodoli. Adferwyd holl systemau'r Cyngor yn llwyddiannus yn dilyn colled pŵer yn 2018 felly mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gallu adfer yn effeithiol mewn argyfwng o'r fath. Cadarnhawyd bod diffyg cynlluniau ffurfiol wedi'u sefydlu er mwyn adfer mewn trychineb yn effeithiol, effeithlon ac yn gyson, yn cynnwys y gallu i ymateb i'r cyhoedd ar gyfer digwyddiadau megis ymosodiadau seibr/colledion gwybodaeth.

Golygai bod y Cyngor yn parhau i fod yn agored i'r risg o fethu adfer o drychineb yn effeithiol ac yn amserol, all arwain at ohiriadau o ddarparu gwasanaethau allweddol i bobl Gwynedd a gall cael effaith dinistriol a/neu catastroffig ar fywydau a lles pobl Gwynedd.

- 5.2 Mae 'Gwytnwch Seibr' wedi cael ei adnabod fel un o risgiau a nodi ar y gofrestr risg gorfforaethol (gofrestr byw ar 23 Mawrth 2022) gyda'r cyfrifoldeb y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth i sicrhau lliniaru o'r risg. Nodir y dilynol fel cam weithredu yn ei erbyn: *'Fe wnaethpwyd gwaith sylweddol i wella'n amddiffynfeydd a'n gallu i adfer ein gwasanaethau pe byddai ymosodiad yn torri trwy'n rhengoedd. Mae angen ffurfioli trefniadau i brofi'r gweithdrefnau hyn.'* Ymddengys nad oes dyddiad targed wedi dynodi yn awgrymu ei fod yn risg parhaus.
- 5.3 Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth bod canllawiau adfer technegol ar gyfer systemau penodol yn bodoli yn ogystal â threfn blaenoriaethu adfer systemau. Derbyniwyd copi o'r drefn blaenoriaethu systemau TG a gwelwyd ei bod yn daenlen drylwyr yn manylu pa systemau yw'r pwysicaf i'w hadfer gyntaf fesul gwasanaeth a phwy sydd yn bwynt cyswllt ar gyfer pob system.
- 5.4 Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth bod gwaith i greu cynllun adfer trychineb TG wedi bod ar y gweill ers rhai blynnyddoedd. Disgwylir bydd y cynllun yn cynnwys trefniadau adfer o drychineb corfforol megis llifogydd neu dân yn ogystal â thrychineb ddaw o ymosodiad seibr megis 'ransomware'. Bydd trefniadau yn cynnwys diffinio cyfrifoldebau, manylion cyswllt, gwybodaeth am drefniadau wrthgefn yn cynnwys lleoliadau, strategaeth casglu tystiolaeth ar gyfer adnabod gwendidau/datrysiadau a threfniadau ymateb i ddigwyddiadau o drychineb. Dylai'r cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn addas.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sefydlu a chadw cynllun adfer trychineb cynhwysfawr er mwyn sicrhau adfer llwyddiannus ac amserol o wasanaethau'r Cyngor.**

RHEOLI PROSIECT – UWCHRADDIO SYSTEMAU E-FINANCIALS

1. Cefndir

- 1.2 Mae Llawlyfr Rheoli Prosiectau'r Cyngor 2016 wedi ei ddatblygu i reoli ystod eang o brosiectau yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r Llawlyfr yn egluro'r egwyddorion sylfaenol ac yn cynnig arweiniad ymarferol i alluogi swyddogion gymryd y camau priodol. Bydd lefel y defnyddir y gyfundrefn yn ddibynnol ar faint y prosiect sy'n golygu nad yw'n hanfodol defnyddio pob pennawd ar gyfer pob prosiect. Mae'r system 'e-financials' yn system gyllidol sy'n rhedeg y rhaglenni canlynol - dyledwyr, credydwyr, cyfriflyfr a 'business objects' a'i gomisiynu o gwmni Advance yn cynnwys elfen cefnogol. Mae'r system yn destun i brosiect uwchraddio yn 2021/22. Penodwyd yr Ymgynghorydd Systemau fel y Rheolwr Prosiect i arwain y prosiect yn 2021.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli prosiect uwchraddio system gyllidol *e-financials*. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu meddiannu trefniadau a dogfennau rheoli prosiect a chynnal gwaith profi ble'n bosib i wirio bod y prosiect yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon yn seiliedig ar Lawlyfr Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd 2016 sydd yn cyfeirio at egwyddorion rheoli prosiectau PRINCE2.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Derbyniwyd Datganiad Gwaith ('*Statement of Work*') y prosiect sydd yn amlinellu bwriad a chwmpas y prosiect a'r gwaith yn ymwneud â uwchraddio'r system cyfredol '*eFin solution*' ac y symud i ryddhau fersiwn 6 o'r meddalwedd gan ystyried yr effaith ar unrhyw "gynnyrch" cysylltiedig arall sydd yn rhan o ddatrysiad *e-Fin*.
- 4.2 Gwelwyd bod y gwaith wedi'i gomisiynu yn Rhagfyr 2021. Meddiannwyd y Datganiad Gwaith a chynllun gydag amserlen i'r camau gweithredu oedd yn dangos bod y prosiect wedi ei gynllunio i gychwyn Ionawr 2022 a'i gwblhau/drosglwyddo drosodd i'r Cyngor erbyn yr wythnos gyntaf yn Mawrth 2022.

Yn dilyn cyfarfodydd yn Ionawr a Mawrth 2022 gyda'r Ymgynghorydd Systemau fel y Rheolwr Prosiect ymddengys bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus yn ei ddosbarthiad ac wedi ei weithredu o fewn yr amserlen a gynlluniwyd. Adroddwyd bod y system wedi mynd yn fyw ar 25 Chwefror 2022 gyda materion bychan yn codi ar ôl y dyddiad byw sydd yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio ar ffurf log i gwmni 'Advance' i'w datrys.

- 4.3 Adroddwyd ar y 10 Mawrth 2022 bod y prosiect wedi cael ei gwblhau o flaen y dyddiad cynllunio ac o fewn y dyddiadau a gomisiynwyd. Eglurodd y Rheolwr Prosiect bod unrhyw faterion sydd yn codi ar ôl y dyddiad trosglwyddo bellach yn cael eu delio fel ran o'r gwasanaeth cefnogol a darparir gan 'Advance' sydd yn ran o'r pecyn mae'r Cyngor wedi'i gomisiynu.
- 4.4 Derbyniwyd tystiolaeth o'r elfennau canlynol o reoli prosiect sydd yn sylweddol i'r prosiect -
- Amserlen o'r prosiect gyda terfynau amser penodol
 - Log o broblemau yn cynnwys yr asesiadau risg yn eu herbyn
 - Rhestr wirio wrth brofi elfennau risg uchel yr system gyda perchenogion gyfrifol ar gyfer eu weithredu/cyfarthrebu.
 - Daenlen monitro cyllideb ynghyd â rhestr o daflenni amser
 - Rhestr o gyfarfodydd gyda'r cwmni Advance yn ymddangos bod cyfathrebu rheolaidd ar ddatblygiad a chynnydd y prosiect wedi digwydd.
 - log gwersi a ddysgwyd
 - tystiolaeth bod cwmni 'Advance' wedi gweithredu yn unol â'r Datganiad Gwaith a chytunwyd ar gychwyn y prosiect
 - adroddiad o'r mathau gwahanol o brofion cynhaliwyd ar gyfer profi fod data wedi mudo yn gywir
- 4.5 Mynegodd y Ymgynghorydd Systemau nad oedd angen ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr ar ddiwedd y prosiect gan nad oedd y newidiadau yn ddigon sylweddol i rwystro defnyddiwr rhag allu cynnal eu gwaith.

NEWID DATA SEFYDLOG - CYFLOGAU

1. Cefndir

- 1.1 Mae amrediad eang o ddata staff yn cael eu storio a'u darllen yn y system cyflogau. Mae angen newid y data yma o dro i dro. Gall hyn fod yn rhywbeth syml fel newid cyfeiriad neu gyfenw i newid mewn trefn cyflogi unigolyn megis honorariwm. Mae'n bwysig bod y data yma yn ddiogel a bod trefn effeithlon mewn lle i sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n gywir.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli newidiadau i ddata sefydlog cyflogau staff y Cyngor a sicrhau bod y data'n cael eu trin a'u storio'n ddiogel. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau a rheolaethau newid a mewnbynnu data sefydlog staff, gwirio trefniadau diogelu data'r gwasanaeth Cyflogau a gwirio sampl o newidiadau i ddata sefydlog er mwyn cadarnhau eu priodoldeb.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Mae'r gwasanaeth Cyflogau yn derbyn ceisiadau i newid data gan sawl ffynhonnell. Ar y cyfan mae ceisiadau yn dod ar ffurf TR139, TR139a neu TR140. Dyma'r ffurflenni statudol i lenwi manylion aelod o staff parthed cychwyn mewn swydd, newid manylion swydd/staff a therfynu swydd yn ôl eu trefn. Gwiriwyd effeithiolrwydd a hygyrchedd y ffurflenni hyn a gwelwyd eu bod yn cynnwys blychau ar gyfer yr holl fanylion perthnasol ac yn glir a hawdd i'w defnyddio. Mae'r system hunanwasanaeth yn galluogi staff i newid rhai manylion data penodol am eu hunain yn y system Cyflogau heb orfod gwneud cais. Caiff newidiadau i deitl, enw, enw dewisol, cyfenw a chyfeiriad eu gweithredu yn awtomatig yn y system Cyflogau wedi i aelod o staff newid eu manylion drwy'r system hunanwasanaeth.
- 4.2 Gwiriwyd sampl o 20 o geisiadau a wnaethpwyd i'r gwasanaeth Cyflogau trwy ffurflenni TR a chyfathrebiadau amgen. Roedd amrediad o geisiadau o wahanol gyflogresi wedi eu cynnwys yn y sampl.

Ym mhob achos a wiriwyd, roedd y newid wedi ei weithredu yn gywir yn y system Cyflogau yn seiliedig ar adroddiadau 'ISWAS' o'r system, sef adroddiad adnabod newidiadau data'r system. Cytunwyd y data ar y system i'r sampl o geisiadau a gwelwyd mai gwerth cyfartalog a gymerwyd i weithredu newidiadau ar y system, wedi i'r gwasanaeth dderbyn y cais oedd 5 diwrnod. Credir bod hyn yn amser derbyniol ac yn dangos bod y gwasanaeth yn gweithredu ar newidiadau yn amserol.

- 4.3 Gwiriwyd sampl o 10 aelod o staff newydd ers Ebrill 2021. Dewiswyd 5 aelod o staff a gychwynnodd ym mis Mai a 5 aelod a gychwynnodd ym mis Medi. Dewiswyd amrediad o staff o wahanol swyddi a chyflogresi i sicrhau bod y sampl yn adlewyrchiad o'r Cyngor cyfan. Gwelwyd o'r gwiriadau bod y manylion a fewnbynwyd yn y system gyflogau yn cytuno â'r hyn ar y ffurflen TR139 ar gyfer pob aelod o staff yn y sampl.
- 4.4 Mynegodd y Rheolwr Cyflogau bod tua 100 aelod o staff gyda mynediad i'r system gyflogau. Staff Cyllid ydy'r rhain ar y cyfan: Cyflogau, Pensiynau, Archwilio, Cyfrifyddu a TG. Mae hefyd rhai aelodau staff o Gefnogol ac unigolion sy'n gyfrifol am adrodd ar salwch adrannol gyda mynediad i'r system. Mae'n ofynnol i bob cyfrif newid eu cyfrinair pob 3 mis. Mae'r Rheolwr Cyflogau, fel y gweinyddwr system yn gwirio'r rhestr o staff sydd gyda mynediad ac yn dileu cyfrifon sydd heb ddefnyddio'r system ers 6 mis neu fwy.
- 4.5 Archwiliwyd i ble mae'r data o'r system Cyflogau yn cael ei gadw. Adroddwyd bod data system Cyflogau wedi ei gadw mewn 3 lleoliad. Mae 'log' yn cael ei gadw yn awtomatig o lwyddiant rhedeg y data wrthgefn, sydd hefyd yn digwydd yn awtomatig. Mae'r data wrthgefn a 'replication' yn cael ei redeg ar gyfer y system gyfan yn ddyddiol. Derbyniwyd tystiolaeth gan yr Arweinydd Technegol (Cymwysiadau) bod y system wedi cael ei hadfer o fersiwn wrthgefn yn y gorffennol. Gwelwyd bod y broses wedi bod yn llwyddiannus a bod cofnod clir o beth adferwyd a phryd.
- 4.6 Gwiriwyd hyfforddiant pob aelod o staff Cyflogau ar y Modiwl Datblygu Staff yn System Swyddi Gwynedd. Allan o 9 aelod o staff a wiriwyd, darganfuwyd bod 2 heb gwblhau e-ddysgu Diogelu Data a 4 heb gwblhau e-ddysgu Diogelu Gwybodaeth. Allan o 9 aelod o staff, darganfuwyd bod 2 heb dderbyn un neu fwy o'r polisiau Diogelu Data a Diogelu Gwybodaeth. Mae dros 3 mlynedd ers i bob aelod o staff dderbyn y polisiau hyn. Cymeradwywyd y fersiynau diwygiedig o'r polisiau hyn ym Mai 2021. Dylai staff sy'n gweithio gyda data personol weithredu'n unol â pholisiau a mynychu hyfforddiant diweddaraf y Cyngor. Yn ystod cyfnod ymgynghorol yr adroddiad hwn, derbyniwyd gopiâu o ebyst anfonwyd gan y Rheolwr Cyflogau yn gofyn i staff gwblhau'r hyfforddiant a pholisiau perthnasol.

TALIADAU BONWS I WEITHWYR GOFAL

1. Cefndir

- 1.1 Yn dilyn cyhoeddiad 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu taliad bonws i staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a staff gofal cymdeithasol i gydnabod eu cyfraniad eithriadol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r taliad yn daliad un tro cyfateb i £735 y pen, gyda didyniadau ar gyfer treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn. Ar ôl didyniadau bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn derbyn oddeutu £500. Daw'r bonws ar ben y taliad arbennig o £500 i weithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref a gyflwynwyd ym mis Mai 2020 i gydnabod eu gwaith yn ystod ton gyntaf y pandemig. Roedd y bonws hwn yn cael ei roi i grŵp ehangach o weithwyr gofal cymdeithasol, mynegir yn y canllawiau "Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol" bod y swyddi cymwys Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys: *"Holl staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan gynnwys; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, penaeithiad gwasanaeth a'r holl staff o dan y rheolwyr hyn gan gynnwys staff cymorth, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwyyr gwaith cymdeithasol."*

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau bonws i weithwyr Gofal. Er mwyn cyflawni hyn, adolygwyd y trefniadau ar gyfer adnabod, cyfathrebu a dilysu taliadau, gwirio sampl o daliadau a wnaed i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gywir ac amserol, yn ogystal ag adolygu trefniadau ar gyfer y broses apêl, adrodd at Lywodraeth Cymru ac ad-hawlio taliadau.

Bydd rhan 2 o'r archwiliad yn cael ei gynnal ar ôl Mawrth 2022 i sicrhau bod y cais wedi cael ei dderbyn a'i dalu gan LC, yn ogystal a bod taliadau dyblyg sydd yn cael eu hadnabod yn cael eu gweithredu/hadennill fel bod y cais diwygiedig a gyflwynir i i LC yn gyflawn ac yn gywir.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd bod cyfarwyddiadau gweinyddu ar gyfer y Cynllun Cydnabod Cymdeithas Gofal wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru (LC). Nodwyd yn y cyfarwyddiadau ddyddiadau pwysig ar gyfer gweinyddu a chyflwyno gwybodaeth/cais am ad-daliad. Dylai bod cynghorau lleol yn cyflwyno cais am ad-hawlio'r grant i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021. Mae'r canllaw yn gofyn i'r holl wybodaeth gael ei gyflwyno i Data Cymru yn ganol mis Ionawr 2022 ar gyfer cynnal gwiriadau taliadau dyblyg terfynol.
- 5.2 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu ceisiadau am daliadau i weithwyr gofal. Adroddwyd priodoldeb ar gyfer cyfarwyddiadau dosbarthu i holl weithwyr/rheolwyr, darparwyr allanol ac unigolion cymwysedig i allu dilysu cymhwysedd gan y Cyngor. Gwelwyd bod y meini prawf yn berthnasol i lawer o swyddogion oedd yn deilwng i'r gydnabyddiaeth ariannol o £500 a wnaethpwyd ar gyfer 2020/21, felly roedd trefniadau eisoes wedi adnabod llawer o unigolion oedd yn deilwng i'r taliad.
- 5.3 Gwelwyd bod ceisiadau wedi cael eu derbyn gan ddarparwyr allanol yn y blwch e-bost gofal a bod rhain wedi cael eu gweithredu'n gywir ac amserol ar gyfer sampl o ddarparwyr allanol a wiriwyd.
- 5.4 O'r sampl a wiriwyd gwelwyd bod taliadau wedi cael eu gweithredu ar sail derbyn cadarnhad gan y rheolwr llinell bod eu swyddog/ion yn deilwng i'r taliad drwy cofnodi a chyflwyno taenlen i'r swyddog cefnogol i'w weithredu. Yn ogystal, gwiriwyd bod ffurflen gais gefnogol wedi cael ei chwblhau gan y swyddog/ion yma drwy holi y rheolwyr llinell am copi o'r ffurflenni. Derbyniwyd 9/12 o'r ffurflenni hyn gyda 3 o reolwyr heb ymateb i'r cais.
- 5.5 Gwelwyd mai ond un apêl a dderbyniwyd yn ystod y gweithrediad taliadau bonws ac ymddengys bod y cais wedi cael ei drin yn briodol, yr ymgeisydd wedi derbyn ymateb a hynny o fewn amserlen briodol.
- 5.6 Wrth dilyn sampl o daliadau bonws gwelwyd bod y taliadau yn drethadwy ac wedi cael eu trin yn gywir yn y system gyflogau.
- 5.7 Eglurodd y Rheolwr Prosiect (Swyddog Arbenigwr Categori a Datblygu) bod gwiriadau am daliadau dyblyg wedi cael eu cynnal wrth weithredu ar geisiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor. O ran adnabod dyblygiadau gyda chynghorau eraill a'r Bwrdd Iechyd, adroddwyd bod y data wedi cael ei lwytho i system "Emyr" gan Llywodraeth Cymru, ac adnabuwyd cryn dipyn o ddyblygiadau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rai Iechyd.

Mae'r gwasanaeth yn disgwyl am gyfarwyddiadau pellach gan LC ar sut i ymdrin a rhain ond bod cyfle i gyflwyno cais am ad-daliad addasedig i LC erbyn 16 Mawrth 2022 yn dilyn gwiriadau pellach.

- 5.8 Gwelwyd bod y taliadau wedi cael eu cysoni yn ôl i'r cyfriflyfr ac ymddengys yn eu bod yn gywir. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y cais am ad-daliad wedi cael ei gyflwyno i LC ar y 28 Ionawr 2022 ac wedi cael ei dderbyn. Gwelwyd bod y cais am ad-daliad i LC yn gyflawn h.y. yn cynnwys yr holl gyfansymiau/costau sydd wedi cael eu talu allan i'r ymgeisydd.
- 5.9 Adroddodd y Rheolwr Prosiect bod taliadau dyblyg wedi cael eu hadnabod ac wedi cael eu cynnwys yn y cais am ad-daliad Ionawr 2022. Fodd bynnag, bydd y taliadau dyblyg yn cael eu cywiro ar gyfer cyflwyno ffigyrau terfynol i LC erbyn 16 Mawrth 2022, ynghyd ag unrhyw addasiadau sydd eu hangen h.y. taliadau neu ad-enillion.

6. Camau Gweithredu

Mae Swyddog Arbenigwr Categori a Datblygu wedi adrodd ei bod am ddisgwyl am gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer adennill taliadau dyblyg sydd wedi eu hadnabod, yn ogystal â gweithredu ar y cais terfynol gyda ffigyrau cywir i'w gyflwyno erbyn 16 Mawrth 2022.

STORIEL

1. Cefndir

- 1.1 Yn ôl gwefan Storiell, *“Nod Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd yw casglu eitemau, gofalu amdanynt, eu gwarchod, eu harddangos a’u dehongli ar sail hanes a chymeriad unigryw Gwynedd a sicrhau bod y casgliadau hyn yn ysbrydoli ac yn addysgu a’u bod ar gael i bawb eu mwynhau mewn ffordd ddiduedd a chynhwysol.”* Agorwyd Storiell yn Ionawr 2016 fel amgueddfa sy’n dwyn ynghyd gasgliadau hanes cymdeithasol o bob rhan o’r gogledd, gyda phwyslais arbennig ar Wunedd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn lliniaru’r risg amlygwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol o *“ansawdd cynnig Storiell yn dirywio gan nad ydi’n cynhyrchu incwm digonol i gynnal gweithgareddau”*. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu’r camau gweithredu sydd mewn lle, gyda’r bwriad o alluogi Storiell i barhau i weithredu a chynnal gweithgareddau o ansawdd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru’r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau’r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Derbyniodd Cyngor Gwynedd gefnogaeth gan Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru (*Wales Cultural Recovery Fund*) tuag at ddatblygu cynllun gwaith a fyddai’n cryfhau gwytnwch Storiell ac Amgueddfa Lloyd George. O fewn y cynlluniau gwaith hyn ‘roedd gofyniad i ddatblygu achos busnes a oedd yn adolygu gweithrediadau ar y ddau safle i wella cynhyrchu incwm a chynaliadwyedd, ac i ailasesu cyfraniadau ariannol blynyddol yr Awdurdod Lleol. Cynhaliwyd yr adolygiad yma gan ymgynghorwyr allanol.

- 5.2 Mae adroddiad o'r gwaith wedi ei lunio ond mae'r gwaith cyllidol yn parhau ar waith yn sgil trafodaethau pellach. Unwaith bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau, bwriedir cyflwyno'r adolygiad i Fwrdd Storiol i'w drafod a'i gymeradwyo cyn symud ymlaen a gweithredu. Mae'r adolygiad yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer Storiol, manylion strwythur, cyllideb, incwm, cynyddu gwelededd, hyrwyddo llif ymwelwyr a.y.b.
- 5.3 Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio yn sgil yr adolygiad gyda'r gweithrediadau wedi eu grwpio i gategorïau e.e. marchnata, cyllid, addysg, amgylcheddol a.y.b. O ran marchnata mae sylw penodol tuag at godi ymwybyddiaeth a gwelededd Storiol er mwyn cynyddu'r nifer o ymweliadau boed yn rai newydd neu'n ailadroddus. O ran cyllid, mae'r gweithrediad yn nodi'r angen i greu rhestr o arianwyr posibl ar gyfer Storiol i gefnogi nodau tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Mae nifer o gyfeiriadau tuag at gyllido yn yr adroddiad gan gynnwys cyllid grant a sefydlu Ymddiriedolaeth i gefnogi gyda'r codi arian.
- 5.4 Nid yw Ymddiriedolaeth Storiol wedi ei sefydlu hyd yma. Er ymdrechion y gwasanaeth mae sawl ffactor wedi eu dal yn ôl e.e. gofynion y Comisiwn Elusennau a'r banc yn ogystal â Covid-19. Serch hyn, bwriedir ail ddechrau gyda'r broses o'i sefydlu yn ogystal â phenodi ymddiriedolwyr. Unwaith y bydd y cynllun busnes yn derfynol ac wedi derbyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Storiol, y bwriad yw ei gyflwyno i'r ymddiriedolwyr er mwyn rhoi gweledigaeth a syniad o'r symiau arian sydd eu hangen ar gyfer cynnal Storiol.
- 5.5 Bydd derbyn cymeradwyaeth adroddiad a chynllun gweithredu'r ymgynghorwyr allanol yn golygu y byddai modd symud ymlaen gyda chynlluniau, gweithio tuag at wella cynhyrchu incwm a chynaliadwyedd Storiol a pharhau i weithredu a chynnal gweithgareddau o ansawdd.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cwblhau a chymeradwyo'r adolygiad gan yr ymgynghorwyr fel bod modd symud ymlaen gyda chynlluniau e.e. sefydlu Ymddiriedolaeth Storiol, adnabod ffynonellau cyllido a.y.b.**

CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2020-21, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2020-21, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfrifylfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i roi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r bwlch ariannol blynyddol o £27,000 yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth y DU am 3 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Yng nghyfarfod o'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2019, penderfynwyd yn ei rôl fel Awdurdod Lleol i gyfrannu £27,000 ar gyfer 2020-21 o Gronfa Drawsffurfio'r Cyngor er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Ymddiriedolwyr, sef y Cabinet mewn rôl ar wahân, ystyried modelau gorau ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, cafodd COVID-19 effaith sylweddol na ragwelwyd ar yr amgueddfa, ac ar y 12/01/21 gofynnwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr amgueddfa am 2021-22 er mwyn prynu rhagor o amser. Trafodwyd sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth yr elusen yn nghyfarfod y Cabinet – yn eistedd fel Ymddiriedolwyr yr elusen – ar 14/09/21.
- 4.2 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

TREFNIADAU LLYWODRAETHU

1. Cefndir

- 1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Mae eu hamcanion allweddol yn cynnwys gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth, a'i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a chael gyrfaoedd gwerth chweil. Mae Llywodraeth Cymru a'r DU wedi ymrwymo £240m i'r Cynllun Twf, gyda'r bwriad o wireddu buddsoddiad pellach drwy arian cyfatebol gan fuddsoddwyr allanol. Caiff achosion busnes prosiectau y Cynllun Twf eu cyflwyno i'r Bwrdd i graffu cyn rhyddhau cyllid cyhoeddus iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau llywodraethu prosiectau y Bwrdd yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau *due diligence* y Bwrdd o graffu achosion busnes ac unrhyw fuddiolwyr arfaethedig, gan sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau, a hynny mewn ymateb i bryderon Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru am wendidau sydd eisoes wedi dod i'r amlwg mewn prosiect anghysylltiedig yn y de.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Derbyniwyd llythyr gan Weinidog Llywodraeth y DU dros Gymru, dyddiedig 08/02/21, yn gofyn am sicrwydd bod BUEGC gyda trefniadau priodol mewn lle i atal diffygion â ddaeth i'r amlwg ym mhrosiect 'Cylchffordd Cymru', sef prosiect i adeiladu cylchffordd rasio ceir a beiciau modur yn y de. Cafodd y prosiect gyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn annog a chefnogi buddsoddiad preifat yn unol â'i hamcanion adfywio a datblygu economaidd. Yn benodol, roedd y Gweinidog eisiau sicrwydd bod y Bwrdd yn "*undertake robust due diligence in all cases*" a "*to ensure that robust processes are in place to manage any potential conflicts of interest, or appearance thereof, and that clear lines of accountability for the application of those processes exist*", yn ogystal â bod "*proactive process in place to identify any transactions involving funds being conducted through related companies*". Yn wreiddiol, cynlluniwyd yr archwiliad mewnol yma yn 2020/21 fel ymateb i'r llythyr, ond credwyd ei fod yn gynamserol.

- 4.2 Yn dilyn ymateb BUEGC yn amlinellu eu trefniadau, derbyniwyd llythyr pellach gan y Gweinidog yn diolch am *“rhoi syniad clir i mi o ba mor ddifrifol rydych chi’n cymryd y mater hwn. Mae’n galonogol gweld bod gennych broses ragweithiol i ganfod ac i reoli’r sefyllfaoedd hyn os byddant yn codi a lle mae’r atebolrwydd dros reoli’r materion hyn. Mae’n dda gweld bod y gweithdrefnau rydych wedi’u rhoi ar waith eisoes wedi bod yn effeithiol o ran tynnu sylw at wrthdaro rhwng buddiannau.”*
- 4.3 Cyhoeddwyd adroddiad gan Archwilio Cymru, dyddiedig Mai 2021 ‘Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru’ oedd o’r farn *“Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig.”* Rhoddwyd cynigion i wella a cyhoeddodd BUEGC y camau sydd mewn lle i weithredu arnynt. Yn ogystal, fel rhan o’r archwiliad mewnol yma, holwyd am berthnasedd argymhellion Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru yn sgil gwendidau prosiect Cylchffordd Cymru, oedd hefyd yn cwmpasu defnyddio cyllid cyhoeddus i annog a chefnogi buddsoddiad preifat mewn prosiectau, ond ni dderbyniwyd sylwadau.
- 4.4 Caiff achosion busnes pob prosiect Cynllun Twf ei ddatblygu yn unol â chanllaw ‘Gwell Achosion Busnes’ a’r model Pum Achos a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM yn ogystal â chanllaw Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae’r achosion busnes yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, yn amserol ar bob pwynt penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth Swyddfa'r Cabinet. Caiff trefniadau caffael y noddwyr eu craffu fel rhan o’r broses yma.
- 4.5 Mae gan BUEGC bolisi gwrthdaro buddiannau sy'n pennu'r canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion o wrthdaro buddiannau, eu monitro a'u rheoli, p'un a ydynt yn rhai go iawn neu'n rhai a all ddigwydd. Yn unol â’r polisi, mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn ddatgan eu buddiannau drwy gofrestr pro forma, a gwelwyd tystiolaeth o hyn. Caiff disgrifiad, ynghyd â manylion unrhyw gysylltiadau sydd ynghlwm â'r buddiant a pha raglen neu brosiect y mae'n ymwneud â hwy, ei gofnodi, a chaiff y pro forma ei lofnodi a'i gadw ar gofnodion y swyddfa portffolio. Roedd aelodau etholedig ac ymgynghorwyr i'r Bwrdd eisoes yn ddarostyngedig i'r trefniadau mewn perthynas â buddiannau personol drwy eu cod ymddygiad neu'r trefniadau cyfwerth yn *Governance Agreement (GA) 1 a 2*.
- 4.6 Gwelwyd fod cytundeb ariannu rhwng BUEGC a phrif noddwyr y prosiect yn cwmpasu gwrthdaro buddiannau yn ogystal â’r angen i gaffael mewn ffordd tryloyw, cystadleuol a chynaliadwy.

DYLEDION**1. Cefndir**

- 1.1 Y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol sy'n gyfrifol am Gofal Iechyd Parhaus (GIP) ac mae fframwaith cenedlaethol ar ei gyfer. Yn unol â'r fframwaith mae'r pecynnau GIP yn aml yn cael eu cynllunio a'u teilwra ar y cyd rhwng aelodau staff y Bwrdd Iechyd Lleol a staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Y bwriad yw bod un awdurdod yn cymryd rôl arweiniol, ac yn gyfrifol am y gofal ac yn anfonebu'r sefydliad arall am gyfraniad, sydd yn ganran wedi ei gytuno wrth lunio'r pecyn gofal. Mae anghydfodau wedi codi ar sawl achlysur yn enwedig os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cytuno fod yr unigolyn yn gymwys am GIP. Yn hanesyddol mae nifer o broblemau ac anghytuno wedi bod ar draws awdurdodau'r gogledd o ran yr elfen anfonebu, gydag anfonebau yn cael eu herio gan y Bwrdd Iechyd a diffyg tystiolaeth er mwyn cadarnhau lefel y cyfraniad. Mae hyn wedi arwain at nifer o ddyledion agored yng Ngwynedd, yn ogystal â dyledion drwg sydd wedi cael eu hysgrifennu i ffwrdd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau a rheolaethau priodol mewn lle er mwyn cyflwyno anfonebau am gyfraniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac i sicrhau bod taliadau yn cael eu derbyn. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau presennol o fewn y gwasanaethau perthnasol gan gynnwys sut mae manylion y dyledion yn cael eu crynhoi a'u cofnodi, a'r trefniadau i adennill yr incwm a delio gyda diffyg gweithrediad neu heriau gan y Bwrdd Iechyd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ar amser yr archwiliad roedd dyledion agored gan y Bwrdd Iechyd yn dyddio'n ôl i 2013. Ar 23 Tachwedd 2021, roedd gwerth y dyledion agored codwyd hyd at ddiwedd Mawrth 2021 yn £855k. O ganlyniad, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Cyfrifydd Grŵp wedi bod mewn sawl trafodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn hwyluso'r prosesau a thynhau trefniadau. Mae disgwyl bydd y trefniadau newydd sydd ar y gweill yn lliniaru'r risg o ddyledion ddim yn cael eu talu. Adroddodd yr Uwch Cyfrifydd Gofal mae'r gwasanaeth yn rhagweld erbyn cau blwyddyn 2021/22 bydd y ddyled yn ei gyfanrwydd oddeutu £300k.
- 5.2 Mae pecynnau gofal sydd yn destun GIP yn cael eu cynllunio ar draws nifer o wasanaethau gwahanol o fewn yr adran yn ogystal ag o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Yn hanesyddol nid oedd trefn na chanllawiau penodol yn bodoli i gynorthwyo staff wrth geisio trefnu pecynnau gofal ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Mae unigolion nad ydynt yn gymwys am y pecyn GIP wedi arwain at broblemau sylweddol o ran cytundeb dros ganrannau cyllido. Mae hyn wedi arwain at anghysondebau yn y broses gan arwain at herio a dadlau cynnwys a symiau rhai o'r anfonebau gan y Bwrdd Iechyd a gorfu i staff Gwynedd gyfathrebu gydag amryw o aelodau staff y Bwrdd Iechyd. Yn naturiol mae dyletswydd ar Wynedd i ddarparu gofal angenrheidiol i unigolion a thalu'r cyflenwyr gofal, cyn ad-hawlio cyfraniad gan sefydliadau eraill. Fodd bynnag mae sawl anghydfod wedi codi yn ddiweddarach lle nad yw'r Bwrdd Iechyd yn fodlon gyda'r lefel cyfraniad neu yn dadlau os yw'r unigolyn yn deilwng i GIP o gwbl. Golygai hyn bod amser staff yn cael eu dreulio i geisio negodi ar gynlluniau gofal sydd eisoes wedi eu cytuno gan weithwyr cymdeithasol ac yn weithredol.
- 5.3 Er bod staff Iechyd a Gwynedd yn cydweithio ac yn dilyn yr un fframwaith, nid yw'r hyfforddiant ar y fframwaith wedi bod ar y cyd. Mae hyn wedi golygu bod cyflenwyr gwahanol yn darparu'r hyfforddiant gan arwain at wahaniaethau bach yn y dulliau sy'n cael eu gweithredu. Gall hyn achosi oedi wrth asesu, ac anghydweld ar rai elfennau. Mae disgwyl bydd fframwaith ddiwygiedig yn dod i rym ym mis Ebrill 2022. Ar hyn o bryd nid yw'n sicr pa effaith caiff hyn ar y broses cynnal asesiadau yn y dyfodol.
- 5.4 Yn hanesyddol mae trafferthion ac anghydfodau wedi dod i'r amlwg wrth i banel asesu y Bwrdd Iechyd gwrdd i drafod pecynnau ac asesiadau gan ddod i gasgliad gwahanol mewn rhai achosion o ran y lefel gofal sydd ei angen ar unigolion ac felly swm y cyfraniad maent yn fodlon arno. Nid oes unrhyw gynrychiolaeth gan yr awdurdodau lleol yn y panel ac mae'r pecynnau gofal eisoes yn weithredol cyn derbyn manylion o benderfyniad y panel. Ar adegau mae enghreifftiau lle bu i'r panel gytuno ar swm nad oedd yn cyfateb i'r swm gan Gwynedd. Nid yw hyn yn dod i'r amlwg nes gwelir bod anfonebau wedi eu talu'n rhannol.

- 5.5 Mae'r broses bellach yn gofyn am fanylion y pecynnau gofal gael eu bwydo i mewn i system y gwasanaethau cymdeithasol, WCCIS, er mwyn galluogi i 'Service Placement' ('SP') gael ei greu. Defnyddir y manylion yma i baratoi anfonebau i'r Bwrdd Iechyd am gyfraniad penodol pan mae Gwynedd yn ymgymryd â rôl comisiynu arweiniol. Mae angen sicrhau fod tystiolaeth yn cael ei gyflwyno sy'n cadarnhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn cydweld a chytuno ar lefel eu cyfraniad er mwyn cwblhau'r 'SP'. Mae hyn wedi bod yn wendid hanesyddol gyda 'SP' yn cael eu creu yn dilyn trafodaethau ar lafar ond dim tystiolaeth i gadarnhau lefel y cytundeb. Mae hyn wedi golygu oedi neu fethiant i dderbyn taliadau ar lefel y cyfraniad gwreiddiol. Gall methiant i gofnodi hefyd arwain at becynnau gofal ar y cyd yn cael eu gweithredu, ond dim anfoneb yn cael ei godi ar y Bwrdd Iechyd. Roedd anghysondebau hanesyddol yn deillio o'r ffaith bod Gwynedd wedi ei rannu'n dair ardal. Rhagwelir bod y strwythur presennol gyda'r broses mewnbynnu gwybodaeth a thystiolaeth wedi ei ymgorffori i mewn i WCCIS yn debygol o liniaru rhai o'r risgiau. Fodd bynnag byddai'n fanteisiol i'r gwasanaethau gadw cofrestr o lefel y cyfraniadau ar wahân er mwyn galluogi i'r sawl sydd yn gyfrifol am godi'r anfonebau i gysoni gyda'r ffigyrau hyn.
- 5.6 I hwyluso a thacluso'r broses anfonebu ymhellach, mae'r Cyfrifydd Grŵp yn ehangu ar broses lle roedd yn treialu anfon adroddiad i'r Bwrdd Iechyd yn amlinellu beth fydd cynnwys anfoneb er mwyn sicrhau bod cynnwys yr adroddiad wedi ei gytuno cyn anfonebu. Y bwriad yw lleihau'r achosion lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gwrthod talu anfoneb yn ei gyfanrwydd neu yn talu'r anfoneb yn rhannol sydd yn achosi blerwch o ran gweinyddiaeth a statws yr anfonebau a'r dyledion.
- 5.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, mabwysiadwyd trefn tri cam er mwyn delio ag unrhyw anghydfod. Mae Gweithwyr Cymdeithasol a nyrsys/swyddogion y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r cam cyntaf, ac os nad oes cytundeb, mae'r achos yn cael ei uchafu i'r ail gam gydag Uwch Reolwyr Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd. Os nad ydynt yn llwyddo i gytuno mae trydydd cam lle mae'r Pennaeth Adran yn ceisio negodi gyda swyddog cyffelyb yn y Bwrdd Iechyd. Bu cyfarfodydd cychwynnol yn effeithiol a llwyddwyd i ddod i gyfaddawd ar ddyledion hyd at £200k. Mae'r drefn sydd wedi ei amlinellu yn ymddangos yn effeithiol a rhesymol ond mewn gwirionedd yn parhau yn ddibynnol ar staff Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn cytuno ar gyfansymiau anfonebau a'r dyledion. Yn naturiol mae rhai elfennau yn parhau tu hwnt i reolaeth staff Gwynedd.
- 5.8 Mae'r trefniadau newydd o ran trefnu pecynnau ac anfonebu wedi eu sefydlu er mwyn lliniaru'r risg o anfonebau yn cael eu herio, eu talu'n rhannol neu droi'n ddyledion tymor hir. Mae trafodaethau eraill yn gydamserol â hyn er mwyn ceisio cyfaddawdu gyda'r Bwrdd Iechyd ar y dyledion hir dymor hanesyddol. Y bwriad yw ceisio lleihau neu osgoi dyledion o'r fath yn y dyfodol yn ogystal â lleihau neu ddileu'r dyledion hanesyddol. Mae sgôr risg yr adroddiad yn adlewyrchu'r prosesau newydd yma yn hytrach na'r sefyllfa sydd wedi deillio o wendidau hanesyddol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Adran wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Ystyried ychwanegu proses o gadw cofrestr o fewn y gwasanaethau yn nodi canran/symiau cyfraniad pob pecyn gofal er mwyn hwyluso'r broses o greu SP a codi anfonebau a chysoni.**
- Sicrhau bod tystiolaeth ar gyfer unrhyw gytundeb gyda staff y Bwrdd Iechyd wedi ei gofnodi a'i gyfathrebu i'r swyddogion cyllid perthnasol gan staff yr Adran er mwyn cefnogi a rhoi sail i unrhyw becyn gofal/anfoneb.**
- Efelychu'r broses o ddefnyddio adroddiad cyn anfonebu ar draws holl wasanaethau'r Adran a chyfathrebu'r drefn yma gyda'r Adran Plant a Theuluoedd.**
- Parhau i fonitro trefniadau newydd o ran delio gydag anghydfod gyda'r Bwrdd Iechyd a'u hadolygu os bydd angen.**

DIOGELU ASEDAU CLEIENTIAID**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan apwyntai hawl gyfreithiol i weithredu ar ran unigolion sydd ddim â'r gallu i reoli materion eu hunain. Bydd apwyntai'n trefnu i dderbyn holl fudd-daliadau mae'r unigolyn yn gymwys iddynt, a thalu eu biliau gan ddefnyddio'r arian. Gall y Cyngor fod yn apwyntai i unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol ble nad oes neb arall sy'n addas, barod ac yn gallu gweithredu fel apwyntai ar eu rhan. Mae'r rôl o fod yn ddirprwy (*Deputy for Property and Affairs*) yn rhoi hawliau pellach er mwyn cael mynediad at gyfrifon banc, pensiynau preifat/gwaith, cychwyn a terfynu tenantiaeth, gwerthu eiddo, gweinyddu stad ayb.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i ddiogelu asedau defnyddwyr gwasanaeth gofal ble mae Cyngor Gwynedd wedi'i penodi fel dirprwy neu apwyntai ar eu cyfer. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ac archwilio sampl o achosion er mwyn sicrhau bod yr Uned Rheoli Asedau Cleientau yn gwireddu lles orau defnyddiwr gwasanaeth. Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio system a phrosesau newydd yr Uned o weinyddu asedau y cleientiaid.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	
UCHEL	
CANOLIG	1
ISEL	

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (*Office of the Public Guardian*) yn cynnal ymweliadau sicrwydd fel modd o oruchwylio a chefnogi dirprwyon. Mae ymweliadau sicrwydd yn cwmpasu adolygu cofnodion sampl o gleientiaid, gan sicrhau bod y Cyngor, fel eu dirprwy, yn rheoli a gweinyddu asedau eu cleientiaid yn briodol.

Derbyniwyd llythyr cadarnhaol gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, dyddiedig 15/02/2018, yn crynhoi darganfyddiadau eu ymweliad sicrwydd diweddaraf. Mynegodd yr OPG *"It was noted that the deputyship officers demonstrated a strong level of competence and effectiveness... A good service is being provided and is meeting client needs well in a manner fully compliant with the Mental Capacity Act."* Rhwng yr ymweliadau sicrwydd yma, mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnal gwiriadau ar hap ar gleientiaid yn ogystal, a gwelwyd eu bod yn fodlon gyda'r trefniadau.

- 5.2 Yn sgil y trefniadau sicrhau ansawdd sydd eisoes mewn lle gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a'u bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a roddir, roedd yr archwiliad hefyd yn cwmparu gwirio system a phrosesau newydd yr Uned Rheoli Asedau Cleientau o weinyddu asedau y cleientiaid.
- 5.3 Mae'r systemau a'r drefn newydd o weithio, a ddaeth i rym yn 2019, yn cymryd lle trefn biwrocrataidd ble roedd rhaid agor a gweinyddu cyfrif banc ar gyfer pob un o'r dros 200 o gleientiaid. Gan nad oedd modd bancio ar lein, oherwydd bod dros gant o gyfrifon, roedd angen ymweld â'r gangen leol gyda gwaith papur a phrawf o hunaniaeth i'w weinyddu, megis bob tro roedd angen creu taliadau drwy archeb sefydlog. Yn ogystal, roedd angen casglu arian parod o'r banc er mwyn ei gadw mewn diogell i'w rannu gyda cleientiaid. Ni fuasai'r drefn yma wedi bod yn ymarferol yn ystod cyfnod pellhau cymdeithasol pandemig COVID19.
- 5.4 Erbyn hyn, mae system newydd yr Uned, BMAP (Barclays Multi Account Platform) yn dal holl arian cleientiaid yr Uned mewn un cyfrif banc, gyda cyfrif rhithiol wedi sefydlu ar gyfer pob cleient sydd wedi trosglwyddo o HSBC. Caiff pob trafodiad ariannol ei ddal yn yr un cyfrif yma cyn i'r Uned greu rheol yn y system sy'n ei adnabod a'i drosglwyddo (ynghyd â throsglwyddiadau y dyfodol) i'r cyfrif rhithiol cywir. Caiff y cyfrifon eu cysoni yn rheolaidd gyda basdata Casper, sef cofnod o holl incwm a gwariant rheolaidd y cleient.
- 5.5 Mae'r Uned hefyd wedi mabwysiadu'r defnydd o gardiau rhagdal. Mae defnyddio cardiau o'r fath yn dileu y risgiau sydd ynghlwm â'r defnydd o arian parod. Gall cleientiaid hefyd ddefnyddio y cerdyn dros y we, ac mae trywydd yn bodoli ar gyfer pob gwariant. Mae'r rheolaethau ynghlwm â'r cerdyn yn cynnwys peidio gallu mynd i ddyled arno, ac atal defnydd o wariant cynhennus, megis defnyddio y cerdyn ar gyfer gamblo.
- 5.6 Mae gan yr Uned yr hawl i godi ffi gweinyddol ar eu cleientiaid yn flynyddol, sydd wedi ei bennu gan y Llys Gwarchod. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai anfonebau hanesyddol yn parhau yn ddyledus i'r Uned. Cytunodd yr Uned i ymchwilio i'r anfonebau yma.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Swyddog Rheoli Cyllid ac Asedau Cleientau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Ymchwilio i anfonebau sy'n parhau'n ddyledus i'r Uned.**

Eitem 13

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2021/2022
PWRPAS YR ADRODDIAD	MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."

2.2 Pwrrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2021/2022 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

3. EFFAITH COVID-19

- 3.1 Drwy gydol 2021-22, fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor, 'roedd swyddogion Archwilio Mewnol yn gweithio o gartref. Nid oedd yn bosibl cynnal archwiliad lle byddai angen ymweliad â'r sefydliad oherwydd canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau a osodwyd.
- 3.2 Mae dyfodiad pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr awdurdod yn ei gyfanrwydd ac yn wir ar waith Archwilio Mewnol. Blaenoriaethwyd gwasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaethau â blaenoriaeth uchel yn cael eu darparu. Nid oedd Archwilio Mewnol yn syrthio i'r categori hwn. Nid oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal ei waith yn llawn yn ystod 2021-22, ac i'r perwyl hynny bu i adnoddau Archwilio Mewnol gael eu arall-gyfeirio i gynorthwyo gwasanaethau prif flaenoriaeth.
- 3.3 Bu i swyddogion Archwilio Mewnol gynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu, sef gwasanaeth a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o arwain Cymru allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunan-ynysu lle bo angen. Bu i 98.57 diwrnod gael eu treulio yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu.
- 3.4 Ymhellach i hynny, ar gais y Pennaeth Cyllid, bu swyddogion Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-daliadau i ddelio gyda prosesu Taliadau Cymorth Hunan-ynysu yn sgil y cynnydd yn nifer yr achosion yng Ngwynedd ddiwedd 2021 a dechrau 2022. Treuliwyd cyfanswm o 96.77 diwrnod ar y gwaith hwn.
- 3.5 Cyflwynwyd rhaglen waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2021/2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn llawer mwy hyblyg na'r arfer yn 2021/2022 i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiau.
- 3.6 Adnabuwyd blaenoriaethau archwilio newydd mewn ymateb i risgiau newydd a newidiadau yn sgil effaith Covid-19. Bu i'r archwiliadau o'r cynllun gael eu cwblhau o fewn cyfnod heriol gyda ffocws yr archwiliadau ar drefniadau yn sgil y pandemig ac archwiliadau statudol megis grantiau.

4. SICRWYDD CYFFREDINOL

4.1 Mae barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Awdurdod:

- Llywodraethu
- Rheoli Risg
- Rheolaeth Fewnol

4.2 Mae canlyniadau'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill, yn cefnogi'r farn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

4.3 Ystyriaethau

Yn arferol, byddai fy marn flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o ystod archwiliadau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae'r gwerth a ddarperir gan Archwilio Mewnol yn y gwaith manwl a wneir a'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i reolwyr gwasanaethau ar reolaethau mewnol, prosesau a gweithdrefnau, ac yn eu asesiad o'r camau gweithredu i liniaru risgiau cynhenid i lefel dderbyniol. Wrth lunio fy marn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer cyfyngedig o archwiliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2021/2022 ynghyd ag adlewyrchiad o fy mhrofiad o fewn fy rôl yn Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd blaenorol a fy marn am safon a gweithrediad y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Rheoli ac Uwch Reolwyr. Yn yr amgylchiadau digynsail o anghyffredin, fel eithriad eto eleni, i gefnogi fy marn gyffredinol, rwyf wedi defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi fy marn am y flwyddyn.

Er mwyn rhoi fy marn flynyddol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Gorffennaf 2021 i ddiweddarau am ddatblygiadau yn y maes rheoli risg, y camau gweithredu nesaf i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg. Mae Cofrestr Risg Brexit yn cael ei chynnal ar wahân.
- Mae'r 23 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 27 Mai 2021) yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

- Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2021/2022:
 - Asesiad a Gynaliadwyedd Ariannol – Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym Medi 2021. Mae'r adroddiad yn datgan ***“Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd”***.
 - Crynodeb Archwiliad Blynnyddol 2021 – Archwilydd Cyffredinol. Mynegir yn yr adroddiad ***“Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 19 Hydref 2021”***. Mewn perthynas â Gwelliant Parhaus mynegir yn yr adroddiad bod ***“y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel yr arbedwyd trwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021”***.
 - O safbwynt cynllunio adferiad, mynega Archwilio Cymru eu bod ***“wedi gweld datblygiad Dangosfwrdd Ymateb Brys Coronafeirws mewn cyfnod cymharol fyr gydag adnoddau cyfyngedig i ddal gwybodaeth allweddol am breswylwyr a risgiau corfforaethol”***.
 - Archwiliad Sicrwydd 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd – Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd eu harchwiliad yn cwmpasu ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, a Llesiant. Nodir yn yr adroddiad fod y canfyddiadau'n gadarnhaol.

4.4 **Barn Flynyddol**

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2021/2022, yn fy marn i, mae fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/2022 yn gweithredu ar lefel a rydd sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y lefel is o archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

5. **GWAITH ARCHWILIO** **Cynllun Archwilio**

- 5.1 Roedd 42 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2021/2022. Cafodd 30 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022, sy'n cynrychioli **71.43%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.
- 5.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2021/2022 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynnyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

- 5.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnl sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnl ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 5.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnl mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewnl i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewnl, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewnl yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 5.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnl sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.
- 5.6 O'r 30 aseiniad yng nghynllun archwilio 2021/2022 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	14
Digonol	4
Cyfyngedig	5
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	7
Cyfanswm	30

- 5.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2021/2022 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 78.26% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".
- 5.8 Derbyniodd 5 archwiliad lefel "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".

- 5.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.
- 5.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2021/2022. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol	Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
1 Ebrill 2021 – 30 Medi 2021	14 Hydref 2021
1 Hydref 2021 – 31 Ionawr 2022	10 Chwefror 2022
1 Chwefror 2022 – 31 Mawrth 2022	30 Mehefin 2022

Addasiadau i'r Cynllun

- 5.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

Gwaith Dilyniant

- 5.12 O ganlyniad i'r pandemig, a'r tebygolrwydd cryf bod newidiadau i weithdrefnau a threfniadau, ni wnaed unrhyw waith dilynol yn ystod 2021/2022.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

- 5.13 Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa. O ganlyniad i'r pandemig, ni fu modd trefnu Gweithgor.

6. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

Staffio a Chymwysterau

- 6.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae tri Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA ar hyn o bryd.

- 6.2 Ers 1 Ebrill 2022, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro i gyfro secondiad Uwch Archwiliwr.

Y defnydd a wneir o adnoddau staff

- 6.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos cynnydd yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **557** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 i **783** diwrnod am yr un cyfnod yn 2021/2022, cynnydd o **226** diwrnod. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad Uwch Archwiliwr ddychwelyd o secondiad am hanner olaf y flwyddyn, dim absenoldeb mamolaeth a gostyngiad mewn absenoldeb salwch.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 25 diwrnod o gymharu â 11 o ddiwrnodau yn 2020/2021.

7. PERFFORMIAD ARCHWILIO

- 7.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2021/2022 fel a ganlyn:

Disgrifiad Mesurydd	Perfformiad 2020/21	Uchelgais 2021/22	Canlyniadau 2021/22
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	82.61%	95%	71.43%
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	100%	80%	78.26%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	85%	Gweler Nodyn 1
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	100%	Gweler Nodyn 1
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	85%	Gweler Nodyn 1

Nodyn 1 – ni gynhaliwyd archwiliadau dilynol yn ystod 2020/21 a 2021/22.

8. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2022/2023

- 8.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol 2022/2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022.
- 8.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/2023 yw:

Mesur	Uchelgais 2022/2023	Cyfeiriad Uchelgais
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	95%	
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	80%	
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	100%	
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	85%	

9. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

- 9.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.
- 9.2 Argymhellir bod cyrff y sector gyhoeddus yn adolygu eu gweithdrefnau archwilio yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd canlyniadau'r hunanasesiad yn erbyn y safonau a'r Nodyn diwygiedig i Lywodraeth Leol (2019) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2022/2023.

10. ARGYMHELLIAD

- 10.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2021/2022.



Cynllun Archwilio Mewnol 2021/2022

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
CORFFORAETHOL		
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Dim Categori	
Datganiadau Cyflogaeth	Cyfyngedig	10 Chwefror 2022
Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu	Dim Categori	
Brexit	Digonol	30 Mehefin 2022
Côd Rheoli Ariannol	Uchel	30 Mehefin 2022
Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	Dim Categori	10 Chwefror 2022
Dynodiadau Iaith	Digonol	30 Mehefin 2022
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Dim Categori	
Defnydd o Gardiau Pryntant	Cyfyngedig	30 Mehefin 2022
ADDYSG		
Adnoddau		
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	Uchel	10 Chwefror 2022
Grant Addysg Ôl-16	Dim Categori	10 Chwefror 2022
Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae	Cyfyngedig	10 Chwefror 2022
Ysgolion		
Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Cyfyngedig	30 Mehefin 2022
Ysgolion Cyffredinol	Dim Categori	
CYLLID		
Ar draws yr adran		
Systemau a Diogelwch TG - Data Adequacy	Uchel	14 Hydref 2021
Cyfrifeg		
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Pensiynau a Chyflogau		
Newid Data Sefydlog	Uchel	30 Mehefin 2022
Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	Uchel	14 Hydref 2021
Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal	Digonol	30 Mehefin 2022
Taleion Newydd	Uchel	14 Hydref 2021
Refeniw		
Taliadau Hunanyngysu	Dim Categori	
Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22)	Uchel	14 Hydref 2021
ECONOMI A CHYMUNED		
Adfywio Cymunedol		

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Cronfa Degwm	Uchel	14 Hydref 2021
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau		
Amgueddfa Lloyd George	Uchel	10 Chwefror 2022
Cefnogi Busnes		
Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo	Uchel	10 Chwefror 2022
TAI AC EIDDO		
Digartrefedd a Tai Cefnogol		
Grant Cymorth Tai	Uchel	14 Hydref 2021
Tir ac Eiddo'r Cyngor		
Trefniadau Glanhau	Cyfyngedig	14 Hydref 2021
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD		
Ar draws yr adran		
Trefniadau Rheoli Prosiectau	Digonol	10 Chwefror 2022

Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob lefel sicrwydd, Cynllun 2021/2022:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	14
Digonol	4
Cyfyngedig	5
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	7
Cyfanswm	30

Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

2020/21		2021/2022
2,019	Cyfanswm Dyddiau	2,077
231	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynnyddol	271
56	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol	67
287	<i>Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)</i>	338
1,732	Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael	1,740
	<i>Llai:</i>	
14	Gwyliau Arbennig	20
135	Salwch	70
39	Cyfnod Mamolaeth	0
78	Hyfforddiant Proffesiynol	25
41	Hyfforddiant Swydd	51
1,425	Dyddiau ar gael	1,574
	<i>Llai Amser Di-gynnyrch:</i>	
9	Apwyntiadau Meddygol	15
28	Cofnodi a Rheoli Amser	30
88	Cyfarfodydd a Phwyllgorau	132
0	Cyflwyno Hyfforddiant	1
51	Gwaith Cefndirol	45
23	Gweinyddiaeth ayb.	29
14	Prosiect iGwynedd	4
2	Pwyllgor Archwilio	2
108	Rheolaeth Archwilio Mewnol	127
3	Rheoli Absenoldebau	2
14	Trafferthion TG	19
0	Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol	4
0	Cyfarfodydd (WCAG a N&MWAP)	4
1	Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol	3
1,084	Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol	1,159
60	Gwaith APCE	72
119	Cynghorau Tref a Chymuned	118
40	Byw'n Iach Cyf.	42
248	Cyfoeth Naturiol Cymru (Secondiad)	131
60	Cyngor Tref Ffestiniog	13
557	Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd	783

Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

2020/21		2021/22
510	Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol	711
1	Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol	12
10	Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol	0
24	Cynghori	36
1	Gwaith dilyniant	0
11	Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig	25
557		783

Atodiad 3

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
01	1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol	A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio?	Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf.	Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	31/03/2018	Nid yw'r cynllun gwerthuso 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid.
02	1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol	Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG).	Rheolwr Archwilio	31/12/2017	Mae'r asesiad allanol bellach wedi ei gwblhau gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr.
03	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd?	Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.	Rheolwr Archwilio	08/02/2018	Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Hydref 2019.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
04	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf?	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynnyddol.
05	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau?	Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Mae hyn wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Archwilio.
06	1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd?	Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynnyddol.	Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	Fel yr angen	Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
07	2450 – barn Gyffredinol	A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys: a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau? b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	SIARTER ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS	CYFLWYNO SIARTER ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR
AWDUR	LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R SIARTER

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Daeth *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus* ("y Safonau") i rym ar 1 Ebrill 2013, a chawsant eu diwygio yn Ebrill 2017. Un o ofynion y Safonau yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol. Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol.
- 1.2 Yn ôl y Safonau a'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol, mae'r hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol fel a ganlyn:
- Diffiniad ffurfiol o bwrpas, awdurdod, a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â'r Safonau.
 - Diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y gweithgaredd archwilio mewnol. (Noder y disgwylir y bydd y pwyllgor archwilio yn cyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion).
 - Nodi sefyllfa'r gweithgarwch archwilio mewnol o fewn y sefydliad.
 - Sefydlu perthynas adrodd swyddogaethol y Prif Swyddog Archwilio gyda'r bwrdd.
 - Sefydlu atebolrwydd, llinell adrodd a'r berthynas rhwng y Prif Swyddog Archwilio a'r rhai y gall y Prif Swyddog Archwilio adrodd iddynt yn weinyddol.
 - Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd a hefyd rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Cyllid, y swyddog monitro a phennaeth y gwasanaeth taledig) mewn perthynas ag archwilio mewnol.
 - Sefydlu hawl archwilio mewnol i gael mynediad at yr holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau, a'i awdurdod i gael gwybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

- Diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnl.
- Cydnabyddiaeth bod cylch gwaith archwilio mewnl yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad.
- Sefydlu annibyniaeth sefydliadol Archwilio Mewnl.
- Ystyried y trefniadau ar gyfer adnoddau priodol.
- Diffiniad o rôl y gwasanaeth archwilio mewnl mewn unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thwyll.
- Gosod allan y trefniadau sy'n bodoli ym mholisiau gwrthlygredd a gwrth-dwyll y sefydliad, i gael eu hysbysu o'r holl dwyll, llygredd neu afreoleidd-dra a amheuir neu a ddarganfyddir.
- Y trefniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau os yw archwilio mewnl yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio.
- Diffiniad o natur y gwasanaethau sicrwydd a ddarperir i'r sefydliad, yn ogystal â sicrwydd a ddarperir i bartïon sy'n allanol i'r sefydliad.
- Diffiniad o natur gwasanaethau ymgynghori.
- Cydnabyddiaeth o natur fandadol y Safonau.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y Siarter Archwilio Mewnl, ei gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnl i gyflawni ei rôl.



SIARTER ARCHWILIO MEWNOL



SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

1. PWRPAS

1.1 Pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2. RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN LLYWODRAETH LEOL

2.1 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn “gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o’n materion ariannol ac yn sicrhau fod un o’u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn.”

2.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan:

- (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o’i gofnodion cyfrifyddu a’i system o reoli mewnol.
- (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o’r corff hwnnw, os yw’r corff yn ei gwneud yn ofynnol—
 - (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau’r corff sy’n ymwneud â’i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae’n ymddangos i’r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a
 - (b) rhoi i’r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae’r corff hwnnw’n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.
- (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.
- (4) Rhaid ystyried canfyddiadau’r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o’r ystyriaeth o’r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu’r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

3. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol. Rhain a ddiffinnir fel *“ymarferion archwilio mewnol priodol.”*

3.2 Mae'r Safonau yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

“Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig.”

3.3 Tra bod Archwilio Mewnol yn anad dim yn sicrhau priodoldeb ariannol, mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd reolaeth y Cyngor, ac nid yw wedi ei gyfyngu i risg ariannol yn unig.

4. CYFRIFOLDEBAU AC AMCANION

4.1 Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sydd â'r cyfrifoldeb am *“weinyddu'n briodol faterion ariannol y Cyngor”* yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Fel canlyniad, mae Archwilio Mewnol wedi ei leoli o fewn Cyllid.

4.2 Mae'r Safonau yn cynnwys terminoleg sydd angen ei ddiffinio'n glir o fewn y Siarter Lleol, sef y *“Bwrdd”*, y *“Pwyllgor Archwilio”*, y *“Prif Swyddog Archwilio”* ac *“Uwch Reolwyr”*.

“Bwrdd” a “Pwyllgor Archwilio”

Mae'r safonau yn diffinio'r *“Bwrdd” (Board)* fel ***“y lefel uchaf o gorff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb i gyfarwyddo a/neu goruchwyllo gweithgareddau a rheolaeth y sefydliad. Gall ‘Bwrdd’ gyfeirio ar bwyllgor archwilio y mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaethau penodol iddo”***. Maent yn diffinio *“Pwyllgor Archwilio” (Audit Committee)* fel y ***“grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg, yr amgylchedd reolaeth fewnol a hygyrddedd adroddiadau ariannol”***. Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod, mae ystyried/ymateb i adroddiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

At bwrpasau'r Siarter Archwilio Mewnol yma, felly, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymgymryd â rôl "Bwrdd" a "Pwyllgor Archwilio" yng Nghyngor Gwynedd er mwyn diwallu gofynion y Safonau.

"Prif Swyddog Archwilio"

Y Rheolwr Archwilio sy'n gweithredu fel Prif Swyddog Archwilio (*Chief Audit Executive*) yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

"Uwch Reolwyr"

Lle mae'r Safonau yn cyfeirio at "Uwch Reolwyr" (Senior Management), yng nghydestun cyfathrebu canlyniadau gwaith archwilio mewnol a thrafod y cynllun gwaith, mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cyllid, ond mae ganddo/ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro neu aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pe bai ef/hi o'r farn fod hynny'n angenrheidiol, ac yn ymarferol y Rheolwr Archwilio sydd yn rhyddhau'r holl adroddiadau i gwsmeriaid.

- 4.3 Er mwyn diwallu'r angen i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd orau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn unol ag anghenion pobl Gwynedd, mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel. Nod Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac fel canlyniad i drigolion Gwynedd, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol gyda thryloywder.
- 4.4 Gwneir hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gynnal archwiliadau ar systemau ariannol a threfniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor, yn unol â strategaeth a chynllun archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio'r Cyngor.
- 4.5 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus cyn belled a bo hynny'n ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi cynllun archwilio blynyddol wedi ei lunio drwy adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a all amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, ac ymgynghoriad gyda Phenaethiaid ac Uwch Swyddogion. Bydd yn cael ei gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w fabwysiadu.

4.6 Yn ogystal â Chyngor Gwynedd, mae gan Archwilio Mewnol gwsmeriaid allanol. Caiff unrhyw gynnydd yn yr ymrwymiad ar gyfer y gwaith yma ei gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid ymlaen llaw, a hysbysir y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o hyn.

4.7 Mae archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddatgan barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad a chasgliad ar ei drefniadau er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd Archwilio Mewnol yn cydweithio â'r archwilwyr allanol.

5. ANNIBYNIAETH, CODE MOESeg A HAWL MYNEDIAD

5.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn pwysleisio annibyniaeth Archwilio Mewnol o ran trefn a hawl adrodd.

5.2 Bydd pob Archwiliwr Mewnol yn arwyddo Datganiad Annibyniaeth Archwiliwr yn flynyddol sydd yn cwmpasu y ddyletswydd i gydymffurfio â'r pedwar prif egwyddor sydd wedi eu hymgorffori yng Nghod Moeseg y Safonau:

- Integriti
- Gwrthrychedd
- Cyfrinachedd
- Cymhwysedd

5.3 Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth am wasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod:

16.12 ARCHWILIAD MEWNOL

PWRPAS:

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi'r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu'r system reoli fewnol.

16.12.1 Bydd archwiliad mewnol parhaus, dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â'r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo.

16.12.2 Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bod modd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Y "Prif Swyddog Archwilio" dynodedig yn ôl y safonau yw'r Rheolwr Archwilio.

16.12.3	Paratoir Siarter Archwilio Mewnol a gaiff ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
16.12.4	Fel arfer bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i, a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef/hi mewn amgylchiadau neilltuol.
16.12.5	Bydd gan y Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod :- (a) i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol; (b) i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill o eiddo'r Cyngor; (c) i ofyn am, a derbyn esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ei dyb ef/hi, ar unrhyw fater sy'n cael ei archwilio; (ch) i ofyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i'r Cyngor sydd yn ei ofal.
16.12.6	Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blyneddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r cynlluniau.
16.12.7	Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno i liniaru'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad wedi'u gwireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.
16.12.8	Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: (a) Ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol. (b) Am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd. (c) Am unrhyw weithrediad cytunedig na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol. (ch) Cynnydd ar gwblhau Cynllunio Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

6. EGWYDDORION CRAIDD

6.1 Ar gyfer ystyried archwilio mewnol yn effeithiol, mae'r egwyddorion craidd canlynol yn mynnu bod yr archwiliwr mewnol/gweithgaredd archwilio mewnol yn:

- Arddangos integriti
- Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol
- Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad (annibyniaeth)
- Yn alinio i strategaethau, amcanion a rigiau y sefydliad
- Ei sefydlu'n briodol a gyda adnoddau digonol
- Yn arddangos ansawdd a gwelliant parhaus
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Darparu sicrwydd yn seiliedig ar sail risg
- Yn craffu, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
- Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

7. PERTHYNAS GYDA'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU

7.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd.

7.2 Fel arfer, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd y prif bwynt cyswllt rhwng y Rheolwr Archwilio a'r aelodau etholedig. Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod perthnasau gweithio a sianeli cyfathrebu da gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi eu cynnal.

7.3 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiadau i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd yn y cyfnod yn arwain i fyny at y cyfarfod hwnnw.

7.4 Bydd y Rheolwr Archwilio hefyd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio blyneddol.

7.5 Ar gyfer hwyluso gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd y Rheolwr Archwilio yn:

- Mynychu Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a chyfrannu at yr agenda
- Cymryd rhan yn adolygiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'i gylch gorchwyl a'i effeithlonrwydd
- Yn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn ac yn deall dogfennau sydd yn disgrifio sut mae archwilio mewnol yn cyflawni ei amcanion (e.e. y cynllun ar sail risg, rhaglen waith flynyddol, adroddiadau cynnydd)

- Penderfynu os oes unrhyw fater a gyfyd o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud addasiadau i'r cynllun archwilio ac a oes unrhyw faterion yn codi o waith archwilio mewnol y dylid ei gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

8. ADRODDIADAU

- 8.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau trefn o oruchwylio gwaith ac adolygu ffeiliau gan yr Arweinyddion Archwilio, ac yn casglu data a pharatoi adroddiadau ar berfformiad y Gwasanaeth ar gyfer y Pennaeth Cyllid yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.
- 8.2 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o archwiliadau a gwblheir, ar wahân i rai archwiliadau bychain ble na gafwyd gwendidau sylweddol ac nad oedd adroddiad archwiliad cyflawn yn angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, anfonir memoranda i'w swyddogion perthnasol.
- 8.3 Lle'n briodol, bydd pob adroddiad wedi ei gosod mewn un o 4 categori lefel sicrwydd. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

Bydd y sgôr risg cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGOR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 8.4 Bydd lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod

UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

Mae defnyddio lefelau sicrwydd yn debygol o fod yn llai priodol ar gyfer adroddiadau sydd wedi eu paratoi yn dilyn archwiliad arbennig, neu waith sydd ag agwedd “ymgynggori”.

- 8.5 Ar ôl cwblhau gwaith archwilio, caiff adroddiad drafft o’r darganfyddiadau ynghyd â unrhyw feysydd o risg a adnabuwyd ei baratoi ar gyfer y rheolwyr perthnasol er mwyn iddynt gael cyfle i ystyried y darganfyddiadau a datrysiadau posib i liniaru’r risgiau. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i’r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach pe derbynnir cais am estyniad. Os na dderbynnir ymateb erbyn y dyddiad a amlinellir, tybir fod yr adroddiad yn dderbyniol a caiff adroddiad terfynol ei ryddhau. Os derbynnir sylwadau, caiff rhain eu hystyried (a gellir addasu’r adroddiad drafft, neu beidio) cyn rhyddhau yr adroddiad terfynol. Os nad oes cytundeb i liniaru risg(iau), bydd hynny yn derbyn sylw yn yr adroddiad terfynol.
- 8.6 Wedi cyfnod priodol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn weithredol. Caiff canlyniadau gwaith dilyniant ei adrodd i Brif Swyddogion ac i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL

- 9.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad blynyddol i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion y Safonau.

10. GWAITH AR WAHÂN I WAITH SICRWYDD

- 10.1 Yn ogystal â’r gwaith sicrwydd a ddisgrifir, mae Archwilio Mewnol hefyd yn:
- Cynnig cyngor ariannol i wasanaethau’r Cyngor, yn arbennig ar Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Codau Ymarfer Ariannol a Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lygredigaeth a Gwrth-lwgrwobrwy’r Cyngor.
 - Cynorthwyo rheolwyr i atal twyll ac ymchwilio i dwyll ar ran y Pennaeth Cyllid, a chynnig cyngor ar welliannau rheolaethol i osgoi digwyddiadau tebyg i’r dyfodol.
 - Mae Strategaeth gwrth-dwyll, gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwy Cyngor Gwynedd yn mynegi yr anogir aelodau a’r cyhoedd yn gyffredinol i adrodd am bryderon o ymddygiad twyllodrus neu lygredig trwy gysylltu â’r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg neu’r Rheolwr Archwilio.
 - Darparu gwasanaethau ymgynghorol ar brosiectau penodol (os yw capasiti yn caniatáu). Ni ddarperir lefel sicrwydd ar y prosiectau hyn.

11. ANGHENION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

- 1.1 Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys y Rheolwr Archwilio, dau Arweinydd Archwilio a phump Uwch Archwiliwr. Pe bai'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo/ganddi adnoddau digonol i'w g(ch)aniatau i roddi barn ar yr amgylchedd reolaeth yn unol â gofynion y Safonau, bydd yn adrodd hynny i'r Pennaeth Cyllid ac hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 11.2 Mae'r Arweinyddion Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio ac adolygu gwaith, ac am rannu'r cynllun archwilio i brosiectau ar gyfer archwilwyr unigol.
- 11.3 Bydd Tîm Rheoli Archwilio (y Rheolwr Archwilio a'r Arweinyddion Archwilio) yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad a rhannu gwybodaeth. Hefyd, bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfarfod â'r Pennaeth Cyllid i drafod perfformiad a chytuno ar gyfeiriad strategol Archwilio Mewnol.
- 11.4 O dro i dro, i adlewyrchu'r anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn prynu arbenigedd o'r tu allan i gynorthwyo gyda'r gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefel sgiliau'r staff parhaol. Mae hyn yn berthnasol i archwiliadau yn y maes technoleg gwybodaeth, ond ni eithrir mathau eraill o archwiliadau o'r ddarpariaeth yma.

12. HYFFORDDIANT

- 12.1 Caiff aelodau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hannog i fynychu gwahanol seminarau a chysiau gan gynnwys derbyn gwybodaeth arbenigol mewn meysydd allweddol gan gynnwys twyll, llygredd ac afreoleidd-dra, TG, rheoli prosiect yn seiliedig ar egwyddorion PRINCE2, caffael a contractau. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn fewnol neu drwy fynychu cysiau allanol gan ddarparwyr megis CIPFA.
- 12.2 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn anelu at barhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda'i nod o sicrhau y bydd o leiaf 2 archwilwyr (heb gynnwys y Rheolwr Archwilio) yn gymwysedig â chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal â sicrhau y bydd o leiaf un archwiliwr yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster proffesiynol ar unrhyw un adeg.
- 12.3 I gydymffurfio â chymhwyster CIPFA a'r ACCA, mae'n ofynnol i'r Archwilwyr Mewnol sydd wedi ennill y cymhwyster i ymgymryd â isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn flynyddol.

13. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

- 13.1 Adroddir ar brif ddangosydd perfformiad Archwilio Mewnol i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac adroddir ar berfformiad yn adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio.
- 13.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cymryd rhan yn ymarferiad meincnodi Grŵp Penaethiaid Archwilio Cymru.

14. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT

- 14.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif weithredwr archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.
- 14.2 Bwriad y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yw galluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Safonau ynghyd â gwerthusiad os yw'r archwilwyr mewnol yn gweithredu'r Côd Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio mewnol ac yn adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Bydd y Rheolwr Archwilio yn annog goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ("y bwrdd" yn nherminoleg y Safonau) dros y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant.
- 14.3 Bydd y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.
- 14.4 Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i'r sefydliad, un ai drwy asesiad allanol llawn neu drwy hunanasesiad wedi'i ddilysu gan adolygwr allanol.
- 14.5 Bydd y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau mewnol ac allanol yn cael eu cyflwyno gan y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

15. DOGFENNAETH BERTHNASOL

15.1 Yn ogystal â'r adroddiad yma, mae'r dogfennau canlynol hefyd o bwysigrwydd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Rheolau Gweithdrefnol Ariannol
- Codau Ymarfer Ariannol
- Rheolau Gweithdrefnol Contractau a Rheolau Caffael
- Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lygreddigaeth a Gwrth-Lwgrwobrwyo y Cyngor
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor

Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu a chynnig addasiadau i'r dogfennau hyn fel bo'r angen.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022/2023
PWRPAS	CYFLWYNO STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN BLYNYDDOL I'R PWYLLGOR
AWDUR	LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN BLYNYDDOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol arfaethedig a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 ynghlwm i'w hadolygu a'u hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. CEFNDIR


- 2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr Archwilio (Rheolwr Archwilio) ddatblygu cynllun yn seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch Archwilio Mewnol, sy'n gyson ag amcanion y Cyngor.
- 2.2 Mae'r Safon yn nodi y dylai'r cynllun sy'n seiliedig ar risg fod yn sefydlog am gyfnod dim hwy na blwyddyn ac y dylai fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu risgiau a blaenoriaethau newidiol y sefydliad. Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i lunio barn archwilio mewnol blynyddol.
- 2.3 Er mwyn i Archwilio Mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid addasu i ddisgwyliadau newidiol ac alinio ag amcanion y Cyngor. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol yn hanfodol er mwyn parhau i fod yn berthnasol — yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, tra'n gwneud cyfraniadau ystyrlon i lywodraethu cyffredinol, rheoli risg, a rheolaethau mewnol y Cyngor.
- 2.4 Defnyddiwyd proses systematig a strwythuredig i ddatblygu cynllun Archwilio Mewnol, sydd yn galluogi i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei weledigaeth a'i bwrpas.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2022/2023, ei gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.



STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL



STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL

2022-23

1. PWRPAS

1.1 Pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. DIFFINIAD

2.1 Mae Rhan 4 Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

“Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig.”

3. BWRIAD STRATEGOL

3.1 Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'i ddatblygu a caiff ei hategu gan y Siarter Archwilio sy'n disgrifio diben, awdurdod a chyfrifoldeb a statws y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o fewn y sefydliad.

4. Y CYNLLUN ARCHWILIO

4.1 Mae'n ofynnol bod y Prif Swyddog Archwilio yn datblygu cynllun ar sail risg. Mae gofyniad y sector gyhoeddus yn y Safonau (PSIAS) 2010 yn mynegi dylai *“bod y cynllun ar sail risg yn ymgorffori neu fod yn gysylltiedig â strategaeth neu ddatganiad lefel uchel o sut y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu a'i ddatblygu”***.**

4.2 Mae'r cynllun blynyddol sy'n seiliedig ar risg yn cymryd i ystyriaeth y gofyniad i ddarparu barn Archwilio Mewnol blynyddol.

- 4.3 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi cynllun Archwilio blynyddol yn deillio o adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a all effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Adran ac Uwch Swyddogion. Cytunir ar y Cynllun gyda'r Pennaeth Cyllid cyn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.12.6 yn mynegi ***“Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r cynlluniau.”***.
- 4.4 Wrth baratoi'r cynllun gwaith blynyddol, a fanylir yn Atodiad A, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni ei bwrpas.
- 4.5 Er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw.
- 4.6 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, a drafodwyd gyda pob Pennaeth. Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 4.7 Mae Cynllun Archwilio 2022/2023 yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:
- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol.
 - Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.
- 4.8 Mae'r cynllun archwilio hwn yn gynllun gydag hyblygrwydd i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiaid. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y drefn arferol.
- 4.9 I sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio methodoleg AGILE ble bo hynny'n bosibl. Prif amcanion cymhwyso egwyddorion AGILE yw:
- Gwellu ansawdd archwilio
 - Cylchoedd archwilio byr
 - Cynnydd mewn rhyngweithio â chleientiaid
 - Darparu mewnwelediadau

Mae Agile yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllunio Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus.

- 4.10 Rhagwelir y bydd oddeutu 932 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2022/23. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd a darpariaeth o 40 diwrnod yr un ar gyfer gwaith ymatebol a dilyniant.
- 4.11 Mae Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sawl cleiant allanol gan gynnwys oddeutu 70 o gynghorau tref a chymuned, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Byw'n Iach a GwE. Mae'r dyddiau hyn eisoes wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r nifer dyddiau sydd ar gael i gyflawni Cynllun Cyngor Gwynedd, h.y. 932 diwrnod.
- 4.12 Bydd Cynllun Archwilio 2022/2023 yn gynllun gyda hyblygrwydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gefnogi'r Cyngor gydag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon i unrhyw risgiau a ddeillir yn sgil y materion hynny.

5. TREFNIADAU ADRODD

- 5.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - (a) Ar ganlyniadau gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod blaenorol
 - (b) Ar unrhyw wendidau rheolaethol sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.
 - (c) Ar unrhyw gamau cytunedig na weithredwyd o fewn yr amserlen gytunedig, ble gall methiant i weithredu ar y camau hynny ymestyn gwendid rheolaethol sylweddol.
 - (ch) Cynnydd ar gwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.
- 5.2 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd yn y cyfnod yn arwain at y cyfarfod hwnnw.
- 5.3 Bydd y Rheolwr Archwilio hefyd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol Blyneddol.

6. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL

- 6.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi Adroddiad Blynyddol i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol a gofynion y Safonau.
- 6.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn bennaf yn cynnwys:
- Barn flynyddol ar y fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.
 - Crynodeb o waith Archwilio Mewnol a gwblhawyd y mae'r farn yn deillio ohono.
 - Dadansoddiad o'r defnydd o Adnoddau staff.
 - Canlyniadau Mesurau Cyflawni Archwilio Mewnol.
 - Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant Archwilio Mewnol.

7. DILYNIANT

- 7.1 Mae Safon 2500 o'r Safonau (PSIAS) yn mynegi ***"Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i system fod mewn lle ar gyfer monitro cynnydd camau rheoli sy'n ymwneud â darganfyddiadau archwilio, i gadarnhau bod y rhain wedi'u gweithredu'n effeithiol neu, os nad ydynt, bod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio gweithredu."***
- 7.2 I'r perwyl hyn, mynegir yn mharagraff 8.6 o'r Siarter ***"Wedi cyfnod priodol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn weithredol. Caiff canlyniadau gwaith dilyniant ei adrodd i Brif Swyddogion ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."***
- 7.3 Bydd yn ofynnol i reolwyr sydd yn methu cyfarch materion/risgiau sydd yn deillio o waith Archwilio Mewnol fynychu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

8. GOFNION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

- 8.1 Fel a fanylir yn Siarter Archwilio Mewnol, os yw'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo/ganddi Adnoddau Digonol i'w alluogi/galluogi i roi barn ar yr amgylchedd reolaeth yn unol â gofynion y Safonau, bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd ar hynny i'r Pennaeth Cyllid a hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- 8.2 O bryd i'w gilydd, i adlewyrchu anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caffael arbenigedd allanol i gynorthwyo gyda gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefelau sgiliau staff parhaol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am y maes gwaith archwilio cyfrifiaduron, ond nid yw mathau eraill o archwiliadau wedi'u heithrio o drefniadau o'r fath

9. HYFFORDDIANT A DATBLYGU

- 9.1 Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i sicrhau bod y tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol ac yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd swyddogion Archwilio Mewnol hefyd yn ymgymryd rhan mewn hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle bo angen.
- 9.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ymrwymo i hyfforddi a mentora ei staff, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol priodol. Adlewyrchir hyn yn y gyfran uchel o staff sydd â chymhwyster cyfrifeg proffesiynol yn ogystal â sawl aelod o'r tîm yn parhau gyda astudiaethau hyfforddiant proffesiynol yn ystod 2022/23.

10. MESURAU CYFLAWNI

- 10.1 Bydd cyfarfodydd "Herio Perfformiad" yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn ym mhresenoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid, y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid. Bydd Arweinydd y Cyngor yn mynychu un cyfarfod y flwyddyn.
- 10.2 Adroddir ar brif fesur cyflawni Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail reolaidd.

11. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT

- 11.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif swyddog archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.

- 11.2 Mae'r ofynnol yn y Safonau i bob gwasanaeth archwilio mewnol gynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwelliant yn seiliedig ar asesiad mewnol y gellir ei gynnal yn barhaus ac yn gyfnodol, wedi'i ategu o leiaf bob pum mlynedd gan asesiad allanol annibynnol llawn.
- 11.3 Bydd canlyniadau'r asesiadau hyn, gan gynnwys unrhyw gamau gwella a adnabyddir, yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel arfer fel rhan o Adroddiad Blyneddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- 11.4 Mae'r Safonau'n nodi bod yr egwyddorion craidd a ganlyn yn sail i wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol:
- Arddangos integriti
 - Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol
 - Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad (annibyniaeth)
 - Yn alinio i strategaethau, amcanion a rigiau y sefydliad
 - Ei sefydlu'n briodol a gyda adnoddau digonol
 - Yn arddangos ansawdd a gwelliant parhaus
 - Cyfathrebu'n effeithiol
 - Darparu sicrwydd yn seiliedig ar sail risg
 - Yn craffu, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
 - Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

**ARCHWILIAD
CORFFORAETHOL**

PWRPAS

Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi
Adolygiadau Ffordd Gwynedd

Cynnig cyngor a chefnogaeth i reolaeth fewnol.

Ffoaduriaid Wcrain

Adolygiad i sicrhau bod ffoaduriaid Wcrain yn cael cymorth gyda gwasanaeth cofleidiol llawn i sicrhau eu diogelwch, eu noddfa a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo.

Diogelwch Seicolegol

Asesiad o lefelau diogelwch seicolegol a rydd adlewyrchiad o sut mae meddylfryd Ffordd Gwynedd wedi gwreiddio o fewn y Cyngor.

Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff
(ag eithrio Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Gyda symudedd cynyddol gweithwyr a'r gallu i weithio o gartref neu yn hybrid gyda chyfeuedd cyflogaeth helaeth, mae cadw staff bellach yn fater dybryd ac mae'n hanfodol bod risgiau staff yn gadael gael eu hadnabod. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio strategaeth dargadw staff, cynllun olyniaeth ynghyd â ffactorau all effeithio ar recriwtio a dargadw megis cydnabyddiaeth ariannol, trefniadau hyfforddi a grymuso staff.

Trefniadau Diogelu- Sefydliadau

Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ar "Ddiogelu" wrth ymweld â sefydliadau ar draws y Cyngor.

Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth
Rhagweithiol a'r Fenter Twyll
Genedlaethol

Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau

Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau ar draws y Cyngor.

Taliadau Cymorth Cyntaf

Gwiro bod swyddogion priodol wedi eu dynodi yn gymorthyddion a sicrhau bod eu cymhwyster yn gyfredol a bod manylion ar y posterï yn y swyddfeydd yn gyfredol.

Trefniadau Talu ac Awdurdodi

Adolygiad o drefniadau archebu a thalu ar draws y Cyngor i sicrhau y cydymffurfir â Rheolau Gweithdrefnol Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau.

Cefnogi Adrannau/Gwasanaethau
gyda trefniadau busnes yn dlyn
pandemig Covid-19

Adolygu trefniadau busnes a fabwysiadwyd yn sgil y pandemig Covid-19

ARCHWILIAD

Rheoli Absenoldebau a Threfniadau
Cyfeirio

Dyletswyddau Economaidd
Gymdeithasol 2021 (Rhan2)

Rheolaeth Categori Corfforaethol

ADDYSG

Adnoddau

Grant Datblygu Disgyblion

Grant Rhanbarthol Consortia Gwella
Ysgolion

Grant Addysg Ôl-16 Grant

Ysgolion

Cronfeydd Ysgol (Rhan 2)

Cinio am Ddim

PWRPAS

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan y “Chartered Institute of Personnel and Development” (CIPD), mae 26% o gyflogwyr bellach yn cynnwys covid hir (long covid) fel prif reswm dros absenoldeb salwch hirdymor. Mae’r pandemig wedi codi pryderon difrifol am les meddwl unigolion. Bwriad yr archwiliad yw gwirio lefelau absenoldebau swyddogion a sicrhau bod fframwaith effeithiol i gefnogi iechyd meddwl swyddogion gan gynnig ffynonellau cymorth megis cwnsela, cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ynghyd â sicrhau bod gan reolwyr llinell gefnogaeth i gefnogi eu timau.

Daeth y Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2016. Mae'r adolygiad yn ddilyniant i archwiliad a gynhaliwyd yn 2021-22.

Cynnal adolygiad a dethol sampl o gytundebau i sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir a gwirio eu datblygiad o gynlluniau categori strategol trawsadrannol. Gwirio bod y gwasanaeth yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol wrth wneud eu gwaith.

Nid yw'r GDD wedi ei ymgorffori yn y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân.

Disgwyliad yn yr amodau ariannol.

Disgwyliad yn yr amodau ariannol.

Dethol sampl o gronfeydd ysgolion ar draws Gwynedd i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cadw mewn modd priodol ac y cydymffurfir â'r gofynion o ran adrodd i'r Corff Llywodraethol. Mae'r archwiliad yn ddilyniant i arolwg a gynhaliwyd yn 2021-22.

Gwirio bod trefniadau priodol o ran archebu a chadw stoc, y defnydd o School Gateway yn dilyn y penderfyniad i blant cynradd fod gyda'r hawl i dderbyn cinio am ddim yn weithredol o fis Medi 2022.

ARCHWILIAD

Canolfan Fusnes Ysgolion

Balansau Wrth Gefn Ysgolion

Ysgolion Cyffredinol

AMGYLCHEDD

Cynllunio ac Amgylchedd

Cynllunio

Gwarchod y Cyhoedd

Diogelwch Taccis

Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

Traffig a Phrosiectau

Gwasanaeth Cefn Gwlad

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

I'w Benderfynu

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

Democratiaeth

Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar
Aelodau

Hyfforddi Aelodau

PWRPAS

Adolygiad o drefniadau Canolfan Fusnes Ysgolion. Ers Medi 2019 sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth i ysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth (SIMS) i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar ddarparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion.

Adolygiad o falansau wrth gefn i'w sicrhau eu bod yn rhesymol.

Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori.

Adolygiad o drefniadau cyfathrebu a phrydlondeb ymateb.

Adolygiad o'r drefn newydd ar gyfer trwyddedu taccis i sicrhau diogelwch pob defnyddiwr drwy wirio bod dadleniad priodol yn bodoli ynghyd â gwiriadau o gyflwr cerbydau.

Trefniadau ymateb i ymholiadau a chwynion ar draws y Gwasanaeth.

Gwirio bod cynnydd yn erbyn y rhaglen waith yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod cyn-aelodau'r Cyngor yn dychwelyd eitemau o gyfarpar TG megis gliniaduron a ffônau symudol yn ôl i berchenogaeth y Cyngor a bod cofnod digonol yn bodoli fel y gellir cyfrif am bob eitem o gyfarpar a bod rheolaeth yn bodoli dros feddalwedd a osodwyd ar gyfarpar a werthir i gyn-aelodau.

Gwirio bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cyflawni anghenion hyfforddiant aelodau etholwyd ym mis Mai 2022.

ARCHWILIAD CYLLID

Ar draws yr Adran
Diogelu Data

Cyfrifeg

Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2021-22

Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2021-22

Pensiynau a Chyflogau

Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (Rhan2)

Refeniw

Taliadau Hunan-ynysu

Taliadau Cymorth Costau Byw

Ad-daliadau Treth Cyngor

Technoleg Gwybodaeth

Ransomware

ECONOMI A CHYMUNED

Adfywio Cymunedol

Cronfa'r Degwm

Amgueddfeydd ac Orielau

Amgueddfa Lloyd George

Neuadd Dwyfor

PWRPAS

Gwiro bod trefniadau digonol yn bodoli ar gyfer Diogelu Data, nid yn unig data electronig a mynediad at systemau, ond hefyd trefniadau gyda dogfennau papur, trefniadau ffeilio a gwaredu.

Mae hwn yn ofyniad statudol.

Mae hwn yn ofyniad statudol.

Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r taliadau bonws.

Cynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-daliadau i brosesu Taliadau Hunan-ynysu.

Gwirio bod y taliad Costau Byw yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cynllun a bod taliadau wedi eu gwneud yn gywir ac amserol.

Adolygiad i wirio bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer gweinyddu a thalu ad-daliadau treth cyngor.

Maes o risg uchel - gall "ransomware" achosi difrod difrifol i ddata a dyfeisiadau, seilwaith a gweithrediadau yn ogystal â cholled ariannol a chanlyniadau arwyddocaol eraill.

Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.

Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.

Adolygiad o'r cyfundrefnau newydd sydd wedi eu sefydlu gan gynnwys trefniadau'r caffi, derbyn incwm, pryniant a thalu anfonebau.

ARCHWILIAD

Rhaglenni Datblygu Economaidd

Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund)

Cynllun Rheoli Traethau

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Ar draws yr Adran

Defnydd o Arian Parod

Paratoi ar gyfer y Mesurau Diogelu
Amddiffyn Rhyddid - Liberty
Protection Safeguards

Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff

Busnes

Tîm Trawsffurfio

Preswyl a Dydd

Plas Gwilym

Hafod Mawddach

Bryn Blodau

PWRPAS

Cyhoeddwyd ar 13 Ebrill 2022, gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n disodli cyllid strwythurol yr UE. Rhwng 2022-23 a 2024-25, bydd £585 miliwn yn cael ei ddyrannu i Gymru drwy'r Gronfa. Dyraniad Gwynedd o'r Gronfa yw £24.4m Bydd y maes hwn yn destun adolygiad parhaus.

Mae hwn yn faes o risg uchel. (sgôr risg - 20) Prif risg ydi diogelwch pobl yn y môr lle gall fod peryglon i fywyd, ynghyd â pheryglon o strwythrau a gwrthrychau ar y traeth.

Gwirio bod rheolaethau cadarn mewn lle ar gyfer codi arian parod gyda cardiau credyd.

Gwirio bod treniadau digonol mewn llaw ar gyfer y cyfundrefn newydd a fydd yn disoldi DoLS.

Risg uchel yn y Gofrestr Risg Corfforaethol, mynegir: "Mae ein gallu i gynnal a darparu gwasanaethau o safon yn llwyr ddibynnol ar ein gweithlu. Mae hyn yn wir ar draws y maes, ac yn wir i ddarparwyr annibynnol yn ogystal. Mae'r risg o fethu cael gweithlu cymwys, addas a phrofiadol i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar ein trigolion yn uwch mewn rhai meysydd. Rydym yn profi hefyd fod y broblem o allu recriwtio a chadw staff yn fwy heriol yn ddibynnol ar rannau gwahanol o'r Sir megis recriwtio Gofalwyr Cartref mewn ardaloedd gwledig."

Adolygiad o'r cynnydd yn erbyn rhaglen waith y Tîm Trawsffurfio.

Sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

Gweler uchod.

Gweler uchod.

ARCHWILIAD
PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD
Plant a Theuluoedd
Asesiadau Staudol (AMHP)

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL
Ar draws yr Adran
Clefyd Coed Ynn

Cynnal Priffyrdd
Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd

Gwaith Bwrdeistrefol
Trefniadau Gwaith Glanhau Stryd

Rheoli Gwastraff a Strydoedd
Incwm Masnachol

TAI AC EIDDO
Digartrefedd a Tai Cefnogol
Grant Cymorth Tai

Tai a Llesiant
Grantiau Prynwyr Tro Gyntaf

Tir ac Eiddo'r Cyngor
Manddaliadau

TIM ARWEINYDDIAETH
CORFFORAETHOL
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau
(Cymru) 2021

PWRPAS

Mae hwn yn ofynol yn unol â Mesur Iechyd Meddwl Cymru. Mae hwn wedi ei adnabod fel maes o risg uchel oherwydd y diffyg swyddogion gyda chymwyster AMHP.

Adolygiad i wirio bod yr Adran ar y trywydd cywir gyda'u trefniadau yn dilyn mewnnoli'r gwaith.

Ar gais y Pennaeth. Mae'r Adran yn treialu trefniadau newydd a bydd yr adolygiad os yw'n fuddiol parhau â'r trefniadau newydd ai peidio.

Adolygiad o'r trefniadau mewn perthynas â rota a hawlio goramser.

Mae incwm masnachol sylweddol yn cael ei dderbyn a bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod y drefn yn ddibynnol ac yn gweithredu'n gywir.

Disgwyliad yn amodau'r grant a mynegir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol mai y risg yw nad yw'r Grant yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i leihau digartrefedd.

Archwiliad i sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gwirio ceisiadau a dyroddi'r grantiau.

Adolygiad o'r trefniadau i wirio cyn belled a bod modd bod y stad manddaliadau yn cynnig y cyfleon gorau i amaethwyr ifanc Gwynedd. Bydd yr adolygiad yn cwmpasu adolygu cytundebau, gwirio rhenti, ad-daliadau, trefniadau cynnal a chadw ayb.

Adolygiad i sicrhau bod cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith.

ARCHWILIAD
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD
Trefniadau Rheoli Prosiectau

Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y
Strategaeth FCERM Lleol

PWRPAS

Cynhaliwyd archwiliad yn 2021-22 ar y maes yma ac mae'r Pennaeth yn awyddus cynnal archwiliad er mwyn adrodd ar gynnydd.

Gwirio bod y Cyngor yn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol ac yn paratoi cynllun i leihau risg ac effaith llifogydd ac erydiad arfordirol ar drigolion Gwynedd.

Eitem 16

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	30 Mehefin 2022
TEITL YR EITEM	ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 4 Archwilio Cymru ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 4 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.
- 1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y pwyllgor hwn ar y 14eg o Hydref 2021. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn ar y 30ain o Fehefin 2022.

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

Diweddariad Chwarterol: 31 Mawrth 2022

Ymgynghoriad ar y Rhaglen Waith

Ar ddechrau mis Mawrth 2022, lanswyd ymgynghoriad gennym ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Fe wnaethom ofyn am ymatebion erbyn 8 Ebrill 2022, os yn bosibl, ond byddwn yn ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl yr amser hwn fel gwybodaeth ar gyfer ein gwaith parhaus o gynllunio'r rhaglen waith. Rydym wedi cylchredeg yr ymgynghoriad yn eang ymhlith ein rhanddeiliaid.

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022.	Rhagfyr 2022	Drafft i'w gyhoeddi Tachwedd 2022

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliad Datganiad o Gyfrifon 2021-22 y Cyngor a'i Gyd-bwyllgorau	Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.	Archwiliad interim: - Ionawr 2022 hyd at fis Ebrill 2022. Archwiliad terfynol: - Mehefin 2022 hyd at fis Medi 2022.	Cwblhawyd yr archwiliad interim.
Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd	Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.	Archwiliad interim: - Ebrill 2022 hyd at fis Mai 2022. Archwiliad terfynol: - Hydref 2022 hyd at fis Tachwedd 2022.	Cwblhawyd yr archwiliad interim.
Ardystio Ffurflenni Grant: Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22	Ardystio bod y dystysgrif diwedd blwyddyn fel a ganlyn: - Wedi'i nodi'n deg - Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol	Dyddiad cau'r Cyngor ar y diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2022. Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022.	Nid yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gan y Cyngor wedi'i gyrraedd eto.

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Ardystio Ffurflenni Grant: Cymhorthdal Budd-dal Tai 2021-22	Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen: • Wedi'i nodi'n deg • Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol	Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2022. Dyddiad cau ardystio 31 Ionawr 2023.	Derbyniwyd y ffurflen gais ar 27 Ebrill 2022.
Ardystio Ffurflenni Grant: Ardrethi Annomestig 2021-22	Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen: • Wedi'i nodi'n deg • Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol	Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2022. Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2022.	Nid yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gan y Cyngor wedi'i gyrraedd eto.

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Prosiect sy'n gyffredin i chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal preswyl a nyrsio yn strategol.	Rhagfyr 2021	Cyhoeddwyd yr adroddiad rhanbarthol terfynol ym mis Rhagfyr 2021. Cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol hefyd ym mis Rhagfyr 2021.
Cynaliadwyedd Ariannol	Project cyffredin i'r holl gynghorau lleol fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni heriau presennol a rhai a ddisgwyllir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20.	Awst 2021	Cyhoeddwyd yr adroddiad lleol terfynol ym mis Medi 2021. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Medi 2021

Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LICD)	Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau o dan LICD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol
Archwiliad adrodd ar welliannau	Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Hydref 2021	Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Awst 2021.

Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Sicrwydd as Asesu Risg	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar: • Sefyllfa ariannol • Trefniadau hunanasesu • Cynllunio adferiad • Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) • Cynlluniau lleihau carbon	Ebrill 2021 i Fawrth 2022	Ym mynd rhagddo

Gwaith Archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy	Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.	Hydref 2021 – Mawrth 2022. Canolbwyntio ar reoli'r gweithlu ac asedau.	Gwaith maes wedi'i gwblhau, adroddiad yn cael ei ddrafftio.
Adolygiad o Reoli Perfformiad	Adolygu'r ffordd y mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw.	Awst 2021 i Ionawr 2022	Cyhoeddwyd yr adroddiad drafft i'r Cyngor ym mis Ionawr 2022.

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
Taliadau Uniongyrchol	Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol	Cyhoeddi Ebrill 2022	Cyhoeddiad	Dim
Gwaith dilynol ar Bobl sy'n Cysgu Allan	Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020.	Amherthnasol	Amherthnasol	Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22.
Tlodi	Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	Hydref 2021 – Hydref 2022.	Gwaith maes	Oes – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
Mentrau Cymdeithasol	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	Hydref 2021 – Hydref 2022	Gwaith maes	Oes – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.
Gwytnwch cymunedol	Adolygiad o'r ffordd y gall awdurdodau lleol adeiladu mwy o wytnwch o fewn cymunedau	Hydref 2021 – Hydref 2022	Gwaith maes	Oes – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.

Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Mae Estyn wedi gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL) i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Mae Estyn wedi arolygu tri awdurdod lleol yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Mae adroddiadau Caerdydd a Merthyr Tudful wedi'u cyhoeddi a bydd adroddiad Torfaen yn cael ei gyhoeddi ar 18 Mai.	Mae arolygiadau GALIL i ailgychwyn o ddiwedd tymor yr hydref.	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Cwricwlwm i Gymru - sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion wedi ei gyhoeddi ar 24 Mawrth.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref – cyhoeddwyd ym mis Mawrth	Amherthnasol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwiriad Sicrwydd Cenedlaethol 2020-21	Mae AGC bellach wedi cyhoeddi pob llythyr gwirio sicrwydd. Mae AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad gwirio sicrwydd cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol.	Cyhoeddwyd	Cyflawn
Rhaglen 2022-23	Bydd AGC yn cynnal rhaglen gylchol o wiriadau sicrwydd, gwiriadau gwella ac arolygiadau gwerthuso perfformiad.	Ebrill 2022 i Fawrth 2023	Ar waith
Adolygiad cenedlaethol	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	Cyhoeddwyd	Cyflawn
Datblygiad	Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei ddull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol. Bydd AGC yn ymgynghori ymhellach ynghylch ei dull gweithredu.	Mai i Fehefin 2022	Ar waith
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020-21	Wedi'i gwblhau	Mawrth 2021	Cyhoeddwyd

Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023	Cynllunio
Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus	Diben yr adolygiad: Cynnig sicrwydd craffu allanol a hybu gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun rhag-achos Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys arweiniad i arfer gorau.	Medi 2022	Cynllunio
Trefniadau Cydarolygiad Diogelu Plant	Dull traws-arolygiaeth. Maes i'w bennu.	Hydref 2022	Cynllunio
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22	Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynlluniau yn mynd ymlaen ar gyfer yr adroddiad nesaf.	2022-23	Cynllunio

Gwaith Cynlluniedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwiriad Sicrwydd Cafcass	Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu Cafcass Cymru.	2022	Cynllunio

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	Chwefror 2022
Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data)	Ionawr 2022
Comisiynu cartrefi gofal ar gyfer Pobl Hŷn	Rhagfyr 2021
Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru	Tachwedd 2021
Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19	Hydref 2021
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	Medi 2021
Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG	Medi 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus ¹	Medi 2021
Adfywio Canol Trefi	Medi 2021
Cyllid myfyrwyr	Awst 2021
Offeryn data cyllid y GIG 2020-21	Mehefin 2021
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	Mehefin 2021
Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg– dilyniant	Mai 2021
Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Mai 2021
Yn ôl eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	Ebrill 2021
Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19	Ebrill 2021

¹ Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. Dros y chwe wythnos a ganlynodd, cyhoeddwyd pum sylwebaeth sector byr: [Darlun o lywodraeth leol](#), [Darlun o ofal iechyd](#), [Darlun o ofal cymdeithasol](#), [Darlun o ysgolion](#), [Darlun o addysg uwch ac addysg bellach](#).

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)²

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru	I'w gadarnhau – mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd
Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth	Ebrill 2022
Trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Ebrill 2022
Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion llesiant	Mai 2022
Ymateb i COVID ac adferiad/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth i'r trydydd sector	Mai 2022
Diwygio'r cwricwlwm	Mai 2022
Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth ar ofal cynlluniedig	Mai 2022
Dilyniant System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	Mai 2022

² Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn inni ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Gwasanaethau orthopedig	Mai/Mehefin 2022
Diweddariad offeryn data cyllid y GIG	Mehefin 2022
Gweithlu Llywodraeth Cymru	Mehefin 2022
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Gorffennaf 2022
Newid hinsawdd – adolygiad cychwynnol	Gorffennaf 2022
Seilwaith band eang/cynhwysiant digidol	Hydref 2022
Rheoli perygl llifogydd	Hydref 2022
Ymateb i COVID ac adferiad/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – arall	I'w gadarnhau
Tai fforddiadwy	I'w gadarnhau

Digwyddiadau a chyhoeddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da sydd i ddod

Teitl	Dyddiad disgwyledig cyhoeddi/y digwyddiad
Darpariaeth Taliadau Uniongyrchol – gweminar yn trafod yr adroddiad sydd i ddod ar Ddarpariaeth Taliadau Uniongyrchol a sut y gallant fod yn rhan allweddol o weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	6 Ebrill 2022 – cyhoeddir recordiad yn dilyn y digwyddiad.
Digwyddiad Newid Hinsawdd - (Teitl i'w gadarnhau) Gweminar yn trafod canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n hadolygiad cychwynnol o drefniadau cyrff cyhoeddus i ymateb i dargedau lleihau allyriadau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.	19 May 2022 (amodol)
Safbwyntiau COVID: Cyfres o sgysiau wedi eu recordio yn dysgu sut mae sefydliadau wedi addasu i'r cyfnod estynedig o ansicrwydd yn dilyn yr argyfwng COVID cychwynnol	Arfer Da Archwilio Cymru

Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

Teitl	Cyhoeddiad
Seibergadernid – blwyddyn ymlaen	9 Chwefror 2022
Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (offeryn data cynladwyedd ariannol llywodraeth leol)	3 Chwefror 2022

Teitl	Cyhoeddiad
<u>Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd</u>	2 Chwefror 2022
<u>Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau</u> (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau)	14 Ionawr 2022
<u>Ysgolion Cymru yn wynebu her frawychus y gyfradd genedigaethau isaf mewn 100 mlynedd</u>	21 Rhagfyr 2021

Cynllun Archwilio 2022 – Cyngor Gwynedd a Môn Gyd-bwyllgorau

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2891A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ymdrin â cheisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon	4
Fy nyletswyddau	4
Effaith COVID-19	4
Archwilio datganiadau ariannol	4
Archwiliad perfformiad	8
Ardystio hawliadau grant a ffurflenni	10
Swyddogaethau archwilio statudol	10
Ffi, y tîm archwilio a'r amserlen	10

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Fy nyletswyddau

- 2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwilio datganiadau ariannol

- 3 Bob blwyddyn, byddaf yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.

Gwerth am arian

- 4 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

Egwyddor datblygu cynaliadwy

- 5 Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

Effaith COVID-19

- 6 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig a gwaith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 7 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

Archwilio datganiadau ariannol

- 8 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adrodd ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:
 - barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; ac

- asesu a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol ac yn gyson â'r datganiadau ariannol a gyda fy ngwybodaeth i am y Cyngor.
- 9 Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:
- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i gynorthwyo'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
 - ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen); ac
 - ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff ariannu.
- 10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai arwain at gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Bydd y lefelau y byddaf yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.
- 11 Rwy'n barnu nad oes angen ystyried unrhyw gamddatganiadau sy'n is na lefel ddibwys (a bennir ar 5% o berthnasedd) gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac felly ni fyddaf yn eu hadrodd.
- 12 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
- 13 Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion sydd wedi'u nodi'n fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â gwybodaeth bellach am fy ngwaith.

Risgiau archwilio datganiadau ariannol

14 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol a nodwyd gennyf ar gyfer archwiliad y Cyngor.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio datganiad ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol wrth archwilio'r datganiad ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau sylweddol	
Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Byddwn ni yn: - profi priodoldeb y cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; - adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd; - gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.
Risgiau archwilio eraill	
Effaith COVID-19 Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, e.e. o ran amcangyfrifon a phrsiadau, gael eu peryglu gan arwain at fwy o wallau. Gall trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu yr adnoddau sydd ar gael.	Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle y gall fod bylchau yn y trefniadau.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar risgiau camddatganiad perthnasol a siâp a dull fy archwiliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ffrydiau ariannu amrywiol i'r awdurdod. Mewn rhai achosion, mae'r arian hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r awdurdod ei hun. Mewn achosion eraill, mae'r arian wedi'i weinyddu gan yr awdurdod, gan wneud taliadau i drydydd partïon ar ran Llywodraeth Cymru. Mae taliadau wedi'u darparu drwy nifer o gynlluniau gwahanol yn ystod 2021-22 ac mae'r symiau dan sylw yn berthnasol i'r cyfrifon. Mae enghreifftiau o risgiau archwilio yn cynnwys: • Triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19 h.y. trefniadau prif swyddogion neu asiantaeth • Risgiau twyll/gwallau • Ansicrwydd prisio posibl ar ddiwedd y flwyddyn • Amcangyfrif o'r darpariaethau gwyliau blynyddol cronedig	Byddwn yn adolygu'r ffrydiau ariannu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r awdurdod.
Prisio asedau Roedd cyfrif am Eiddo, Offer Trwm a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol yn parhau i fod yn un o feysydd mwyaf heriol y cyfrifon ac mae'n arwain at y rhan fwyaf o'n canfyddiadau archwilio. Yng ngoleuni'r cyfyngiadau COVID a oedd ar waith drwy gydol 2021-22 ac ansicrwydd ynghylch gwerthoedd y farchnad ar gyfer asedau ers dechrau'r pandemig, mae perygl y gallai gwerth cario asedau a adroddwyd yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2022. Yn benodol, gall hyn fod yn wir lle mae asedau wedi'u prisio ar sail dreigl ac nid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Byddwn yn adolygu rhaglen prisio asedau'r Cyngor i weld pryd y cafodd grwpiau unigol o asedau eu prisio ac yn ceisio cadarnhau nad yw prisiadau a gynhaliwyd yn gynharach nag ar 31 Mawrth 2022 yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar ddiwedd y flwyddyn.

Archwiliad perfformiad

- 15 Yn ogystal â fy Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ym mharagraffau 4 a 5 mewn perthynas â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.
- 16 Mewn ymateb i'r pandemig, mabwysiadais ddull hyblyg o ymdrin â fy ngwaith archwilio perfformiad o ran cwmphas a methodoleg y pwnc. Galluogodd hyn i mi ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a darparu adborth mwy amser real mewn amrywiaeth o fformatau.
- 17 Ar gyfer 2022-23, rwy'n bwriadu parhau â'r dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a phan fo'n bosibl rhannu'r hyn a ddysgwyd yn gyflymach. Fel rhan o'r dull hwn, rwy'n rhagweld y bydd cyfran sylweddol o fy rhaglen archwilio perfformiad leol yn parhau i gael ei chyflawni drwy'r Prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg, a fydd yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn.
- 18 O ystyried y graddau uchel o gyffredinedd yn y risgiau sy'n wynebu cynghorau, rwyf hefyd yn bwriadu cyflawni nifer o brosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.
- 19 Yn ystod 2020-21, ymgynghorais â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar sut y byddaf yn ymdrin â fy nyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 2020-2025.
- 20 Ym mis Mawrth 2021, ysgrifennais at y cyrff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi fy mwriadau, sy'n cynnwys a). cynnal archwiliadau penodol o sut mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant a b). integreiddio fy mhrif archwiliadau datblygu cynaliadwy o gamau i gyflawni amcanion llesiant gyda fy rhaglenni archwilio cenedlaethol a lleol.
- 21 Mae fy archwilwyr yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i archwilio'r ffordd y gosodir amcanion llesiant.
- 22 Bydd camau i gyflawni amcanion llesiant yn cael eu harchwilio fel rhan o'r gwaith a nodir yn y cynllun archwilio hwn a chynlluniau archwilio olynol, gan arwain at fy adroddiad statudol o dan y Ddeddf yn 2025.
- 23 Ar gyfer 2022-23, mae fy ngwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Gwynedd wedi'i nodi isod.

Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2022-23

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23.

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Sicrwydd ac Asesu Risg	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar: • Sefyllfa ariannol • Rheoli rhaglenni cyfalaf • Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth • Gosod amcanion llesiant
Adolygiad thematig – gofal heb ei drefnu	Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy.
Adolygiad thematig (i'w gadarnhau)	I'w gadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad y cyfeirir ato ym mharagraff 24 isod.
Adolygiad lleol	Effeithiolrwydd Craffu.

- 24 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais [ymgyngoriad](#) yn gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Yn benodol, mae'n ystyried pynciau y gellir eu datblygu drwy ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol ar waith yn ein strategaeth pum mlynedd newydd, sef:
- darparu rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel; a gefnogir gan
 - dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu.
- 25 Lluniwyd y meysydd pwyslais posibl ar gyfer gwaith archwilio a nodwyd gennym yn yr ymgyngoriad yng nghyd-destun tair thema allweddol o'n dadansoddiad [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus](#) yn rhyngor yr hydref 2021, sef: byd sy'n newid; y pandemig parhaus; a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau. Gwahoddwyd sylwadau hefyd ar feysydd posibl ar gyfer gwaith dilynol.
- 26 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

- 27 Gofynnwyd i mi hefyd ymgymryd â gwaith ardystio hawliadau grant y Cyngor, yr wyf yn rhagweld y bydd yn cynnwys yr Hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai, y ffurflen Ardrethi Annomestig a'r ffurflen Cyfraniadau Pensiwn Athrawon.

Swyddogaethau archwilio statudol

- 28 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad.
- 29 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi rhoi unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

- 30 Mae fy ffioedd a fy amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd a ddisgwylir a'u bod wedi bod yn destun adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;

- bod yr wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen y cytunwyd arni ar gyfer cyflawni archwiliadau;
 - darperir ystafelloedd a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
 - bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
 - bod y rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.
- 31 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Fy ffi

- 32 Fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.
- 33 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.6% (ac eithrio gwaith ardystio grantiau) o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol ar gyfer 2021.

Arddangosyn 3: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio ¹	Ffi arfaethedig (£) ²	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio cyfrifon ³	187,096	180,450
Gwaith archwilio perfformiad ⁴	102,732	99,310
Gwaith ardystio grantiau ⁵	45,000-50,000	46,735
Gwaith archwilio ariannol arall ⁶	1,225	1,200
Cyfanswm y ffi	336,053	327,695

- 34 Bydd cynllunio'n mynd rhagddo, ac efallai y bydd angen newidiadau i fy rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni wnafr unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyngor.
- 35 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn fy [Nghynllun Ffioedd 2022-23](#).

¹ Mae cynlluniau Archwilio ar Wahân wedi'u paratoi ar gyfer GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

² Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch chi.

³ Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 hyd at fis Hydref 2022.

⁴ Yn daladwy o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023.

⁵ Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

⁶ Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 i fis Hydref 2022 am waith a wnaed ar y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio a Harbyrau Cyngor Gwynedd.

Tîm archwilio

36 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Swydd	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Matthew Edwards	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	029 20320663	matthew.edwards@archwilio.cymru
Yvonne Thomas	Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol)	029 22677830	yvonne.thomas@archwilio.cymru
Sioned Owen	Arweinydd Archwilio (Archwiliad Ariannol)	029 20829338	sioned.owen@archwilio.cymru
Jeremy Evans	Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad)	07825 052861	jeremy.evans@archwilio.cymru
Alan Hughes	Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad)	029 20829349	alan.hughes@archwilio.cymru

37 Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt mewn perthynas â Yvonne Thomas y Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol) a Sioned Owen yr Arweinydd Archwilio Ariannol (Archwiliad Ariannol). Mae gan y ddau ohonynt adnabyddiaethau a/neu deulu a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, naill ai ni fyddant yn ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaethau

perthnasol, neu bydd camau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli.

Amserlen

- 38 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 5**.
- 39 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau i gyfrifon y Cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

Arddangosyn 5: amserlen archwilio

Allbwn wedi'i gynllunio	Gwaith a wnaed	Adroddiad wedi'i gwblhau
Cynllun Archwilio 2022	Mawrth 2022	Ebrill 2022
Archwiliad o waith datganiadau ariannol: - Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol - Barn ar Ddatganiadau Ariannol	Mehefin i Medi 2022	Hydref 2022 Hydref 2022
Gwaith archwilio perfformiad: - Sicrwydd ac Asesu Risg - Adolygiad Thematig – gofal heb ei drefnu - Adolygiad Thematig [i'w gadarnhau] - Effeithiolrwydd Craffu	Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a byddant yn cael eu nodi yn y sesiynau briffio prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob darn o waith.	
Gwaith ardystio grantiau - Budd-dal Tai - Ardrethi Annomestig - Rhestru cynlluniau eraill	Hydref/Gaeaf 2022	Hydref/Gaeaf 2022

Allbwn wedi'i gynllunio	Gwaith a wnaed	Adroddiad wedi'i gwblhau
Crynodeb Archwilio Blynyddol	Amherthnasol	Rhagfyr 2022 yn amodol ar gwblhau archwiliadau cyfrifon



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Eitem 18

CYFARFOD	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 o Fehefin 2022
TEITL	Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
PWRPAS	Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
- 2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 a Mehefin 2022 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.
- 3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.
- 3.3 Rydym wedi nodi 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis Hydref 2021.
- 3.4 Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Mae'r casgliadau yma wedi eu cytuno

gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau' a'i peidio. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

- 3.5 Mae'r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a'u argymhellion 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Hydref 2021, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

5 Camau nesaf ac amserlen

- 5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2018-2022.

Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2019-2022

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Heb ei gychwyn** – yr adroddiad heb ei ystyried eto.
2. **Wrthi'n cael ei gynllunio** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
3. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
4. **Wedi ei gwblhau** – cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus / neu: mae'r argymhellion wedi eu gwireddu.

RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd

1. Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol

Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

- (i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.
1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:
 - (i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Yn sgil hynny, bwriedir cyflwyno adroddiad yn y dyfodol agos fydd yn gwneud asesiad o'r cynnydd hyd yma ac yn amlinellu yr hyn sydd i'w gyflawni eto. Yn sgil galw cynyddol am amser staff datblygol y Gwasanaeth TG mewnol a hefyd cymhlethdod datblygu rhai modiwlau allweddol mae posibilrwydd cynyddol y bydd angen edrych yn allanol am rai agweddau o'r datrysiad.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Oherwydd ardrawiad y pandemig, ni fu'n bosib cwblhau gwaith pellach o ran canfod lefelau sgiliau TG y gweithlu sydd wedi eu lleoli mewn mannau anghysbell. Mae'n

fwriad atgyfodi'r gwaith ond hyd yma nid oes amserlen pendant wedi ei lunio yn anffodus. Fel arwydd o ddefnydd ehangach fodd bynnag, mae dda nodi bod dros 90% o weithlu'r Cyngor bellach yn cael mynediad i'w slipiau cyflog trwy ddefnyddio'r porth hunanwasanaeth staff.

Casgliad

Ar waith.

2. Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddarau'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddarau, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol". Ymhellach ac fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Digidol y Cyngor, mae Is Grwp Data wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael a'r maes yma gyda cynrychiolaeth o pob adran yn cyfrannu at raglen waith uchelgeisiol i wella'r defnydd o data.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Casgliad

Ar waith.

3. Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019.

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amlder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddarau. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymhell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.
2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.
3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.
4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.
5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwyllo ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.

6. Mae angen diweddarau taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r chwech argymhelliad a dderbyniwyd yn yr adroddiad. Mae'r argymhellion wedi eu trafod gan dîm rheoli'r Gwasanaeth, ac yn cael eu plethu i fewn i raglenni gwaith ehangach Trawsnewid Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol y Cyngor, a rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref sydd yn edrych ar ail gomisiynu ac ail fodelu ein ffordd o ddarparu gwasanaeth i unigolion. Er nad ydym y tro hwn wedi uchafu'r argymhellion i'r gofrestr risg, rydym o'r farn fod yr argymhellion a'r pwyntiau datblygol hyn yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r safon gorau posib, ac felly yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel tîm rheoli'r Gwasanaeth i edrych ar gynnydd yn erbyn y gwaith.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bwriad yr Adran oedd sicrhau gwelliannau ar draws y ddarpariaeth fewnol ac allanol yn rhan o raglen waith y Prosiect Gofal Cartref, ac mae'r Adran wedi ymateb i'r argymhellion drwy sefydlu datrysiadau tymor byr i wella'r gwasanaeth. Er fod y Prosiect Gofal Cartref yn symud yn ei flaen erbyn hyn, mae'n rhaid cydnabod y bu llithriad anorfod yn amserlen gwreiddiol y gwaith oherwydd yr angen i ymateb a chynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig Covid-19.

Yn ogystal, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae newid wedi bod yn arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Yn dilyn ymddeoliad un uwch reolwr, rydym wedi penodi unigolyn newydd i'r rôl, ac wedi penodi Pennaeth Cynorthwyol newydd o fewn yr adran, sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau Darparu.

Yn sgil hynny, fel Gwasanaeth, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar wella dwy flaenoriaeth gychwynnol, sef sicrhau cysondeb i amllder a chofnodion hyfforddiant staff, a llunio adroddiad rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth.

Mae gwaith wedi dechrau i adnabod pa staff sydd wedi derbyn pa hyfforddiant, a'n bwriad yw i ddatblygu dull electroneg o gofnodi'r wybodaeth yma yn fwy effeithiol. Mae ffrwd gwaith penodol yn y rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref ehangach hefyd sydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant staff darparwyr mewnol ac allanol, fydd yn sicrhau fod yr holl staff wedi cael cynnig ac wedi derbyn yr un hyfforddiant.

Yn sgil y Prosiect Gofal Cartref, rydym wedi bod yn ymgysylltu gyda staff i'w diweddarau o'r datblygiadau, ac yn cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyfnod trosglwyddo yn rhan allweddol o'r Prosiect Gofal Cartref, a'n gobaith yw gallu ymgynghori gyda'r defnyddwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod Gaeaf 2022 i gyfrannu tuag at ein hadroddiad ansawdd.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r pedwar pwynt datblygol sydd angen eu hystyried, a byddwn yn parhau i'w cynnwys ar raglen waith Trawsnewid y Gwasanaeth er mwyn gwireddu'r newidiadau hyn.

Casgliad:

Ar waith.

4. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – Cyngor Gwynedd

Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Medi 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad

1. Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.
2. Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.
3. Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu.
4. Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.
5. Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.
6. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r

egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.

7. Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
8. Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
9. Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuenctid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Yn yr adroddiadau blaenorol sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2019 a Hydref 2021 nodwyd bod y Cyngor wedi nodi dymuniad i geisio trafodaeth bellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gasgliadau a chynigion gwella archwiliad y Gwasanaeth Ieuenctid. Gweler cofnod y Cyngor Llawn dyddiedig 3ydd Hydref 2019.

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23 Ionawr 2020. Nid oedd yr adroddiad hwnnw yn cyfeirio at yr argymhellion gwella gan fod y drafodaeth gyda'r Swyddfa Archwilio yn parhau.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cytunodd Archwilio Cymru i gynnal adolygiad dilynol o weithredu'r model gwasanaeth ieuenctid newydd, fel ymateb i bryderon y Cyngor llawn fod eu adroddiad gwreiddiol heb gymryd ystyriaeth o ansawdd y model ieuenctid newydd.

Bwriadwyd cwblhau'r adolygiad yn ystod 2020-21 ond oherwydd argyfwng Covid-19 mae'r gwaith wedi ei ohirio. Cytunwyd ar friff i'r adolygiad ym mis Ionawr 2021 ond mae amserlen i'w gwblhau eto i'w gadarnhau. Mae'r adolygiad yn bwriadu edrych ar ansawdd y ddarpariaeth o dan drefniadau'r model newydd. Nid yw'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi gweithredu'r model newydd ers cychwyn yr argyfwng oherwydd yr angen iddynt addasu i ymateb i anghenion pobl ifanc, ac oherwydd bod cyfyngiadau y pandemig yn eu hatal rhag darparu rhai elfennau o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Mae gwaith adfer eisoes ar droed ond nid ydym yn rhagweld y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn adfer i'r model newydd yn llawn am beth amser eto.

Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio.

5. Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cyngorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar waith awdurdodau'r gogledd yn y maes comisiynu cartrefi gofal gyhoeddwyd 16 Rhagfyr 2021 - Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Audit Wales (archwilio.cymru)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad (neu argymhellion fel ddefnyddir yn yr adroddiad)

1. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.
2. Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd.
3. Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.
4. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.

5. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 28/06/22 yn dilyn adolygiad o fforddiadwyedd ffioedd preswyl a nyrsio 2022/23. Mae mater cynaliadwyedd y farchnad gofal wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg adrannol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn rhan o drafodaethau rhanbarthol ar gomisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio, a disgwylir derbyn y gytundeb cyn lleoli rhanbarthol fis Medi 2022. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i sicrhau cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad gofal yng Ngwynedd, byddwn yn camu i ffwrdd o ffioedd safonol Gogledd Cymru.

Rydym yn cydweithio gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethu achosion sy'n cael eu comisiynu ar y cyd. Mae hefyd trafodaethau cychwynnol wedi digwydd ymysg swyddogion y Cyngor ar faterion iaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio

6. Cyngor Gwynedd – Adolygiad o Reoli Perfformiad

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd yn Chwefror 2022
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

A1 - Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:

- sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernïo'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
- gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
- ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a

- sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebwr gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebwr gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.

A2 - Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:

- ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darlennydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;

- sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;

- sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;

- cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

A3 - Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:

- ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;

- cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;

- cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;

- cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolog;

- sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebwr gan wasanaethau; a

- phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.

A4 - Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:

- cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;

- sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
- adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
- sicrhau bod yr holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;
- ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
- chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

A5 - Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion –

Adroddiad a'r argymhellion wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau herio perfformiad corfforaethol a gafodd ei arwain gan y Prif Weithredwr ar ddiwedd 2021/22. Cyflwynwyd yr argymhellion terfynol ar gyfer y drefn herio perfformiad newydd (sy'n ymgorffori mwyafrif yr argymhellion yn yr astudiaeth hon) yn ystod mis Chwefror 2022.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bydd y drefn newydd yn cael ei gweithredu yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022 ar gyfer y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio perfformiad yn 2022/23. Bydd canllawiau ar y drefn newydd yn cael eu paratoi ar gyfer yr Adrannau, Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu. Yn ogystal bydd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd ynghyd a darparu cyfle i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau yn cael eu cynnal i gynrychiolwyr Adrannau ac i Aelodau Cabinet yn ystod mis Mai/Mehefin.

Casgliad

Ar waith

RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol

1. Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw - Digartrefedd

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ionawr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
 - sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac
 - adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.
2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
 - llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;
 - defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a
 - profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.
3. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:
 - gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml.
 - bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys.
 - nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym.
 - cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).
 - integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol.
 - cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod.
 - nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.
4. Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:

- brofi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;
- cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a
- chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparu'r arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.

5. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.
6. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddolebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ein trefniadau gwaith mewn perthnasedd â digartrefedd wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn ddiweddar gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mawrth 2021 a'r Cabinet ar 20 Ebrill 2021. Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill 2021.

Mae'r nifer o gyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y pandemig a bydd yr ailstrwythuro yn ein galluogi i ymateb ac yn cynyddu ein capasiti i roi cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i'r sawl sy'n cyflwyno'n ddigartref.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Gorffennaf 2019 bu i'r Cabinet gymeradwyo ein Strategaeth Tai. Ymhellach i hyn, cymeradwywyd ein Cynllun Gweithredu Tai gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 15 Rhagfyr 2020 sy'n nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni'r amcan bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Mae cydweithio gyda phartneriaid yn ran allweddol o wireddu'r amcan yma.

Rydym wedi cynllunio ar y cyd ag arbenigwr i sicrhau bod ein safonau gwasanaeth a'r wybodaeth yr ydym yn ei roi allan gan gynnwys ein cyfrifoldebau yn ddealladwy.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

2. Addasiadau Tai

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:
 - osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;
 - gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy ddefnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a
 - chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.
2. Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddelfrydol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.
3. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.
4. Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:

- bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;
- bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;
- bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

5. Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:

- yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:
 - safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n dachus, rheoli sŵn ac ati;
 - archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;
 - hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;
 - gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;
 - sicrhau y delir yswiriant digonol; a
 - gofyn am eirdaon.
- defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;
- mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddarau'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;
- datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:
 - bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
 - gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
 - rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolgol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

6. Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoeli staff a chreu timau cyflenwi integredig.

7. Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrff ieuchyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
- fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;
 - bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;
 - cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;
 - nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a
 - chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Tai i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2020 syn cynnwys ein ymrwymiad i addasiadau tai dros y blynyddoedd nesaf. Bu iddo gael ei drafod mewn manylder yn y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2020 yn ogystal.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid (adrannau'r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gofal a Thrwsio) sy'n cwmpasu'r argymhellion hyn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Tai gan Gabinet Cyngor Gwynedd gyda £7.2m wedi ei glustnodi dros 6 mlynedd ar gyfer DFG a £600k ar gyfer addasiadau llai (Enable).

Mae'r argymelliadau wedi eu hystyried wrth lunio ein trefniadau gwaith. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid megis Gofal a Thrwsio, adrannau eraill y Cyngor, â'r Bwrdd Iechyd, gyda cyfeiriadau yn cael eu cyfeirio drwy Therapyddion Galwedigaethol yr Awdurdod. Mae sefydliadau cyflenwi erbyn hyn yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

Mae gennym systemau priodol mewn lle i weinyddu'r addasiadau tai. Mae ein contractwyr wedi eu gwirio drwy broses cadarn ac rydym ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu fframwaith newydd o gontractwyr cymwys ac achrededig i weithredu'r addasiadau. Rydym yn penodi asiantaethau i hwyluso'r broses ar gyfer ymgeiswyr mewn achos o addasiadau sylweddol, yn ogystal ac ymgymryd â rhain yn fewnol pan fo môdd. Rydym wedi sefydlu system Rhaglen Waith safonol, gyda phrisiau

cystadleuol ynghlwm er mwyn hwyluso'r broses dendro am waith adeiladol. Rydym hefyd wedi mabwysiadu system e-dendro, sydd yn cynnwys system gadarn a ddiogel o rhannu dogfennau tendr yn ogystal a derbyn prisiau yn ôl gan Contractwyr, yn unol ag arfer cyfredol NJCC, er mwyn sicrhau amserlen amgen.

Rydym wastad yn rhoi adborth i contractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, ac yn falch iawn ein bod yn gallu cynnal perthynas da iawn gyda'r Contractwyr sydd yn ymgymryd gwaith ar ein cyfer, gyda llawer o gleientau yn ysgrifennu atom i ddatgan eu bodlonrwydd gyda'r broses o dderbyn addasiadau.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd mynediad at y gwasanaeth yma drwy ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Rydym wedi diwygio ein Polisi Tai Sector Breifat i adlewyrchu'r galw gan Lywodraeth Cymru i ddileu unrhyw ofyniad am brawf modd ar gyfer addasiadau bychain a chanolig, ac yn gobeithio gweithredu ar hyn cyn gynted mae'r ddogfen diwygiedig wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

3. Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cyngorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.
2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r

gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
- gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
- nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
- sicrhau bod eu polisiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
- cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal a bydd cynllun ardal leol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Fel rhan gychwynnol y cynllun rydym wedi ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny. Mae hyn yn blethiant o nifer o wahanol ymgynghoriadau trawsadrannol sydd yn digwydd. Rydym hefyd yn ystod 2022 wedi agor yn ymgynghoriad allan i'r cyhoedd yn ehangach, gyda'r ymgynghoriad yn cau diwedd Mehefin 2022, gyda'r bwriad o gynnal gweithdai ymhob un o'r 13 ardal yn y misoedd nesaf i ddatblygu'r cynlluniau ardal leol. Bydd hyn yn ffordd i ni allu ymateb yn drawsadrannol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau a chydgyllunio gyda'r cymunedau er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r adnoddau a chefnogaeth tu ôl i'r gweithgareddau/pethau sy'n bwysig i'r cymunedau lleol hynny.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

-Mae yna nifer fawr o gynlluniau i gefnogi cymunedau gwledig ar waith, ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud â darparu adnoddau sy'n addas i bwrpas. Nid yw hynny bob tro yn golygu trosglwyddo asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, ond fe ddaw'r anghenion yn fwy amlwg wrth gwblhau'r gwaith ar lunio Cynlluniau Adfywio.

-Roedd Cyngor Gwynedd yn arwain cryn dipyn yn y maes Mentrau Cymdeithasol yn 2013. Gyda swydd Rheolwr Mentrau Cymdeithasol. Mi gafodd Gwynedd y dynodiad cyntaf o fod yn Sir Fentrau Cymdeithasol yn Nghymru gan Social Enterprise UK a mi roedd Fforwm i'r Mentrau. Ers hynny mae newidiadau o fewn adrannau a newidiadau

o fewn Mentrau Cymdeithasol wedi gweld y Fforwm yn dod i ben a neb yn arwain ar y agenda yn uniongyrchol.

-Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi gweithio yn agos iawn gyda Arloesi Gwynedd Wledig i greu hybiau cymunedol. Rydym rŵan yn datblygu gofod gwneud a caffis trwsio mewn 8 cymuned yn y Sir. Mae pob un am fod ychydig yn wahanol; ond prif nod fydd cynnig cyfleusterau 'hot desking' gofod creu a gwneud; caffis trwsio; plethu i fewn gyda gweithgareddau cymunedol eraill.

-Yn hanesyddol mae'r Adran wedi neud llawer iawn o waith o rhan trosglwyddo asedau i Cymunedau/Grwpiau Cymunedol – e.e Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu cael ei drosglwyddo i Antur Nantlle i rhedeg fel busnes 'bunk house'; hen Llyfrgell yn Deiniolen wedi cael ei drosglwyddo i Menter Fachwen. Mi gafodd Gweithdrefn Trosglwyddo Asedau ei greu ond ddim ei fabwysiadu. Gyda newidiadau mewn cyllidebau a blaenoriaethau does neb yn arwain ar hyn.

Casgliad

Ar waith.

4. Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Gorffennaf 2020

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymhell bod cynghorau a'u partneriaid:

- yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a
- chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.

Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrion anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol (caiff yr offeryn ei nodi yn Atodiad 2).

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae digartrefedd a chysgu allan yn cael ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys ein Panel Gweithredu Cynllunio Argyfwng a cyfarfodydd mewnol a thrawsadrannol eraill wrth gydweithio i sicrhau nad oes neb yn cysgu allan yng Ngwynedd.

Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill, ac wedi cael sylw manwl y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021, â'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2021.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau trydydd sector i roi cefnogaeth i unigolion. Rydym yn dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a byddwn yn adeiladu ar y gwaith hyn yn dilyn penodi swyddog data newydd i gefnogi'r adran.

Mae'r argymhellion wedi bod yn berthnasol i'r ailstrwythuro yn ein hunedau digartrefedd, ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd gan gynnwys cydgyflogi aelod o staff arbenigol i roi cefnogaeth iechyd meddwl i unigolion.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

5. Adfywio Ganol Trefi yng Nghymru

Adroddiad cenedlaethol gyhoeddwyd ym mis Medi 2021

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

A1 - Nid yw ardrethi annomestig wedi'u hadolygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw'r lefelau a godir yn adlewyrchu'r rhenti presennol sy'n cael eu cyflawni mewn llawer o ganol trefi. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaw gwyliau'r taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.

A2 - Effeithir yn andwyol ar lawer o fusnesau canol tref drwy godi tâl am barcio ceir, mynediad at gludiant cyhoeddus a seilwaith trafnidiaeth gwael. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafnidiaeth sy'n wynebu canol trefi ac yn cytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.

A3 - Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu a denu ychydig o dan £900 miliwn yn uniongyrchol drwy 13 o gynlluniau ariannu i helpu i adfywio canol trefi. Fodd bynnag, ystyrir bod rhai agweddau ar reolaeth Llywodraeth Cymru ar y cyllid yn broblemus. Er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol gael y mwyaf o effaith cyllid a mynd i'r afael

â'r problemau mwy anodd a hirsefydlog a fyddai'n helpu i drawsnewid canol eu trefi, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn cydgrynhai cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chwtogi cymaint â phosibl ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol;
- yn cefnu ar gylchoedd cynnig blynyddol o blaid ddyraniadau aml-flwyddyn; ac
- yn ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i reffeniw i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a chapasiti staff.

A4 - Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant i bob un o'r 22 awdurdod lleol ar y ffordd orau o ddefnyddio pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion sy'n bodoli eisoes, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol i gefnogi adfywio. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau presennol hyn sydd ar gael i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i ganol trefi drwy:

- ddefnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol pan fydd popeth arall yn methu;
- integreiddio strategaethau gorfodi gyda strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd mwy effeithiol o sgiliau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes; a
- sicrhau bod capasiti a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â chynghorau eraill i sicrhau canlyniadau da.

A5 - Nod dull 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru yw rhoi iechyd canol trefi wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a chymunedau. Mae hyn yn mynnu lefel uchel o integreiddio rhwng fframweithiau polisi trawsbynciol a phenderfyniadau i hyrwyddo canol trefi uwchlaw llawer o bethau eraill. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn yn ymarferol, ei disgwyliadau gan bartneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.

A6 - Mae canol trefi'n newid, ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn y newidiadau hyn a chynllunio i reoli'r newidiadau hyn. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn defnyddio ein hofferyn adfywio i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi (mae'r offeryn yma).

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion –

Nid yw'r adroddiad/argymhellion wedi eu trafod mewn unrhyw bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor. Nodir fod rhai o'r argymhellion yn berthnasol i faterion a gweithrediad pellach gan Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cyfrannu ar waith Grŵp

Swyddogion Adfywio Rhanbarthol sydd wedi trafod yr argymhellion. Mae'r ffaith fod canol trefi ac ardaloedd stryd fawr yn wynebu cyfnod o newid ac ansicrwydd wedi ei adnabod gan yr Adran Economi a Chymuned o fewn y gofrestr risg.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhagwelir y byddai argymhellion A1, A2 ac A3 yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

A4 – Mae sesiynau hyfforddiant (un ar gyfer Cabinet ac un ar gyfer swyddogion) a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi eu cynnal. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol ac wedi paratoi cynllun gweithredu sydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

A5 – Disgwylir gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru

A6 – Mae'r adroddiad yn argymhell offeryn adfywio er hunan asesu dulliau presennol, sydd yn gwneud defnydd o ddata o wefan Deall Lleodedd Cymru. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen am ddata ychwanegol ar gyfer adnabod a deall tueddiadau o fewn ardaloedd canol trefi ac wedi comisiynu gwaith pellach. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith ar y cyd rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru i ddatblygu fframwaith adfywio canol tref ranbarthol sydd hefyd yn darparu data manwl ar gyfer canol trefi unigol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

6. Adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Adroddiad i Wynedd gan Estyn dyddiedig 18 Ionawr 2021 - Mae'r llythyr hwn yn ddilyniant i adroddiad thematig cenedlaethol gyhoeddwyd 15 Ionawr 2021 - [Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19](#)

Derbyniwyd llythyr gan Brif Arolygydd Estyn sy'n disgrifio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd rhwng Mawrth a Hydref 2020 i ymateb i heriau dysgu dros gyfnod pandemig Covid-19. Ceir ddisgrifiadau o'r gwaith a wnaed ac ambell sylw ar lwyddiant y gwaith; ni cheir argymhellion cadarn ar gyfer gweithredu i'r dyfodol. I grynhoi; nid yw'r llythyr yn amlygu materion o bryder sydd angen gweithredu arnynt.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r llythyr wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Adran Addysg ac aelodau o Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol yr Adran Addysg i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021, ac roedd rhannau o gynnwys y llythyr yn cael eu dyfynnu yn yr adroddiad hwnnw.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn y llythyr yn ogystal â'r argymhellion cenedlaethol wedi derbyn ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet, ac rydym wedi defnyddio'r argymhellion wrth gynllunio sut i gefnogi ysgolion a dysgwyr drwy'r pandemig.

Bu Estyn gynnig sylwadau cadarnhaol ar ein cynnydd yn erbyn yr argymhellion cenedlaethol yn ôl ym mis Gorffennaf 2021 (gwelwch y ddolen isod).



Gwynedd.pdf

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

7. Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad

Yn rhan 1, mae'r adroddiad yn argymhell bod awdurdodau lleol:

-Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.

-Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

-Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalgwyr.

Yn rhan 2:

-Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwyr Personol.

-Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi: yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio; sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio; sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Yn rhan 3:

-Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.

-Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adroddiad mewn ymateb i fater cenedlaethol yw hwn, felly does dim argymhellion penodol i Wynedd. Serch hynny, mae'r argymhellion wedi eu trafod yn fewnol gennym fel Adran. Rydym fel Adran yn llawn ymwybodol fod defnydd taliadau uniongyrchol Gwynedd yr isaf yng Nghymru, a fod hyn angen sylw.

Fel rhan o'r broses o drio trawsnewid y Gwasanaeth, rydym wedi mynd allan i dendr ar y gefnogaeth Taliadau Uniongyrchol yn ystod 2021/22. Diverse Cymru wedi bod yn llwyddiannus a wedi cychwyn ein cefnogi. Materion rhwystredig wedi bod yn ystod dyddiau cynnar y gytundeb ond y gobaith yw symud rhai o'r materion ymlaen wrth gydweithio gyda Diverse Cymru dros y cyfnod nesaf.

Nid yw'r argymhellion ar gofrestr risg yr Adran ar hyn o bryd, ond bosib bydd angen ychwanegu yn fuan.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhan 1:

-Adolygu'r wybodaeth gyhoeddus a'r deunydd sydd ar gael yn esbonio taliadau uniongyrchol. Sicr angen sylw, a bydd hyn yn cael ei weithredu gyda chefnogaeth y Swyddog Prosiect Busnes a'r Swyddog Gwybodaeth. *Erbyn diwedd 2022-23.*

-Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol yn rywbeth sydd angen ei ddilyn i fyny, a'r gobaith ydi bydd hyn yn sicrhau hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol ym mhellach, a hefyd cynnwys yn y sgwrs gychwynnol gyda unigolion sy'n derbyn gwasanaethau. *Erbyn diwedd 2022/23.*

Rhan 2:

-Bydd cario 'mlaen y berthynas cydweithio gyda Diverse Cymru a sicrhau fod deunyddiau cyhoeddus clir ar gael yn sicrhau fod y broses taliadau uniongyrchol yn cael ei esbonio yn glir a mewn iaith dealladwy i unigolion a'u teuluoedd. *Erbyn diwedd 2022-23.*

-I helpu efo recriwtio a chynnal cynorthwywyr personol, mae disgwyliad i Diverse Cymru fod yn datblygu cofrestr, ac mae darparwyr eraill ar draws y Sir wedi holi er mwyn cael mynediad/bwydo mewn i'r gofrestr.

Rhan 3:

-Dim system werthuso/golwg system gyfan ar hyn o bryd. Hyn yn rywbeth sydd angen ei ddatblygu ac angen edrych arno cyn gynted a phosib. Bydd y swyddog prosiect busnes yn ail edrych ar y Gwasanaeth gyda'r Uwch Reolwr Busnes a mae'n debyg bydd adroddiad cabinet maes o law, ond mae blaenoriaethau arall ar hyn o bryd, felly er bydd mesurau yn cael eu datblygu yn fuan, amserlen llawn o werthusiad system gyfan *erbyn diwedd 2023/24.*

Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio.